

PWYLLGOR CYNLLUNIO	DYDDIAD: 28/09/2026
ADRODDIAD Y PENNAETH ADRAN CYNORTHWYOL	

Rhif: 2

Rhif y Cais: C26/0946/44/EIA

**Dyddiad
Cofrestru: 24/12/2025**

Math y Cais: Asesiad Effaith Amgylcheddol

Cymuned: Porthmadog

Ward: Porthmadog

Bwriad: Estyniad i Gompownd Selio Pennau Ceblau presennol Wern (CSEC) gan gynnwys mynediad parhaol newydd; CSEC a Thŷ Pen Twannel (THH) newydd Minffordd gyda mynediad parhaol; tynnu CSEC presennol Garth; gosod ceblau 400 cilofolt (kV) newydd i ddisodli ceblau 400 kV a 132 kV diangen; a gwaith seilwaith a gwaith ategol cysylltiedig arall.

Lleoliad: Tir ar hyd Coridor yr A483, Porthmadog

**Crynodeb o'r
Argymhelliad:** CANIATÁU GYDAG AMODAU

PWYLLGOR CYNLLUNIO	DYDDIAD: 28/09/2026
ADRODDIAD Y PENNAETH ADRAIN CYNORTHWYOL	

1. Disgrifiad:

- 1.1 Mae hwn yn gais ar gyfer estyniad i Gompownd Selio Pennau Cebiau (CSEC) presennol Wern gan gynnwys mynediad parhaol newydd; CSEC a Thŷ Pen Twnnel (THH) newydd Minffordd gyda mynediad parhaol; tynnu CSEC presennol Garth ; gosod ceblau 400 cilofolt (kV) newydd i ddisodli ceblau 400 kV a 132 kV diangen; a gwaith seilwaith a gwaith ategol cysylltiedig arall.
- 1.2 Mae'r Prosiect yn rhan o'r uwchraddiadau trawsyrru rhwydwaith ehangach sydd eu hangen i hwyluso'r gwaith o gysylltu 50 Gigawat (GW) o ynni gwynt ar y môr erbyn 2030. Mae cynyddu capasiti ar y llinell drawsyrro bresennol rhwng is-orsafodd Pentir a Thrawsfynydd wedi cael ei nodi fel cam y mae angen ei gymryd ar frys i ddarparu mwy o gapasiti trawsyrru. Mae hyn yn cael ei gydnabod gan Ofgem (y rheoleiddiwr ynni cenedlaethol), sydd wedi nodi bod y gwaith angenrheidiol yn Fuddsoddiad Trawsyrru Strategol Cyflym (ASTI).
- 1.3 Mae angen caniatâd cynllunio llawn gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol perthnasol ar gyfer:
- 1.4 Pentir – Amnewid ceblau tanddaearol presennol; gosod ceblau tanddaearol traws-safle newydd yn is-orsaf bresennol Pentir; a gwaith ategol. Cyflwynwyd cais cynllunio a ganiatawyd gan y Pwyllgor Cynllunio o dan gyfeirnod C25/0947/25/EIA.
- 1.5 Bryncir - is-orsaf newydd ynghyd â gwaith seilwaith a gwaith ategol cysylltiedig, gan gynnwys ffordd fynediad newydd o'r A487 ac uwchraddio trac mynediad amaethyddol presennol, a cheblau 132 kV tanddaearol newydd i gysylltu â'r llinell Rhwydwaith Trydan bresennol uwchben. Cyflwynwyd cais cynllunio o dan gyfeirnod C25/0949/36/EIA.
- 1.6 Ceblau Glaslyn (y cais hwn) – estyniad i Gompownd Selio Pennau Cebiau presennol Wern (CSEC) gan gynnwys mynediad parhaol newydd; CSEC a Thŷ Pen Twnnel (THH) newydd Minffordd gyda mynediad parhaol; tynnu CSEC presennol Garth; gosod ceblau 400 kV newydd i ddisodli ceblau 400 kV a 132 kV diangen; a gwaith seilwaith a gwaith ategol cysylltiedig arall.
- 1.7 Trawsfynydd – Gosod ceblau tanddaearol a phennau selio ceblau newydd, adweithydd siynt a nenbont a lledu rhan o'r ffordd fynediad bresennol yn y compownd sydd wedi'i ffensiio yn is-orsaf Trawsfynydd a gwaith ategol. Mae'r safle wedi'i leoli yn ardal Parc Cenedlaethol Eryri, ac mae cais cynllunio wedi'i gyflwyno i Awdurdod y Parc.
- 1.8 Mae'r gwaith arfaethedig a gynhwysir yn y cais hwn yn cwmpasu 106.4 hectar ac yn mesur oddeutu 6 km, rhwng CSEC Wern a Minffordd gan ddilyn coridor Ffordd Osgoi Porthmadog yr A487 yn fras, sy'n rhedeg ar y cyfan i gyfeiriad dwyrain-gorllewin.
- 1.9 Yn mynd o'r gorllewin i'r dwyrain, mae'r llwybr yn pasio drwy Gylchfan Porthmadog, o dan Ffordd Osgoi Porthmadog yr A487, ac yn croesi Rheilffordd Ucheldir Cymru (WHHR) a Rheilffordd Ffestiniog ac Ucheldir Cymru (FfWHR). Mae'n parhau i'r gogledd o Glwb Chwaraeon Madog cyn troi tua'r de a phasio o dan Ffordd Osgoi Porthmadog yr A487 eto. Yna mae'r llwybr yn croesi Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig Glaslyn (SoDdGA), gan barhau i gyfeiriad y dwyrain tuag at ei derfyn yn CSEC presennol Garth.

PWYLLGOR CYNLLUNIO	DYDDIAD: 28/09/2026
ADRODDIAD Y PENNAETH ADRAN CYNORTHWYOL	

- 1.10 Gellir rhannu'r gwaith arfaethedig i'r elfennau canlynol; CSEC Wern, Ceblau Glaslyn, CSEC Garth, Tŷ Pen Twannel a CSEC Minffordd, mynediad adeiladu a mynediad gweithredol, a chrynhwir y rhain yn eu tro isod.

CSEC Wern

- 1.11 Byddai CSEC Wern yn cael ei uwchraddio i ddarparu 12 o geblau newydd mewn dwy gylched. Mae'r gwaith yn cynnwys gosod offer foltedd uchel newydd, sylfeini, strwythurau cynnal, a seilwaith cysylltiedig megis draenio, mynediad, a llain galed. Byddai'r compownd yn cael ei ymestyn tua'r dwyrain, gan gynyddu ei faint, gyda'r angen am ffens ddiogelwch newydd 2.4m a thynnu rhai coed. Byddai ffordd fynediad barhaol newydd 1.26 km yn cael ei hadeiladu o'r A498, gan gynnwys gatiau, ardaloedd troi, a chysylltiadau â mynedfeydd caeau presennol. Byddai ffos hidlo gyfochrog gyda nodweddion draenio a siambrau arolygu hefyd yn cael ei gosod ar hyd y llwybr mynediad.

Ceblau Glaslyn

- 1.12 Bydd ceblau 132 kV a 400 kV diangen yn cael eu tynnu'n rhannol, gyda rhai darnau yn cael eu cadw yno er mwyn osgoi effeithiau ar gynefinoedd sensitif a rhywogaethau gwarchodedig. Byddai'r ceblau sy'n aros yn cael eu torri, eu draenio, eu glanhau, eu capio a'u monitro drwy byllau am gyfnod o oddeutu 10 mlynedd. Mae llwybr y cebl newydd tua 6 km o hyd, ac yn bennaf yn croesi tir amaethyddol ond mae hefyd yn rhedeg ar draws ffyrdd, rheilffyrdd a chyrsiau dŵr. Bydd y gwaith gosod yn gyfuniad o gloddio ffosydd agored a defnyddio Drilio Cyfeiriadol Llorweddol (HDD), gan gyfyngu ar y gwaith claddu uniongyrchol. Bydd ceblau 400 kV newydd yn rhai o fath XLPE, gan ddileu'r angen am olew a seilwaith cysylltiedig. Bydd darnau o'r cebl yn cael eu gosod o ddrymiau a'u cysylltu o fewn baeau ar y cyd wedi'u selio, mewn lleoliadau sy'n cyd-fynd â'r cyfyngiadau technegol, mynediad ac amgylcheddol.

Tŷ Pen Twannel (THH), CSEC Minffordd, a CSEC Garth

- 1.13 Bwriad gwreiddiol THH Minffordd, rhan o brosiect EVIP, oedd cysylltu â Cheblau presennol Glaslyn yn CSEC Garth. Fodd bynnag, mae'r prosiect cyfredol yn caniatáu cysylltu ceblau newydd yn uniongyrchol ger THH, gan leihau hyd y ceblau, ac felly gellir cael gwared ar CSEC Garth. Gan na ellir cysylltu'r ddau fath o gebl yn uniongyrchol o dan y ddaear, bydd CSEC Minffordd newydd yn cael ei adeiladu ger THH i hwyluso'r cysylltiad. Mae hyn yn ffurfio un gosodiad integredig. Bydd y CSEC wedi'i leoli ar dir a nodwyd yn flaenorol ar gyfer tirlunio, ac mae angen cynigion tirlunio diwygiedig. Mae diweddariadau dylunio'r THH (a gymeradwywyd o dan C20/0244/08/LL) yn cynnwys cynnydd o 1m yn lefel y tir gan fod y model perygl llifogydd wedi'i ddiweddarau, newid yn siâp y gorchudd siafft o gylchol i bet-ryal, a mân addasiadau i uchder a draenio.
- 1.14 Bydd CSEC Garth yn ddiangen unwaith y bydd ceblau'r prosiect EVIP wedi'u cysylltu yn CSEC Minffordd. O dan y gwaith arfaethedig, byddai'r holl seilwaith presennol yn y compownd yn cael ei dynnu hyd ddyfnder o 1m cyn adfer y safle. Byddai hyn yn cynnwys adfer y tirwedd trwy blannu coetir, prysgwydd a glaswelltir.
- 1.15 Bydd THH Minffordd yn mesur oddeutu 15.18 m wrth 12.17 m a 6.09 m o uchder. Bydd CSEC Minffordd yn cynnwys seilwaith trydanol newydd, cafnau ceblau ar gyfer ceblau EVIP a Glaslyn, a ffens ddiogelwch lwyd i integreiddio â'r dyluniad cyffredinol.

PWYLLGOR CYNLLUNIO	DYDDIAD: 28/09/2026
ADRODDIAD Y PENNAETH ADUAN CYNORTHWYOL	

Asesiad Effaith Amgylcheddol ac ymgynghori statudol

- 1.16 Mae'r gwaith arfaethedig yn rhan o'r Prosiect ehangach, ac mae rhan ohono (sef ailosod ceb-lau trydan foltedd uchel o dan y Glaslyn) wedi'i gadarnhau fel datblygiad sy'n gofyn am Asesiad Effaith Amgylcheddol (AEA) fel y cadarnhawyd yn y farn sgrinio a ddarparwyd o dan gyfeirnod C24/0806/08/SC o dan Reoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Asesiad Effaith Amgylcheddol) (Cymru) 2017. Mae Datganiad Amgylcheddol (ES) wedi'i baratoi ar gyfer y prosiect cyfan.
- 1.17 Mae Cyfrol 4 y Datganiad Amgylcheddol yn ymwneud yn benodol â gwaith Glaslyn ac fe'i cefnogir gan Gyfrolau 6 (Gwaith Ehangach), Cyfrol 7 (Y prosiect a'r effeithiau cronus) a Chyrol 8 (Atodiadau Technegol).
- 1.18 Oherwydd maint y safle, diffinnir y cais hwn fel datblygiad mawr. Fel rhan o'r cais, yn unol â gofynion y Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Gweithdrefn Datblygu Cyffredinol) (Cymru), derbyniwyd adroddiad ymgynghori cyn gwneud cais fel rhan o'r cais (PAC). Mae'r adroddiad yn dangos bod y datblygwr wedi hysbysu'r cyhoedd a'r ymgynghorai statudol am y bwriad cyn cyflwyno cais cynllunio ffurfiol.

2. Polisiâu Perthnasol:

- 2.1 Mae adran 38(6) Deddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 a pharagraff 2.1.2 Polisi Cynllunio Cymru yn pwysleisio y dylid gwneud penderfyniadau cynllunio yn unol â'r Cynllun Datblygu, oni bai bod ystyriaethau materol yn nodi fel arall. Mae ystyriaethau cynllunio yn cynnwys y Polisi Cynllunio Cenedlaethol a'r Cynllun Datblygu Lleol.
- 2.2 Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn rhoi dyletswydd ar y Cyngor i gymryd camau rhesymol wrth arfer ei swyddogaethau i gyflawni'r saith nod llesiant sydd yn y Ddeddf. Mae'r adroddiad hwn wedi'i baratoi gan ystyried dyletswydd y Cyngor a'r 'egwyddor datblygu cynaliadwy', fel sydd wedi'i nodi yn Neddf 2015. Wrth ffurfio'r argymhellid mae'r Cyngor wedi ceisio sicrhau bod anghenion y presennol yn cael eu diwallu heb beryglu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion hwythau.
- 2.3 **Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Gwynedd a Môn 2011-2026 a fabwysiadwyd ar 31 Gorffennaf 2017**

- PS 1: Yr Iaith Gymraeg a'r Diwylliant Cymreig
- PS 4: Trafnidiaeth gynaliadwy, datblygiad a hygyrchedd
- PS 5: Datblygu Cynaliadwy
- PS 13: Darparu cyfleoedd ar gyfer economi ffyniannus
- PS 19: Gwarchod a lle bo'n briodol gwella'r amgylchedd naturiol
- PS 20: Cadw a lle bo'n berthnasol gwella asedau treftadaeth
- TRA 4: Rheoli ardrawiadau cludiant
- PCYFF 2: Meini Prawf Datblygu
- PCYFF 3: Dylunio a siapiau lle
- PCYFF 4: Dylunio a thirweddau
- PCYFF 6: Cadwraeth Dŵr
- AMG 2: Ardaloedd o Dirwedd Arbennig

PWYLLGOR CYNLLUNIO	DYDDIAD: 28/09/2026
ADRODDIAD Y PENNAETH ADRAN CYNORTHWYOL	

- AMG 3: Gwarchod a gwella nodweddion a rhinweddau sydd yn nodedig i gymeriad y dirwedd leol
- AMG 5: Cadwraeth Bioamrywiaeth Leol
- AMG 6: Gwarchod Safleoedd o Arwyddocâd Rhanbarthol neu Lleol
- AT 1: Ardaloedd Cadwraeth, Safleoedd Treftadaeth y Byd a Thirweddau, Parciau a Gerddi Hanesyddol Cofrestredig
- AT 4: Diogelu safleoedd archeolegol nad ydynt wedi'u dynodi a'u gosodiad
- MWYN 5: Clustogfeydd o amgylch safleoedd mwynau
- Canllaw Cynllunio Atodol – Cynnal a Chreu Cymunedau Unigryw a Chynaliadwy 2019
- Canllawiau Cynllunio Atodol – Tirwedd Lechi Gogledd Orllewin Cymru

2.4 Polisïau Cenedlaethol:

- Cymru'r Dyfodol: Y Cynllun Cenedlaethol 2040
- Polisi Cynllunio Cymru (Argraffiad 12, 2024)
- Nodyn Cyngor Technegol 5: Cadwraeth Natur a Chynllunio
- Nodyn Cyngor Technegol 11: Sŵn
- Nodyn Cyngor Technegol 15: Datblygu, Llifogydd ac Erydu arfordirol
- Nodyn Cyngor Technegol 18: Trafnidiaeth
- Nodyn Cyngor Technegol 24: Yr Amgylchedd Hanesyddol
- Nodyn Cyngor Technegol Mwynau 1 (MTAN) Cymru: Agregau

3. Hanes Cynllunio Perthnasol:

Lleoliad	Rhif Cyfeirnod Cynllunio	Disgrifiad o'r datblygiad	Dyddiad penderfynu
Tir Ger Compownd Selio Pennau Ceblau Garth, Minffordd, Penrhyndeudraeth	C22/0905/08/RA	Rhyddhau amod 3 (Cytuno lliw ffens), rhannol ryddhau amod 6 (Cyflwyno Cynllun Adeiladu a Rheoli Amgylcheddol (CEMP) a 7 (Cynllun gweithredu tirwedd) ar Ganiatâd Cynllunio C20/0244/08/L	14/12/2022
Tir Ger Compownd Selio Pennau Ceblau Garth, Minffordd, Penrhyndeudraeth	C22/0740/08/RA	Rhyddhau amod 4 yn llawn (Cyflwyno Cynllun Rheoli Traffig Adeiladu) a rhyddhau amod 6 yn llawn (cyflwyno Cynllun Adeiladu a Rheoli Amgylcheddol (CEMP)) ar ganiatâd cynllunio C20/0244/08/L	09/09/2024
Tir Ger Compownd Selio Pennau Ceblau Garth, Minffordd, Penrhyndeudraeth	C22/0653/08/RA	Rhannol ryddhau amod 6 (Cyflwyno Cynllun Adeiladu a Rheoli Amgylcheddol (CEMP)) ar ganiatâd cynllunio C20/0244/08/L	11/10/2022

PWYLLGOR CYNLLUNIO	DYDDIAD: 28/09/2026
ADRODDIAD Y PENNAETH ADRAN CYNORTHWYOL	

Tir Ger Compownd Selio Pennau Ceblau Garth, Minffordd, Penrhyndeudraeth	C22/0514/08/RA	Rhyddhau amod 6 (manyllion Cynllun Rheoli Amgylcheddol- Datganiad Dull Ymlusgiaid) ar ganiatâd cynllunio C20/0244/08/L	28/06/2022
Tir Ger Compownd Selio Pennau Ceblau Garth, Minffordd, Penrhyndeudraeth	C22/0509/08/RA	Rhyddhau amod 13 (manyllion rhaglen o waith archeolegol) ar ganiatâd cynllunio C20/0244/08/L	17/06/2022
Tir Ger Compownd Selio Pennau Ceblau Garth, Minffordd, Penrhyndeudraeth	C20/0244/08/LL	Mae'r datblygiad canlynol wedi'i leoli o fewn ffiniau Awdurdod Cynllunio Lleol Cyngor Gwynedd: 1) Codi adeilad pen twnnel y Gorllewin (gan gynnwys y compownd adeiladu cysylltiedig) yn Garth ynghyd â thrac mynediad parhaol. Mae'r datblygiad canlynol wedi'i leoli o fewn ffiniau Awdurdod Cynllunio Lleol Parc Cenedlaethol Eryri: 2) Codi adeilad pen twnnel dwyreiniol (gan gynnwys y compownd adeiladu cysylltiedig), compownd selio pen a mynediad parhaol yn Cilfor 3) Compownd selio pen newydd ar ochr ddwyreiniol Aber Dwyrdd i gysylltu'r ceblau tanddaearol â'r llinell uwchben. Nid oes angen caniatâd cynllunio ffurfiol ar gyfer y datblygiad canlynol: Byddai'r cynigion hyn yn galluogi adeiladu twnnel tanddaearol i gynnwys ceblau trydan a thynnu'r 10 peilon presennol a'r llinellau uwchben cysylltiedig ar draws Aber Dwyrdd. Mae'r cais yn croesi'r ffin rhwng Cyngor Gwynedd a Pharc Cenedlaethol Eryri ac felly efallai y	18/12/2020

PWYLLGOR CYNLLUNIO	DYDDIAD: 28/09/2026
ADRODDIAD Y PENNAETH ADRAN CYNORTHWYOL	

		byddwch yn derbyn ymgynghoriad gan y ddau awdurdod mewn perthynas â'r datblygiad sydd wedi'i leoli o fewn ei ffiniau.	
Prif Lein Rheilffordd Arfordir y Cambrian, Minffordd, Penrhyndeudraeth, LL48 6HP	C09M/0140/08/LL	AIL-GYFEIRIO TRAC RHEILFFORDD PRESENNOL, WAL GYNNAL, SIGNALAU, FFENSYS TERFYN A NEWID DEFNYDD I DIR RHEILFFORDD WEITHREDOL	10/02/2010
Prif Lein Rheilffordd Arfordir y Cambrian, Minffordd, Penrhyndeudraeth, LL48 6HP	C11/0162/08/LL	DIWYGIO AMOD 2 AR GANIATAD C09M/0140/08/LL ER MWYN NEWID YCHYDIG AR DDYLUNIAD, LLEOLIAD A GORFFENIAD WAL GYNNAL	15/04/2011
Caeau yn - Fferm Pensyflog, Porthmadog, LL499PW	C10D/0298/44/LL	NEWID DEFNYDD CAEAU AMAETHYDDOL I'W DEFNYDDIO AR GYFER "QUAD TREKKING" O 1 MAWRTH - 31 HYDREF A GOSOD PORTACABIN FEL SWYDDFA	29/11/2010
WERN MANOR, Porthmadog, Gwynedd, LL49 9SH	C05D/0750/36/LL	ADDASU AC AIL-DDATBLYGU MAENORDY A DDEFNYDDIR FEL CARTREF NYRSIO AC AIL- DDATBLYGU YSTABLAU AC ADEILADAU ALLANOL I FFURFIO 12 UNED PRESWYL, AC ADDASU ADEILADAU FFERM YN 14 UNED GWYLIAU YNGHYD Â DYMCHWEL YSGUBOR AGORED WRTH OCHR TRAC Y FFERM AC ADEILADU WAL FFIN AR HYD OCHR Y TRAC	29/03/2007

Datblygiadau sy'n gysylltiedig â phrosiectau EIA;

Lleoliad	Rhif Cyfeirnod	Disgrifiad o'r datblygiad	Dyddiad
----------	----------------	---------------------------	---------

PWYLLGOR CYNLLUNIO	DYDDIAD: 28/09/2026
ADRODDIAD Y PENNAETH ADRAN CYNORTHWYOL	

	Cynllunio		penderfynu
Tir i'r de o'r A487, Glan Dwyfach, Garndolbenmaen, LL51 9PQ	C25/0949/36/EIA	Cais ar gyfer darparu is-orsaf newydd ynghyd â seilwaith a gwaith cysylltiol i gynnwys ffordd mynediad newydd o'r A487 ac uwchraddio ffordd fynediad amaethyddol a gosod ceblau tanddaearol 132 kV newydd er mwyn cysylltu gyda'r llinell Rhwydwaith Trydan presennol uwchben.	18/05/2026
Is-orsaf Pentir, Bangor, LL57 4ED	C25/09472/25/EIA	Amnewid ceblau tanddaearol presennol a gosod ceblau tanddaearol traws-safle newydd yn is-orsaf bresennol Pentir a gwaith ategol.	Amh.

4. Ymgynghori:

Ymgynghorai	Ymateb
Cyngor Tref Penrhyndeudraeth	<u>Derbyniwyd ymateb ar 18/05/2026:</u> <i>Dim gwrthwynebiad</i>
Cyngor Tref Porthmadog	<u>Derbyniwyd ymateb ar 13/05/2026:</u> <i>Dim gwrthwynebiad</i>
Uned Trafnidiaeth Cyngor Gwynedd:	<u>Derbyniwyd ymateb ar 27/05/2026:</u> Cyfeiriai at y cais uchod C25/0946/44/EIA ar dir ar hyd coridor A483, Porthmadog. Argymhellaf dynnu'r cais i sylw Llywodraeth Cymru am ystyriaeth gan fod y cais yn cyfeirio at gefnffordd yn hytrach na ffordd sirol.
Gwasanaeth Gwarchod y Cyhoedd Cyngor Gwynedd (Iechyd yr Amgylchedd):	<u>Derbyniwyd ymateb ar 21/05/2026:</u> Mae'r Gwasanaeth wedi adolygu'r dogfennau a gyflwynwyd, gan gynnwys: - Datganiad Amgylcheddol (Diweddariad Pennod yr Amgylchedd Dŵr - Cynllun Lliniaru Pwmp Llifogydd – Nodyn Technegol Ategol Nodir bod pymphiau a generaduron yn cael eu cynnig fel rhan o'r mesurau lliniaru canlyniadau llifogydd. Fodd bynnag, nid oes digon o wybodaeth wedi'i ddarparu i asesu'n ddigonol yr effaith swm posibl ar dderbynyddion preswyl cyfagos.

PWYLLGOR CYNLLUNIO	DYDDIAD: 28/09/2026
ADRODDIAD Y PENNAETH ADRAN CYNORTHWYOL	

Mae'r dogfennau a gyflwynwyd yn cynnwys gwybodaeth gyfyngedig yn unig am ffynonellau sŵn a lefelau sain ddangosol (Modur gwactod: tua 75 dB(A) ar 1 metr; Generadur: tua 69 dB(A) ar 7 metr). Nid oes unrhyw fanylion am lefelau sŵn a ragwelir mewn eiddo preswyl cyfagos, dim asesiad o effeithiau sŵn cronus, a dim ystyriaeth o nodweddion tonal posibl sy'n gysylltiedig â'r offer.

Mae'r dogfennau yn nodi y bydd sŵn gweithredol o'r pypiau a'r offer cysylltiedig yn cael ei gyfyngu i 35 dB(A) ar 1 metr o eiddo preswyl, neu 10 dB yn uwch na'r lefel sŵn cefndir cynrychioliadol yn ystod y nos (LA90). Nid yw'r Gwasanaeth yn cytuno â'r dull hwn. Mae'r Gwasanaeth yn awgrymu y dylid rheoli lefelau sŵn rhwng 5 dB a 10 dB islaw'r lefel sŵn gefndir presennol, nid uwchlaw.

Er bod caeau acwstig a sgrinio yn cael eu cynnig, nid oes unrhyw gyfrifiadau ategol na thystiolaeth wedi'u darparu i ddangos y bydd y mesurau lliniaru hyn yn cyflawni'r terfynau sŵn a nodwyd.

Yn gyffredinol, mae'r wybodaeth a gyflwynwyd yn annigonol i alluogi cynnal asesiad llawn o'r effaith sŵn posibl ar eiddo preswyl cyfagos a gyfyd o'r pypiau arfaethedig, generaduron a'r offer cysylltiedig. Yn benodol, mae absenoldeb gwaelodlin data sŵn, rhagolygon sŵn ar sail y derbynnydd ac asesiad effaith sŵn cynhwysfawr yn golygu na ellir ar hyn o bryd asesu'r cais yn llawn ynglŷn â derbynioldeb gosod offer o'r fath o safbwynt sŵn.

Derbyniwyd ymateb ar 31/03/2026:

Diolch i chi am y cyfle i gynnig sylwadau ar y cais uchod. Nid oes gan y Gwasanaeth unrhyw wrthwynebiad mewn egwyddor i'r gwaith terfynol sy'n cael ei gyflwyno ond rydym yn bryderus nad yw ardrawiad sŵn a dirgryniant o waith adeiladu / datblygu'r prosiect wedi derbyn ystyriaeth fanwl. Nid oes 'dulliau ymarferol gorau' ar gyfer lliniaru sŵn / dirgryniant wedi eu adnabod / crybwyll. Yn y wybodaeth a ddarparwyd gyda'r cais mae'r ymgeisydd yn nodi, mewn perthynas a rheoli sŵn a dirgryniant o'r gwaith adeiladu/ datblygu y byddent am ddod i gytundeb ffurfiol gyda Gwasanaeth Gwarchod y Cyhoedd er mwyn arddangos eu bod yn cyflawni 'dulliau ymarferol gorau' l i liniaru'r ardrawiad ar drigolion lleol. Mae'r ymgeisydd wedi ymostwng cais am gytundeb ffurfiol flaenllaw (dan rhan 61 y Ddeddf Rheoli Llygredd 1974) ar gyfer y gwaith adeiladu i Wasanaeth Gwarchod y Cyhoedd ond cafodd ei wrthod oherwydd diffyg gwybodaeth. Yn anffodus felly, ni ellir cefnogi'r cais gan nad oed tystiolaeth ddigonol wedi ei gyflwyno y bydd sŵn a dirgryniant yn deillio o waith adeiladu/ datblygu ddim yn creu ardrawiad annerbyniol i drigolion lleol.

Dyma grynoded o'n pryderon:

1. Mae'r ymgeisydd yn nodi y bydd y gwaith adeiladu /datblygu yn un hir dymor (3 mlynedd +)
2. Mae eu dogfen PTNO PTC1 yn cynnig amserlen ond nid yw'n glir pryd

PWYLLGOR CYNLLUNIO	DYDDIAD: 28/09/2026
ADRODDIAD Y PENNAETH ADRAN CYNORTHWYOL	

fydd y gweithgareddau rhagdybir fydd yn cael yr effaith mwyaf ar drigolion yn digwydd a lle.

3. Ceir cydnabyddiaeth yn eu asesiad sŵn a dirgrynant (ES Vol 4 Glaslyn Cables Works 11. Noise and Vibration) fod ardrawiad o'r gwaith mewn rhai anheddau yn:

i) Gan gyfeirio ar ddull asesu ABC Safon Brydeinig 5228-1, bydd lefel sŵn dros rhai cyfnodau gwaith mewn rhai eiddo yn creu ardrawiad uchel a effaith handwyol sylweddol. Yn ogystal, bydd nifer o eiddo yn debygol o dderbyn ardrawiad canolig a effaith handwyol cymedrol.

ii) Gan gyfeirio ar Safon Brydeinig 5228-2 bydd 2 eiddo yn debygol o ddioddef dirgrynant sylweddol yn ystod adeiladu ffordd / trac fydd yn creu ardrawiad effaith canolig.

4. Nid yw'n glir pa fesurau lliniaru/ rheoli effaith y bwriedir eu mabwysiadu ar gyfer sŵn a dirgrynant.

5. Nodir bod posibilrwydd y bydd gwaith, ar brydiau yn ymestyn 24 awr y dydd (cyfeirir yn arbennig at waith drilio 'Horizontal Directional Drilling', tynnu a chysylltu cablau) a ceir hefyd gyfeiriad at ymestyn oriau gwaith i wneud y mwyaf o oriau dydd misoedd yr Haf. Nid oes unrhyw eglurder o ran trefniadau gwaith / oriau gwaith y bwriedir eu dilyn.

Uned
Bioamrywiaeth
Gwynedd

Derbyniwyd yr ymateb ar 24/08/2026:

Prif Faterion Ecolegol

- Bydd ôl-troed y datblygiad oddeutu 48ha fydd yn golygu colli cyfanswm oddeutu 33ha o gynefinoedd o werth ecolegol (canolig i uchel) bydd mwyafrif y cynefinoedd yma yn cael eu creu.
- Diffyg arolygon cyfredol o safbwynt rhywogaethau wedi'u diogelu e.e. moch daear
- Mesurau Gwella Bioamrywiaeth annigonol
- Effaith ar gynefinoedd SoDdGA Glaslyn a'r tir fydd yn cael ei gymryd yn y SoDdGA (0.04ha a 1.66ha)
- Effaith ar boblogaethau adar cynefinoedd SoDdGA Glaslyn
- Nid yw'r effaith ar SoDdGA Ysbyty Bron y Garth ac ACA Coedydd Meirionnydd a phoblogaeth yr ystlum pedol lleiaf oherwydd colli coed a choridor coed a cholli golau wedi ei asesu'n llawn.
- Hyder o adsefydlu, lliniaru'r SoDdGA gan weithio gyda'r trydydd parti a pherchnogion tir i sicrhau a gweithredu gwelliannau bioamrywiaeth.
- Gwybodaeth annigonol i gynefinoedd gael eu hadsefydlu i ddefnyddio tir dros dro yn ystod y gwaith adeiladu.
- Dogfennaeth rhy gymhleth
- Diffiniadau aneglur rhwng lliniaru a gwneud yn iawn am SoDdGA a chynefinoedd a gwelliannau bioamrywiaeth
- Diffyg hyder yn y camau lliniaru a gwneud yn iawn.
- Gwybodaeth am ddiweddariad yr arolwg heb ei gwblhau o ran llygod

PWYLLGOR CYNLLUNIO	DYDDIAD: 28/09/2026
ADRODDIAD Y PENNAETH ADRAN CYNORTHWYOL	

pengrwn y dŵr a moch daear.

- Nid yw'r asesiad o golli cynefinoedd dros dro wedi ei ystyried yn llawn h.y. yr amser mae cynefinoedd newydd yn ei gymryd i sefydlu ac a yw hi'n bosib ail-greu cynefinoedd fel coetir hynafol neu fignenni.
- Goleuadau yn effeithio ar lwybrau hedfan ystlumod
- Colli coed yn effeithio ar lwybrau hedfan ystlumod
- Effeithiau ar lwybr hedfan yr Ystlum Pedol Lleiaf oherwydd bod coeden/gwrych wedi ei thynnu/ei dynnu ynghyd â goleuadau
- Diffyg gwybodaeth am golli cwrs dŵr oherwydd cwlferu neu fynediad i bontydd
- Y ddogfen Budd Bioamrywiaeth Net (NBB) heb ei darparu eto.
- Dim arolygon gwaelodlin ecolegol o safle Tŷ Obry.
- Mae'r safle gwella ychwanegol oddi mewn i ddalgylch afon wahanol a Pharc Cenedlaethol Eryri.

Arolygon

Cynhaliwyd arolygon ar gyfer cynefinoedd, gwrychoedd a rhywogaethau. Coed a strwythurau i ystlumod glwydo. Mae rhai arolygon cynefinoedd a rhywogaethau eto i'w cwblhau megis ar gyfer Moch Daear, Llygod Pengrwn y Dŵr, y fisglen berlog (*fresh water pearl mussel*), planhigion, dyfrgwn.

Dylai arolygon o rywogaeth nad ydynt yn symudol fel y fisglen berlog fod wedi cael eu cynnal i lywio'r Asesiad Effaith Amgylcheddol(EIA).

Safleoedd Dynodedig

Mae'r safleoedd dynodedig a ganlyn oddi fewn i safle gwaith Glaslyn:

- Ardal Cadwraeth Arbennig (ACA) Coedydd Derw a Safleoedd Ystlumod Meirionnydd.
- SoDdGA Glaslyn
- SoDdGA Ysbyty Bron y Garth

Ardal Cadwraeth Arbennig (ACA) Coedydd Derw a Safleoedd Ystlumod Meirionnydd.

Mae'r safle yma wedi'i dynodi am ei chynefinoedd coetir a'i phoblogaeth o'r Ystlumod Pedol Lleiaf. Gweler y rhan ar yr Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd ynghyd â'r effaith ar safle Ysbyty Bron y Garth, isod.

SoDdGA(SSSI) Glaslyn

Dynodwyd SoDdGA Glaslyn oherwydd ei chynefinoedd corsio a'r poblogaethau adar. Mae hyn yn cynnwys yr aber, corsydd, gorlifdiroedd, cynefinoedd afonol, coetir gwlyb, planhigion masgwlaidd ac adar magu sy'n ymgynnull. Mae'r safle hefyd o ddiddordeb arbennig oherwydd poblogaeth y falwen brin *Vertigo lilljeborgi* a chlwydfannau meithrin i'r ystlumod pedol lleiaf *Rhinolophus hipposideros*, Llygod Pengrwn y dŵr, dyfrgwn ac Eog yr Iwerydd.

PWYLLGOR CYNLLUNIO	DYDDIAD: 28/09/2026
ADRODDIAD Y PENNAETH ADRAN CYNORTHWYOL	

Mae'r safle aberol yn cefnogi amryw o adar magu. Mae hwyaden yr eithin (*Tadorna tadorna*), y gornchwiglen (*Vanellus vanellus*), y giach cyffredin (*Gallinago gallinago*) a'r troellwr bach (*Locustella naevia*) yn magu yma, tra bod llawer o adar gwyllt y gwlyptir yn defnyddio'r ardal dros y gaeaf, gan gynnwys alarch y gogledd (*Cygnus cygnus*).

Bwriedir gosod deuddeg o geblau tanddaearol ar draws cors SoDdGA Glaslyn. Bydd hyn angen compownd adeiladu wedi ei leoli ar fin y SoDdGA ger Minffordd. Bydd y compownd adeiladu ym Minffordd yn golygu ardal fach o gynefin (0.06ha) (Gorlifdir Arfordirol a Cors Bori) yn SoDdGA Glasfryn yn cael ei cholli yn barhaol a 16ha yn cael ei golli dros dro. Bydd angen tynnu oddeutu 1.6ha (0.37% o'r SoDdGA) dros dro o laswelltir corsiog i hwyluso gosod pwll HDD (M23a *Juncus effusus/actiflorus* *Galium palustre* - porfa frwyn is-gymuned *Juncus actiflorus*).

Dan adran 28 o Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981 (fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000), rhaid i Gyngor Gwynedd, cyn rhoi caniatâd fydd yn golygu difrod i SoDdGA, ymgynghori gyda Chyfoeth Naturiol Cymru. Mewn llythyr dyddiedig 11 Awst 2026, dywedir eu bod yn fodlon gyda'r mesurau lliniaru a'r mesurau gwneud iawn arfaethedig gan yr ymgeisydd oherwydd yr effaith ar y SoDdGA. Mae'r ymgeisydd wedi darparu Atodiad i'r Datganiad Amgylcheddol sy'n amlinellu mesurau lliniaru a gwneud iawn, fydd yn cael eu gweithredu yn rhannol drwy drydydd parti. Mae Cyfoeth Naturiol Cymru hefyd yn gofyn am amodau cynllunio sy'n cynnwys arolwg botanegol cyn dechrau ar y gwaith yn ogystal â Chlerc Gwaith Ecolegol.

- Dylai arolygon botanegol gael eu cynnal cyn i'r gwaith ddechrau er mwyn gwarchod a thraws-leoli rhywogaethau planhigion prin.

Bydd y gwaith yn a ger SoDdGA Glaslyn hefyd yn aflonyddu ar adar oherwydd gweithgareddau adeiladu. Mae sawl rhywogaeth sy'n arbennig o sensitif i amhariad gweledol gan gynnwys y gylfinir (yn hedfan ar 275m), y pibydd coesgoch (ar 250m) hwyaden yr eithin (ar 199m) a'r rhostog gynffonfrith (*limosa lapponica*) (ar 163m).

- Rwyf yn argymhell fod hyn yn cael ei liniaru drwy amseru'r gwaith gyda'r llanw a'r tymhorau i ostwng a lleihau amharu ar yr adar.

SoDdGA Ysbyty Bron y Garth

Bwriedir hefyd ymgymryd â gwaith yn union ger SoDdGA Ysbyty Bron y Garth. Mae gan Gynllun Ceblau'r Glaslyn y potensial i effeithio ar ystlumod sy'n fforio a chymudo sy'n gysylltiedig â'r SoDdGA.

Mae'r asesiad effaith yng nghyfrol 4 tud. 87 yn asesu nad yw'r effaith ar SoDdGA Ysbyty Bron-y-Garth yn sylweddol (gweler yr isod). Mae yn awgrymu bod yr ystlumod (tybiaf eu bod yn cyfeirio at ystlumod Pedol lleiaf

PWYLLGOR CYNLLUNIO	DYDDIAD: 28/09/2026
ADRODDIAD Y PENNAETH ADRAN CYNORTHWYOL	

yn byw ger ffordd yr A487), ond rwyf yn anghytuno.

Datganiad Amgylcheddol (DA) "Dynodwyd y SoDdGA oherwydd bod ystlumod yn defnyddio adeilad yn y cyn ysbyty, dros 650m o'r man agosaf at y gwaith. Mae'r cynefin oddi amgylch yn y SoDdGA yn darparu cynefin bwydo pwysig i'r ystlumod a llinell hedfan a chysylltiadau i boblogaethau ystlumod eraill. Er y byddai'r gwaith yn amharu ychydig dros dro i achosi peth amhariad i ochr yr ardal o brysgwydd a choetir, a ddynodwyd ar gyfer ystlumod pedol lleiaf, dyma yw ochr y safle 38ha. Bydd yr ystlumod sy'n bresennol yma yn trigo ger Ffordd Osgoi Porthmadog gyfagos sef yr A487 a Rheilffordd y Cambrian, yn ogystal â phentref cyfagos (Minffordd), yr A497 a Chwarel Breedon Minffordd a safle'r Gwaith Asffalt."

Yn ychwanegol at y gwaith arfaethedig, fel rhan o'r cais cynllunio yma, mae gwaith ehangach fydd hefyd yn effeithio ar gynefinoedd a rhywogaethau yn ogystal â'r safleoedd dynodedig. Ymddengys y bu camddealltwriaeth am effaith colli coed a swyddogaeth ecolegol coed ar gyfer Ystlumod Pedol Lleiaf. Nid yw'r asesiad wedi llawn ystyried colli coridorau coediog a'u pwysigrwydd fel llinellau hedfan i Ystlumod PLI. Mae'n ymddangos mai dim ond coed sy'n cynnwys clwydfannau ystlumod sy'n cael eu hystyried fel nodweddion gaiff eu colli. Nid yw Ystlumod PLI yn clwydo mewn coed.

- Ymhellach, mae angen asesiad manwl o'r effaith ar goridorau hedfan i ystlumod.

Safleoedd Bywyd Gwyllt

Mae dau safle Bywyd Gwyllt Ymgeisiol yn ardal y gwaith arfaethedig. Gallai Safleoedd Bywyd Gwyllt sydd ar safle gwaith Glaslyn gael eu heffeithio yn uniongyrchol yn ystod y gwaith adeiladu drwy golli cynefin dros dro neu oherwydd aflonyddu.

- Ty'n-y-berllan - Mae terfyn deheuol Safle Bywyd Gwyllt Ymgeisiol (cWS) Ty'n y berllan yn gorgyffwrdd ychydig â therfyn safle gwaith Glaslyn. Dynodwyd y Safle Bywyd Gwyllt Ymgeisiol (cWS) ar gyfer cynefin coetir ac ni fydd yn cael ei effeithio yn uniongyrchol gan y gwaith arfaethedig.
- Mae Coed Bryn-twr/Wern cWS, gyda rhan ohoni wedi ei recordio fel coetir hynafol yn gorwedd ar hyd llwybr ffordd bresennol a fydd yn cael ei defnyddio dros dro cyn y gwaith o adeiladu ffordd fynediad barhaol at CSEC Wern. Mae angen ymgymryd â gwaith i dacluso'r coed yn y gyffordd gyda'r A497 i gynnal y llain gweledd presennol.

Gallai Safle Bywyd Gwyllt arall sydd yn gysylltiedig yn hydrolegol â'r safle gael eu heffeithio yn anuniongyrchol drwy newidiadau i ansawdd dŵr.

Gwarchodfa Natur NWWT

Mae gan Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt Gogledd Cymru (NWWT) warchodfa natur, Gwarchodfa Natur NWWT Traeth Glaslyn, sydd i gyd yn safle gwaith Glaslyn.

PWYLLGOR CYNLLUNIO	DYDDIAD: 28/09/2026
ADRODDIAD Y PENNAETH ADRAN CYNORTHWYOL	

Cynefinoedd

Cynefinoedd â blaenoriaeth sydd o bwysigrwydd uchel yn y safleoedd gwaith arfaethedig:

- Coetir Hynafol
- Coed hynafol a hynod
- Cors bori a gorlifdir arfordirol (o fewn ffin safle gwaith Glaslyn a'r ardal arfaethedig i'r gwaith).
- Cors bori a gorlifdir arfordirol (o fewn ffin safle gwaith Glaslyn a'r ardal arfaethedig i'r gwaith).
- Ffen tir isel a gwely cyrs (o fewn ffin safle gwaith Glaslyn ond y tu allan i ardal y gwaith uniongyrchol oherwydd defnyddio HDD).
- Morfa heli (o fewn ffin safle gwaith Glaslyn a'r ardal arfaethedig i'r gwaith).
- Tir llawr gwlad glaswelltir asid sych (o fewn ffin safle gwaith Glaslyn a'r ardal arfaethedig i'r gwaith).
- Glaswellt y gweunydd a phorfa frwyn (o fewn ffin safle gwaith Glaslyn a'r ardal arfaethedig i'r gwaith).
- Gwrychoedd.
- Afon.
- Merddwr/dŵr sefyll neu bwl dŵr.
- Coetir gwlyb.
- Coetir collddail.

Cynefinoedd fymryn y tu allan i waith Glaslyn:

- Perllan draddodiadol (0.04 km i'r dwyrain o ffin safle gwaith Glaslyn).
- Rhostir tir isel (0.16 km i'r gogledd-ddwyrain o ffin safle gwaith Glaslyn).
- Dôl tir llawr gwlad (0.72 km i'r de o ffin safle gwaith Glaslyn).
- Clogwyn morwrol a llethr (1.53 km i'r de o ffin safle gwaith Glaslyn).
- Mignen (1.90 km i'r gogledd o ffin safle gwaith Glaslyn).
- Cyforgors (1.90 km i'r gogledd o ffin safle gwaith Glaslyn).

Rhywogaeth

Rhywogaethau sydd o bwysigrwydd mawr i gadwraeth (h.y. wedi eu gwarchod a/neu yn adran 7) sydd yn y cynllun yn cynnwys: mochyn daear, dyfrgi, ystlum pedol leiaf, rhywogaethau eraill o ystlumod, malwen droellog Lilljeborg (*Vertigo lilljeborgi*), misglen berlog, mursen dinlas gyffredin, mursen las amrywiol a'r chwillen *Hydraena palustris*, pry gwellt *Limnephilus fuscicornis* (o bwysigrwydd lleol), llygoden bengron y dŵr, lleidllys Cymreig, ysbigrwynen fach, sawl math o adar hirgoes (fel y pibydd coesgoch, chwiwell, hwyaden yr eithin), ysgyfarnog, draenog, ffwlbart, llysywen, brithyll, eog, gwalth y pysgod, pibydd gwyrdd, rhostog gynffonddu, alarch y gogledd, neidr ddefaid, madfall, neidr wair, llyffant dafadennog.

PWYLLGOR CYNLLUNIO	DYDDIAD: 28/09/2026
ADRODDIAD Y PENNAETH ADUAN CYNORTHWYOL	

Effeithiau Ecolegol

Mae'r EIA yn archwilio'r effeithiau ecolegol a ganlyn:

Gallai Cynefinoedd Blaenoriaeth sydd ar safle gwaith Glaslyn gael eu heffeithio yn uniongyrchol yn ystod y gwaith adeiladu drwy golli cynefin dros dro, darnio neu oherwydd aflonyddwch. Gallai Cynefinoedd eraill sydd yn gysylltiedig yn hydrolegol â'r safle gael eu heffeithio yn anuniongyrchol drwy newidiadau i ansawdd dŵr. Gallai cyflwyniad neu wasgariad Rhywogaethau Ymwithol Anfroddol (INNS), (lle maent eisoes yn bodoli) yn ystod y gwaith adeiladu drwy symud peiriannau, cerbydau a phobl hefyd yn anuniongyrchol effeithio ar gynefinoedd blaenoriaeth drwy ddirywiad cynefinoedd. Gallai effeithiau ar ansawdd yr aer o lwch gaiff ei greu wrth adeiladu hefyd ddigwydd i gynefinoedd blaenoriaeth o fewn 50m o'r gwaith arfaethedig.

Adeiladu - colli cynefin

Bydd y ceblau arfaethedig yn croesi SoDdGA Glaslyn, ond byddant yn cael eu rhoi dan y ddaear a bydd gwaith adeiladu ag ôl-troed o 1.66ha yn y SoDdGA.

Fel a nodir yn y Datganiad Amgylcheddol, mae'r blychau cyswllt a'r compownd HDD yn golygu bod oddeutu 0.04ha o golli cynefin parhaol a 2.6ha o golli cynefin dros dro yn ardal de-ddwyreiniol SoDdGA Glaslyn, yn cynnwys Gorlifdir Arfordirol a Chors Bori (CFGF). Y posibilrwydd o golli planhigion y Lleidlys Cymreig, Ysbigfrwynen fach.

Ffynonellau effeithiau ecolegol posibl yn ystod y gwaith adeiladu yw:

Colli cynefinoedd – effeithiau uniongyrchol sy'n gysylltiedig â newidiadau mewn defnydd tir sy'n deillio o'r gwaith arfaethedig. Mae'r rhain yn cynnwys newidiadau tymor byr, dros dro mewn defnydd tir sy'n gysylltiedig â gwaith i hwyluso'r gwaith o atgyfnerthu'r ceblau a newid parhaol mewn defnydd tir oherwydd estyniad CSEC y Wern a chreu ffordd fynediad newydd barhaol i CSEC y Wern.

Adeiladu – diraddio cynefinoedd

Diraddio cynefin – effeithiau uniongyrchol neu anuniongyrchol sy'n arwain at leihau cyflwr cynefin a'i addasrwydd ar gyfer rhai neu'r cyfan o'r rhywogaethau y mae'n eu cefnogi, e.e. newidiadau mewn ansawdd aer sy'n effeithio ar goetir hynafol o lwch adeiladu neu effeithiau ar barthau gwarchod gwreiddiau coed.

Adeiladu – Marwolaeth rhywogaethau ac aflonyddwch a cholli cynefin

Marwolaethau rhywogaethau – effeithiau uniongyrchol ar boblogaethau rhywogaethau sy'n gysylltiedig â gweithgareddau adeiladu, e.e. clirio safle.

Aflonyddwch – effeithiau anuniongyrchol sy'n deillio o newid mewn amodau arferol (h.y. golau, sŵn, dirgryniad, gweithgarwch dynol) sy'n arwain at unigolion neu boblogaethau rhywogaethau yn newid ymddygiad neu ystod.

PWYLLGOR CYNLLUNIO	DYDDIAD: 28/09/2026
ADRODDIAD Y PENNAETH ADRAN CYNORTHWYOL	

Yn ogystal, rwyf wedi ystyried:

- Colli coridorau bywyd gwyllt – llwybrau hedfan i ystlumod, gosod cwlferi yn effeithio ar bysgod, dyfrgwn ac ati.
- Colli cynefinoedd magu a fforio

Adeiladu – lledaenu INNS

Lledaeniad INNS – dulliau adeiladu sy'n arwain at ledaenu INNS a diraddio cynefinoedd.

Gweithrediad – effeithiau rhywogaethau

Gallai ffynhonnell yr effeithiau posibl ar IEFs yn ystod y gwaith gynnwys:

Marwolaethau rhywogaethau – effeithiau uniongyrchol ar boblogaethau sy'n gysylltiedig â marwolaethau oherwydd gweithgareddau, e.e. torri gwair a strimio.

- Colli coridor bywyd gwyllt yn barhaol.

Aflonyddwch – effeithiau anuniongyrchol yn ystod y gweithrediad sy'n deillio o newid mewn amodau arferol (h.y. EMF, golau, sŵn, dirgryniad, gweithgaredd dynol) sy'n arwain at unigolion neu boblogaethau rhywogaethau yn newid ymddygiad neu ystod.

Lledaeniad Rhywogaethau Ymwthiol Anfroddol (INNS) – dulliau gweithredu sy'n arwain at ledaeniad INNS.

Colli Cynefin - Parhaol

Arwynebedd (hectar)/ hyd neu faint	Math	Pwysigrwydd Ecologol
0.06ha	Glaswelltir Corsiog	SoDdGA
0.14ha	Prysgwydd	
0.03 ha	Coetir llydanddail - lled-naturiol	S7
0.17 ha	Coetir llydanddail - planhigfa.	
0.21	Coetir cymysg - planhigfa	
0.14 ha	Prysgwydd – trwchus/parhaus	
0.13 ha.	Glaswelltir niwtral - wedi'i wella'n rhannol	S7?
0.52 ha	Glaswelltir gwael wedi'i wella'n rhannol	
0.20 ha	Glaswelltir wedi'i wella	

PWYLLGOR CYNLLUNIO	DYDDIAD: 28/09/2026
ADRODDIAD Y PENNAETH ADRAN CYNORTHWYOL	

0.29 ha	Glaswelltir Corsiog/Cors	
0.01 ha	Ymylol a llifogydd - llystyfiant ymylol.	
0.01 ha	Perlysieuyn tal arall a rhedyn - cynefinol	
0.04 ha	Glaswelltir mwynderau.	
0.59 km	llinell o goed	
80m	o wrych sy'n brin o rywogaethau	
10 m	o wrych sy'n gyfoethog o rywogaethau	S7
42	o Goed unigol	

Cyfanswm 1.94 o gynefinoedd wedi eu colli yn barhaol

10m o wrych yn gyfoethog o rywogaethau

80m o wrych sy'n brin o rywogaethau

75m o wrych sy'n gyfoethog o rywogaethau i gael ei ail-sefydlu ar ôl ei golli dros dro

Cyfanswm hyd y gwrychoedd a gollwyd yw 165m (gyda 85m o hyn yn wrych sy'n gyfoethog o rywogaethau)

Colli Cynefin - dros dro

- 0.66 ha o brysgwydd – trwchus/parhaus
- 0.04 ha of brysgwydd-gwasgaredig
- 0.065 ha o Laswelltir Asid - wedi ei led-wella
- 4.53 hectar o laswelltir Niwtral - wedi'i led-wella
- 10.07 hectar o laswelltir wedi'i wella
- 11.99 hectar o laswelltir cors/corsiog
- 12.83 hectar o laswelltir gwael wedi'i led-wella
- 0.05 ha o berlysiau tal eraill a rhedyn - cynefinol
- 4.35 hectar o dir wedi'i drin / aflonyddu - tir âr

PWYLLGOR CYNLLUNIO	DYDDIAD: 28/09/2026
ADRODDIAD Y PENNAETH ADARAN CYNORTHWYOL	

- 1.35 hectar o dir wedi'i drin / aflonyddu - glaswelltir amwynder
- 0.15 hectar o lystyfiant ymylol a llifogydd ymylol
- 0.14 hectar o dir wedi'i drin / aflonyddu – byrhoedlog/lluosflwydd byr
- 0.377 km llinell o goed
- 0.036 km merddwr/dŵr sefyll
- 0.78 dŵr yn llifo
- 0.75 km gwrych
- 28 Coed Unigol

CYFANSWM colli cynefinoedd dros dro 46.085ha

Afonydd, nentydd a chysiau dŵr

57 o groesfannau cwrs dŵr unigol a gynigir lle bo'n bosibl bydd y rhan fwyaf o gyrsgiau dŵr yn cael eu croesi o dan y ddaear trwy HDD.

Bydd 18 cwrs dŵr yn cael eu croesi gan HDD dros y chwe adran HDD gyda Cheblau Foltedd Uchel (HVC) wedi'u claddu rhwng 3.15 a 18 m o ddyfnder.

Bydd 15 cwrs dŵr yn cael eu croesi gan ffosydd agored gyda HVC wedi'i gladdu rhwng 1.0 a 1.17 m o ddyfnder (gan gynnwys y ddwy brif afon).

Wyth croesfan dros dro (pontydd â rhychwantau rhwng 3.1 a 6.7 m a ffyrdd mynediad).

Pum croesfan barhaol (pontydd gyda rhychwantau rhwng 3.38 – 6.46 m.

Pum cwrs dŵr i'w hail weithio ar gyfer mynediad.

Dargyfeirio dau gwrs dŵr dros dro trwy gwlferti o 85 a 110 m o hyd.

Dau waith daear cyfansawdd yn croesi ffosydd.

Dwy groesfan cwrs dŵr presennol sydd i'w cynnal.

Mesurau Lliniaru Ecolegol a gynigir yn y Datganiad Ecolegol (ES)

Mae gwaith Glaslyn wedi ceisio osgoi effeithio ar gynefinoedd, er enghraifft trwy gadw ceblau presennol yn y fan a'r lle i leihau'r effeithiau ar ystlumod a chynefinoedd, ond amcangyfrifir y bydd y gwaith yn arwain at golli 48 ha. Bwriedir ail-sefydlu'r rhan fwyaf o'r cynefinoedd, fodd bynnag, rwy'n pryderu nad yw'r amser hir a gymer i sefydlu cynefinoedd wedi'i ystyried yn llawn, ac ni ellir ail-greu rhai cynefinoedd fel coetir hynafol.

Bydd lliniaru yn cynnwys mesurau osgoi niwed i adar sy'n nythu fel clirio llystyfiant y tu allan i'r tymor magu; bydd clirio llystyfiant yn cael ei oruchwylio gan ecolegydd i osgoi niwed i ymlusgiaid, mamaliaid ac

PWYLLGOR CYNLLUNIO	DYDDIAD: 28/09/2026
ADRODDIAD Y PENNAETH ADRAN CYNORTHWYOL	

amffibiaid.

Bydd parthau clustogi yn cael eu defnyddio rhwng y gwaith, y cyrsiau dŵr a'r coed.

Ble defnyddir goleuadau artiffisial, mae'r DA yn nodi y bydd yn cydymffurfio â chanllawiau arfer gorau mewn perthynas â lleihau gollyngiad golau i gynefinoedd cyfagos i atal aflonyddwch ar ystlumod a rhywogaethau eraill. Fodd bynnag, mae gen i bryderon o hyd ynglŷn ag effaith goleuadau ar ystlumod pedol lleiaf oherwydd bod y rhywogaeth hon yn sensitif iawn i olau a gall gollwng golau ar dir coediog greu rhwystr i ystlumod.

Darperir iawndal oddi ar y safle i wneud yn iawn am golli gwrychoedd.

Bydd pob tywarchen gyda phlanhigion fel clychau'r gog yn cael eu tynnu a'u hail-sefydlu neu eu trawsleoli. Bydd gwaith botanegol cyn yr arolwg o holl ardaloedd gwaith SoDdGA Glaslyn yn nodi rhywogaethau gwarchodedig neu nodedig. Bydd canfyddiadau'r arolwg yn llywio'r gwaith o ddatblygu a gweithredu mesurau cadwraeth wedi'u targedu ar gyfer pob rhywogaeth berthnasol, a all gynnwys sefydlu parthau gwahardd amddiffynnol, casglu hadau, lluosogi neu drawsleoli planhigion. Bydd unrhyw sbesimenau a nodwyd yn cael eu symud a, lle bo'n ymarferol, yn cael eu cadw i'w hadfer yn dilyn y gwaith, neu eu hadfer i fyny'r afon o'r gwaith i ffwrdd o effeithiau posibl iddynt lluosogi yn naturiol lle nad yw hyn yn bosibl. Bydd monitro yn digwydd ar ôl ymgymryd â'r gwaith adeiladu.

Bydd gwaith i gyrsiau dŵr yn cynnwys mesurau i leihau effeithiau ar bysgod.

Rwy'n argymhell bod daearau moch daear newydd yn cael eu darparu yn ystod y gwaith adeiladu.

Bydd coed yn cael eu harolygu am ystlumod clwydo cyn eu torri a bydd safleoedd gwaith yn cael eu gwirio am ddyfrgwn cyn i'r gwaith ddechrau.

Pan fydd cynefin fforio neu gymudo (e.e. gwrychoedd) yn cael eu colli neu eu datgysylltu bydd mesurau lliniaru ychwanegol yn defnyddio "gwrychoedd marw" i gadw cysylltedd. Fodd bynnag, nid oes map wedi ei ddarparu sy'n tynnu sylw at gynefinoedd cymudo ystlumod. Felly, rwy'n argymhell bod hyn yn cael ei ddarparu i sicrhau bod cysylltedd tirwedd yn ei le i ystlumod yn ystod ac ar ôl y gwaith adeiladu.

Mae'r dogfennau a ddarparwyd sy'n nodi'r mesurau lliniaru arfaethedig yn cynnwys:

- LEMP - Cyfrol 8, Atodiad 4.4.C Cynllun Amlinellol Rheoli'r Dirwedd ac Ecoleg Glaslyn
- CEMP - Cyfrol 8, Atodiad 4.2.A: Datganiad Amlinellol Methodoleg Amgylcheddol Adeiladu
- Cyfrol 8, Atodiad 4.5.L: Budd Net ar gyfer Asesu Bioamrywiaeth a Datganiad Seilwaith Gwyrdd.
- Atodiad i'r Datganiad Amgylcheddol (derbyniwyd Gorffennaf 2026)

PWYLLGOR CYNLLUNIO	DYDDIAD: 28/09/2026
ADRODDIAD Y PENNAETH ADGAN CYNORTHWYOL	

4.4.C Cynllun Amlinellol Rheoli Tirwedd ac Ecolegol Cebiau Glaslyn

Mae'r mesurau arfaethedig i gyflawni NBB wedi'u hamlinellu yn Nhabl 5.1 (DA Cyf. 8 Atodiad 4.4C – Amlinelliad o LEMP) a Thabl 6.1 (DA Cyf. 8 Atodiad 4.5L – NBB a GIS). Mae'r rhain yn cynnwys nifer o fesurau oddi ar y safle, megis:

- 1.6ha o gynefin sy'n cyfrannu at gors bori gorlifdir (o fewn safle dynodedig statudol); - sylwch nad creu cynefinoedd yw hyn ond 'gwella' cynefinoedd
- 0.14ha o brysgwydd;
- 270m o wrychoedd sy'n gyfoethog o rywogaethau; a
- 406 o goed unigol.

Yn nhabl 5.1 rwy'n argymhell ei fod yn datgan bod hyn yn cael ei greu/gwella oherwydd nad yw wedi'i wneud eto. Rwyf hefyd yn cwestiynu a yw SUDS yn gynefin.

Mae'r ddogfen hon yn adran 5. Cynigion Tirwedd ac Ecolegol Tymor Hir mae'n nodi "Bydd yr ardaloedd hyn yn cael eu datblygu'n fanwl fel rhan o'r LEMP llawn yn amodol ar drafodaethau contractwyr." Er mwyn darparu mwyr o sicrwydd ac i allu asesu a ddarperir mesurau lliniaru addas, dylid darparu'r ddogfen hon cyn i unrhyw waith adeiladu ddigwydd, ac mae'r ymgeisydd wedi darparu Atodiad i'r Datganiad Amgylcheddol a dderbyniwyd ym mis Gorffennaf 2026.

Yn Nhabl 5.1 – Cynefinoedd a grëwyd neu eu gwella fel rhan o NBB a GI, rwy'n anghytuno bod SuDS yn gynefin.

A2.1 - Prysgwydd - trwchus/parhaus Crëwyd

0.3 B4 - Gwell glaswelltir wedi'i greu

0.19 B6 - Glaswelltir gwael wedi'i led-wella Crëwyd

0.03 A1.1.2 - Coetir llydanddail - planhigfa Crëwyd

0.06 B5 - Glaswelltir corsydd/corsiog Crëwyd

0.06 SuDS - Crëwyd

0.02 B2 - Glaswelltir niwtral wedi'i wella

0.32

O dan 5.3.2 mae'n nodi "Er mwyn gwneud iawn am y diffyg sy'n weddill o golli cynefinoedd, bydd cyflenwi oddi ar y safle trwy ddarparu'r trydydd parti yn cefnogi ymdrechion am iawndal ar gyfer y cynefinoedd canlynol:

PWYLLGOR CYNLLUNIO	DYDDIAD: 28/09/2026
ADRODDIAD Y PENNAETH ADRAN CYNORTHWYOL	

- 1.6 ha o SoDdGA Glaslyn
- 1.6 ha o Gors Bori Gorlifdir Arfordirol
- 0.49 km o wrychoedd sy'n gyfoethog o rywogaethau
- 119 o goed unigol"

Yn Adran 7.3 cyfeirir at fabwysiadu rhaglen reoli addasol i blannu yn y dirwedd i gyflawni'r lefelau gorau posibl o ran twf planhigion ac amodau tyfu ac yn y pen draw darparu mwy o hyder y bydd sgrinio effeithiol yn cael ei gyflawni yn yr ardaloedd lle plannwyd coed. Fodd bynnag, rwy'n anghytuno, mae'n rhaid i'r plannu arfaethedig gael ei nodi mewn cynlluniau.

Asesiad Effaith Amgylcheddol

Daw Cyfrol 4 o'r asesiad effaith i'r casgliad, "gydag ymgorffori mesurau lliniaru wedi eu gwreiddio a rhai ychwanegol, mae effeithiau sylweddol yn annhebygol ar gyfer safleoedd gwarchod natur Statudol a sydd Ddim yn Statudol, coetiroedd hynafol, a Chynefin o Brif Bwysigrwydd (HoPI) yn ardal yr astudiaeth. Yn yr un modd, ystyrir bod effeithiau sylweddol yn annhebygol ar gyfer rhywogaethau gwarchodedig a nodedig a nodwyd yn yr Ardal Astudiaeth."

Gwella Bioamrywiaeth

Mae hyn yn cynnwys gosod blychau ystlumod.

Bydd cynefinoedd a grëwyd neu sydd wedi eu gwella, i wella bioamrywiaeth (NBB) yn cael eu cynnal fel y disgrifir yng Nghyfrol 8, Atodiad 4.5.L: Budd Net ar gyfer Asesu Bioamrywiaeth a Datganiad Seilwaith Gwyrdd. Rwy'n croesawu gwella glaswelltir yn ecolegol i fod yn ddôl sy'n gyfoethog o rywogaethau fel y manylir yn y ddogfen hon, ynghyd â'r Atodiad i'r Datganiad Amgylcheddol (Gorffennaf 2026) sy'n amlinellu'r gwaith gwella bioamrywiaeth i'w wneud gan drydydd parti ar dir cyfagos.

Atodiad i'r Datganiad Amgylcheddol

Derbyniwyd Atodiad i'r Datganiad Amgylcheddol ym mis Gorffennaf 2026, sy'n darparu rhagor o fanylion am y cynnig i drydydd parti (Ymddiriedolaeth Afonydd Gogledd Cymru) ymgymryd â gwaith gwneud yn iawn yn ecolegol a gwelliannau bioamrywiaeth oddi ar y safle ar dir cyfagos.

Mae'r ddogfen hon yn nodi o dan 2.2.27 fod Ymddiriedolaeth Afonydd Gogledd Cymru wedi cynnig Rhaglen Gwella a Stiwardiaeth Bioamrywiaeth y Dalgylch am 25 mlynedd i ddarparu dull gweithredu ar raddfa'r dirwedd, adfer cynefinoedd a chysylltedd ecolegol. Rwy'n croesawu'r ymrwymiad hirdymor i wella bioamrywiaeth. Fodd bynnag, mae'n mynd ymlaen i ddweud y bydd "ardal o 1.6 hectar o gors bori arfordirol a chynefin morfa heli wedi'i leoli o fewn y SoDdGA yn cael ei adfer a'i wella sy'n bodloni'r gofynion ar gyfer iawndal NBB." Er fy mod yn croesawu'r gwaith arfaethedig hwn, rwy'n anghytuno nad yw'n gwella bioamrywiaeth oherwydd ei fod yn gynefin sy'n bodoli o fewn SoDdGA lle mae dyletswydd eisoes i gynnal cynefinoedd. Mae'r

PWYLLGOR CYNLLUNIO	DYDDIAD: 28/09/2026
ADRODDIAD Y PENNAETH ADRAN CYNORTHWYOL	

ddogfen yn datgan, lle mae gwneud yn iawn am gynefin yn cael ei sicrhau oddi ar y safle, bydd yn cael ei sicrhau gan amod cynllunio. Mae gen i rai pryderon am hyn.

Mae Atodiad A o'r ddogfen hon hefyd yn cynnwys rhagor o wybodaeth am Adroddiad Llygod Pengrwn y Dŵr ym mis Mehefin 2026, arolygon a gynhaliwyd eleni sydd wedi dod o hyd i dystiolaeth o'r rhywogaeth hon yng ngwaith Glaslyn. Mae arolygon llygod pengrwn y dŵr yn parhau.

Atodiad B yw Bwriad Ymddiriedolaeth Afonydd Gogledd Cymru ar gyfer Rhaglen Gwella a Stiwardiaeth Bioamrywiaeth y Dalgylch. Rwy'n croesawu'r rhaglen arfaethedig hon. Rwy'n falch bod y ddogfen hon yn cynnwys cynllun dileu y Ffromlys Chwarennog ledled y dalgylch gyda phlanhigion ymledol anfroddol eraill fel Llysiau'r Dial a Crassula. Mae'n cynnwys y bwriad i greu cynefinoedd ac rwyf yn croesawu hyn, fodd bynnag, er mwyn llywio'r gwaith o greu cynefinoedd, bydd angen arolwg ecolegol i ddarganfod pa gynefinoedd a nodweddion ecolegol sy'n bodoli ar hyn o bryd. Er enghraifft, byddai plannu gwrychoedd ar hyd ffos lle mae llygod pengrwn y dŵr yn bresennol yn lleihau addasrwydd y cynefin ar gyfer y rhywogaeth hon. Y bwriad yw creu 0.27ha o goetir ac 1ha o laswelltir sy'n gyfoethog o rywogaethau a 480m o wrychoedd sy'n gyfoethog o rywogaethau yn ogystal â chynefinoedd eraill. Mae'n bwysig cyn i unrhyw ardaloedd o dir gael eu clustnodi ar gyfer gwella bioamrywiaeth bod arolwg ecolegol yn cael ei gynnal, i asesu eu haddasrwydd ar gyfer gwella bioamrywiaeth.

Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd (HRA)

Rhaid i Gyngor Gwynedd, fel yr awdurdod cymwys, dan Reoliadau Cynefinoedd a Rhywogaethau 2017 (fel y'u diwygiwyd), cyn penderfynu rhoi caniatâd cynllunio sy'n debygol o gael effaith arwyddocaol ar safle ACA/AGA/Ramsar, naill ai ar ei ben ei hun neu drwy gyfuniad o gynlluniau neu brosiectau eraill, wneud asesiad priodol o oblygiadau'r prosiect ar gyfer y safle hwnnw o ystyried ei amcanion cadwraeth. At ddibenion yr asesiad, rhaid ymgynghori â CNC.

Mae'r ymgeisydd wedi darparu'r ddogfen ganlynol:

- 7.1.B. Adroddiad i Lywio Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd

Mae'r ddogfen hon yn archwilio effeithiau posibl cynllun arfaethedig Trawsfynydd i Bentir ar safleoedd Cynefinoedd (ACA/AGA/Ramsar). Mae wedi nodi llwybrau effaith posibl, y nodweddion cymwys a'r amcanion cadwraeth ar gyfer pob nodwedd. Mae'n cynnwys gwybodaeth i ddeall bregusrwydd posibl y nodweddion i unrhyw effeithiau a allai ddeillio o'r Prosiect arfaethedig ac mae'n cynnwys gwybodaeth o Gynlluniau Rheoli Craidd CNC i bob safle Cynefinoedd.

AGA Migneint-Arenig-Dduallt

Sydd wedi nodi bod gwaith i Is-orsaf Trawsfynydd a'r gwaith cysylltiedig yn

PWYLLGOR CYNLLUNIO	DYDDIAD: 28/09/2026
ADRODDIAD Y PENNAETH ADRAN CYNORTHWYOL	

debygol o gael effaith sylweddol ar rywogaethau adar AGA Migneint-Arenig-Dduallt o ran sŵn adeiladu a gweithredol ac aflonyddwch gweledol. Fodd bynnag, nid yw hyn yn rhan o'r cais cynllunio hwn i osod Ceblau Glaslyn o Minffordd i'r Wern.

ACA Coedydd Derw a Safleoedd Ystlumod Meirionnydd

Mae elfennau o waith Ceblau Glaslyn, a Gweithfeydd Ehangach yn gorwedd o fewn ffin ACA Coedydd Derw a Safleoedd Ystlumod Meirionnydd. Mae Ystlumod Pedol Lleiaf yn nodwedd o'r ACA hon. Mae'r ddogfen wedi nodi'r effeithiau sylweddol tebygol canlynol ar boblogaeth yr Ystlumod Pedol Lleiaf sy'n gysylltiedig ag ACA Coedydd Derw ac Ystlumod oherwydd colli llwybrau hedfan o dynnu coed a gwrychoedd a goleuadau gwaith. Mae'r ddau ohonynt yn debygol o darfu ar linellau hedfan ystlumod, gan gynyddu eu risg o gael eu hela a mynediad i ardaloedd fforio.

Mae'r DA yn nodi:

"Bydd y gwaith sy'n digwydd y tu allan i'r ACA ond yn agos iddo yn cynnwys Compownd y safle a Chompownd Selio Pennau Ceblau Minffordd (CSEC). Ar rai adegau bydd angen gweithio 24 awr ar yr ardal waith HDD, tua 20m o ffin ACA Coedydd Derw Meirionnydd a 60m o goetir o fewn yr ACA, ar rai achlysuron. Bydd angen goleuadau ar gyfer y gwaith nos yma. Bydd lefel y ddaear yn yr ardal waith HDD hon yn cael ei godi i atal llifogydd, fodd bynnag, bydd yr elfen 24 awr o'r gwaith o fewn yr ardal waith HDD yn cael ei wneud ar lefel is ac yn cael ei sgrinio'n rhannol gan fwndiau. Bydd goleuadau yn cael eu cynllunio i leihau gollyngiad golau i gynefinoedd cyfagos er mwyn atal aflonyddwch ar ystlumod fel y disgrifir yn Adran 5.9."

Mae'r ddogfen HRA yn argymhell mesurau i'w gweithredu ar gyfer lleihau aflonyddwch gweledol fel lleiafswm pa mor lachar yw'r goleuadau a bafflau i leihau gollyngiad golau. Fodd bynnag, rwy'n argymhell bod pa mor lachar yw'r goleuadau yn cael ei nodi mewn lefelau *lux* penodol a map sy'n dangos modelau goleuadau.

Mae'r ddogfen HRA hefyd yn argymhell mesurau lliniaru i dynnu coed drwy dorri meddal – fodd bynnag, nid yw'r rhain yn berthnasol i Ystlumod Pedol Lleiaf. Fodd bynnag, o dan 8.2.12 "Bydd unrhyw golled dros dro yn cael ei adfer, lle na ellir ailblannu'r coetir yn y fan a'r lle, megis yn estyniad CSEC y Wern, bydd y rhain yn cael eu newid mewn mannau eraill. Gan mai dim ond ychydig a goetir a gollir dros dro, fydd yn cael ei newid, mae'n annhebygol o achosi effaith andwyol i'r ACA trwy golli tir sylweddol sy'n gysylltiedig â swyddogaeth." Mae'n bwysig bod cynefin coetir newydd wedi'i leoli i wella llinellau hedfan a fforio ar gyfer Ystlumod Pedol Lleiaf a gwella cynefinoedd ger mannau clwydo ystlumod pedol lleiaf. Rwy'n argymhell bod y gwaith o golli coed a gwrychoedd yn cael ei fapio ynghyd â mannau clwydo a llinellau

PWYLLGOR CYNLLUNIO	DYDDIAD: 28/09/2026
ADRODDIAD Y PENNAETH ADRAN CYNORTHWYOL	

hedfan Ystlumod Pedol Lleiaf.

Mae'n ymddangos nad yw'r ddogfen i lywio'r HRA yn ystyried Ystlumod Pedol Lleiaf yn llawn, ac mae yn dangos diffyg dealltwriaeth o'r rhywogaeth hon.

Mae'r asesiad o allyriadau llwch adeiladu a gynhaliwyd ar gyfer Ceblau Glaslyn (Cyfrol 4: Ceblau Glaslyn Pennod 10 Ansawdd Aer ac Allyriadau) yn dod i'r casgliad y bydd maint posibl yr effeithiau yn ddibwys a ddim yn sylweddol o ystyried eu bod yn cydymffurfio â'r mesurau lliniaru a ddisgrifiwyd yn yr asesiad gaiff eu sicrhau yn y CEMP fel y Cynllun Rheoli Llwch.

ACA Pen Llŷn a'r Sarnau

Mae ACA Pen Llŷn a'r Sarnau tua 540 m i'r de o waith Ceblau Glaslyn ac wedi'i gysylltu yn hydrolegol ac mae dyfrgwn yn nodwedd gymwys o'r ACA hon. Mae'r gwaith yn debygol o aflonyddu ar ddyfrgwn oherwydd sŵn a gweithgaredd. Mae'r ddogfen yn asesu unrhyw effaith andwyol debygol ar boblogaethau dyfrgwn sy'n perthyn i ACA Pen Llŷn a'r Sarnau ac felly cyfanrwydd ar y safle o ganlyniad i aflonyddwch yn ystod y cyfnod adeiladu neu weithredol.

Bydd mesurau lliniaru yn cael eu gweithredu i atal dyfrgwn rhag cael eu dal mewn unrhyw waith cloddio a adawyd yn agored dros nos. Bydd hyn yn cynnwys gweithredu mesurau i osgoi anafu anifeiliaid neu eu lladd mewn ardaloedd gwaith adeiladu, trwy eu heithrio o ardaloedd o'r fath a'u hatal rhag cael eu dal mewn unrhyw waith cloddio. Os oes angen i waith cloddio gael ei adael yn agored dros nos, bydd rampiau yn cael eu darparu i ganiatáu ffordd i anifeiliaid ddianc.

Asesiad ar y cyd

Mae'r ddogfen i hysbysu'r HRA yn cynnwys asesiad ar y cyd yn seiliedig ar y canlynol:

- nid oes mesurau lliniaru wedi'u nodi a fydd yn mynd i'r afael â chyfraniad y Prosiect at unrhyw effaith ar y cyd;
- yn gyffredinol, daethpwyd i gasgliad yn unig na fydd unrhyw effaith andwyol ar uniondeb heb yr angen am fesurau lliniaru lle cadarnhawyd bod y potensial ar gyfer unrhyw effaith yn isel; ac
- ar gyfer colledion tir sy'n gysylltiedig â swyddogaeth, mae naill ai lliniaru rhagofalus wedi'i gynnwys neu cadarnhawyd na fyddai ansawdd, graddfa a natur dros dro colli cynefin yn golygu na fyddai unrhyw effaith ar gyfanrwydd hyd yn oed mewn cyfuniad â phrosiectau a chynlluniau eraill.

Mae'r asesiad hwn yn dod i'r casgliad na fydd unrhyw effeithiau ar y cyd â phrosiectau eraill.

PWYLLGOR CYNLLUNIO	DYDDIAD: 28/09/2026
ADRODDIAD Y PENNAETH ADRAN CYNORTHWYOL	

Casgliad yr HRA

Mae'r ddogfen sy'n hysbysu'r HRA yn crynhoi'r mesurau i osgoi, lleihau neu liniaru effeithiau andwyol ar gyfanrwydd safleoedd dynodedig sy'n cynnwys (mae hyn ar gyfer cynllun cyfan Trawsfynydd i Bentir):

- Osgoi llygredd golau
- Gweithredu byfferau '*stand-off*' rhwng y gwaith a choed a chysiau dŵr
- Defnyddio ffensys acwstig cludadwy o amgylch lleoliadau HDD
- Sicrhau Trwydded Forol yn ddarostyngedig i'w HRA ei hun
- Arolygon cyn adeiladu a allai fod eu hangen i sicrhau trwyddedau perthnasol gan CNC
- Gweithredu DMP
- Ffensys gwahardd a/neu ddarparu rampiau mewn ardaloedd gwaith cloddio agored
- Penodi Clerc Gwaith Ecolegol
- Mae gofynion lliniaru rhywogaethau penodol fel y nodwyd, er eng-hraifft (ond heb fod yn gyfyngedig i) ar gyfer ystlumod, dyfrgwn a gloŷnnod byw britheg y gors

Mae'r ddogfen HRA yn dod i'r casgliad, "gyda gweithredu mesurau lliniaru wedi'u hymgorffori a rhai ychwanegol wedi'u sicrhau trwy CEMPs a dogfennau cyfatebol, ochr yn ochr â HRA penodol i gefnogi'r cais am Drwydded Forol ar gyfer dod ag adweithydd '*shunt*' Trawsfynydd i'r traeth, gellir dod i'r casgliad na fydd y Prosiect yn cael effeithiau andwyol ar gyfanrwydd safle'r Cynefinoedd a ystyrir yn yr adroddiad hwn."

Fodd bynnag, rwy'n argymhell bod mapiau o linellau hedfan Ystlumod Pedol Lleiaf a'u mannau clwydo yn cael eu hasesu mewn perthynas â'r gwaith a allai gael gwared ar goed/llwyni/linellau gwrychoedd neu osod goleuadau. Heb y wybodaeth yma ni allaf ddod i'r casgliad na fydd effaith ar gyflawnrwydd ACA Ystlumod Meirionnydd.

Llystyfiant – Compownd Adeiladu Porthmadog

Bwriedir defnyddio'r safle isod fel compownd i'r safle. Mae yno sawl ffos ac mae gan y ffos yrwyf wedi ei hamlygu yn las, hesg tuswog (*Carex elata*). Rwy'n argymhell bod y ffos hon yn cael ei chadw. Nid oes unrhyw dystiolaeth bod llygod pengrwn dŵr yn bresennol, ond mae cofnodion o rywogaethau gwarchodedig eraill. Mae'r cynefin yma yn laswelltir mwsogl asid mewn mannau gyda phys y ceirw. Mae gwrych ar hyd y ffin ddwyreiniol gyda choed derw a chlychau'r gog, dylid cadw hwn ac rwy'n argymhell byffer ecolegol o 5 metr rhwng y gwrych a'r compownd adeiladu, i gadw a diogelu'r gwrych a'r coed. Bydd cynefin y glaswelltiroedd yn cael ei golli o dan lain caled y compownd adeiladu. Defnyddir y safle gan foch daear ac adar magu. Bydd bioamrywiaeth yn cael ei golli, ac rwy'n argymhell y mesur canlynol i leihau'r effaith ar rywogaethau a bioamrywiaeth:

- Cyn i'r safle gael ei ddefnyddio, bydd yr holl ymlusgiaid yn cael eu

tynnu a'u trawsleoli i safle derbynnydd addas.

- Dim llystyfiant, llwyni na choed
- Dylid tynnu'r llystyfiant a'r pridd a'u storio. Yn ddelfrydol, bydd y llystyfiant ar bob tywarchen yn cael eu trawsleoli i safle derbynnydd i greu cynefin arall, a dylai'r safle hwn fod yn un o werth bioamrywiaeth isel h.y. cae wedi'i wella yn amaethyddol.
- Unwaith y bydd y defnydd o'r compownd adeiladu wedi'i gwblhau, dylid adfer y safle. Rwy'n argymhell bod ffosydd troellog bas yn cael eu creu ar gyfer unrhyw lygod pengrwn y dŵr.
- Mae pibellau i ddyfrgwn o dan y ffordd osgoi ac ni ddylid rhwystro'r rhain a rhaid cynnal coridorau bywyd gwyllt hyd at bibellau'r dyfrgwn. Rwyf hefyd yn argymhell gosod gwâl artifisial i ddyfrgwn.

Adar

Mae'r effaith ar adar yn cynnwys clirio llystyfiant fydd yn golygu colli cynefinoedd a ddefnyddir gan adar sy'n nythu, colli cynefinoedd bwydo a'r holl aflonyddwch o'r gwaith ar adar yn enwedig ar SoDdGA a chorsydd Glaslyn.

Mae corsydd Glaslyn yn cefnogi 1.48% o boblogaeth gaeafu cenedlaethol y pibydd coeswyrdd, mae hyn yn arwyddocaol yn genedlaethol.

Mae aflonyddu ar adar yn debygol o fod dros dro tra bod gwaith adeiladu yn digwydd. Fodd bynnag, bydd colli cynefin ar gyfer adar magu fel y troellwr bach yn cymryd amser i ailsefydlu.

Moch Daear

Nododd arolygon maes 2024 a 2025 bod 11 o ddaearau moch daear ar safle gwaith Glaslyn. Hefyd, chwe daear rhwng safle gwaith Glaslyn a byffer 30 m, un daear rhwng 30 m a 50 m o safle gwaith Glaslyn, ac 18 daear y tu hwnt i 50 m o safle gwaith Glaslyn.

Llygod Pengrwn y Dŵr

Cynhaliwyd arolygon llygod pengrwn y dŵr ar safle gwaith Glaslyn ar bob cwrs dŵr a ffos wedi'u targedu: un yn rhan olaf y tymor magu (Gorffennaf i Fedi 2023 ac un yn rhan gynnar y tymor magu (Ebrill i Fehefin 2024).

Cynhaliwyd yr ymweliad arolwg cyntaf o gyrsiau dŵr 6.1-4, 6.a-d a 6.23-43 yn yr wythnos yn dechrau 1 Gorffennaf 2024. Mae hyn ychydig yn hwyrach na'r cyfnod arolwg a argymhellwyd ar gyfer hanner cyntaf tymor yr arolwg (h.y. canol Ebrill i ddiwedd Mehefin). Cynhaliwyd o leiaf un arolwg llygod pengrwn y dŵr yn y cyfnod arolwg gorau posibl. Bydd arolygon yn cael eu cynnal cyn y gwaith adeiladu.

Nid oes unrhyw dystiolaeth o lygod pengrwn y dŵr o fewn ffin llinell goch Glaslyn ond fe'u canfuwyd ar safle'r gwaith ehangach. - DA Cyfrol 8 Atodiad 6.5.E Adroddiad Mamaliaid Glannau'r Afon - Gwaith Ehangach (CYFRINACHOL)

PWYLLGOR CYNLLUNIO	DYDDIAD: 28/09/2026
ADRODDIAD Y PENNAETH ADRAN CYNORTHWYOL	

Canfu'r arolygon bod tystiolaeth o Lygoden Pengron y Dŵr o fewn 600 metr i Orsaf Selio Wern ac mae potensial ar gyfer Llygod Pengrwn y Dŵr. Felly, rwy'n argymhell bod y tir rhwng Gorsaf Selio Wern a Phorthmadog yn cael ei wella ar gyfer Llygod Pengrwn y Dŵr fel mesur lliniaru ecolegol. Mae sylwadau CNC yn nodi y dylid cynnal cynefinoedd yn yr ardal a/neu eu hadfer er mwyn sicrhau bod llygod pengrwn y dŵr yn gallu ail-goloneiddio'r ardal pe byddai eu poblogaeth yn ehangu.

Mae llygod pengrwn y dŵr yn cael eu gwarchod o dan Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981, ac mae'n anghyfreithlon niweidio eu cynefin yn fwriadol. Mae poblogaeth llygod pengrwn y dŵr wedi gostwng yn sylweddol yng Ngwynedd oherwydd eu bod yn cael eu hela gan y Minc Americanaidd yn bennaf, ond hefyd cathod.

Dyfrgi

Mae dyfrgwn yn rhywogaethau symudol ac yn gysylltiedig a ACA Pen Llŷn a'r Sarnau. Cynhaliwyd arolygon dyfrgwn ar y cyd â'r arolygon llygod pengrwn y dŵr. Cynhaliwyd arolygon a gwaith monitro ychwanegol ym mis Awst a Rhagfyr 2024 a Mawrth 2025 i ystyried addasiadau i'r ardal waith arfaethedig ac i gadarnhau absenoldeb gwaliau dyfrgwn neu fannau gorffwys posibl.

Cadarnhawyd bod dyfrgwn yn bresennol ar gyrsiau dŵr gan gynnwys Nant yr afon-oer ac afon Glaslyn. Mae'n debygol bod dyfrgwn yn mynychu cyrsiau dŵr yn y cyffiniau hyn.

Mae'r mwyafrif o gyrsiau dŵr yn cynnig cynefin addas i'r dyfrgi ac mae disgwyl y byddant yn cael eu heffeithio gan y gwaith, dywed y DA "fodd bynnag, mae'r cyrsiau dŵr hyn i gyd wedi cael arolygon dyfrgwn cadarn, ac ni chofnodwyd unrhyw arwyddion o ddyfrgwn, ac felly nid oes angen mesurau lliniaru ar gyfer y cyrsiau dŵr hyn ar hyn o bryd, y tu hwnt i fesurau diogelu safonol ac arolygon cyn-adeiladu"

Canfu'r arolygon ecolegol dystiolaeth o'r Minc Americanaidd ar afon Glaslyn

Botaneg

Planhigyn sy'n byw yng nghorsydd SoDdGA Glaslyn yw'r Lleidlys Cymreig ac mae'n rhywogaeth a warchodir dan atodlen 8 Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981.

Mae yna lawer o rywogaethau planhigion eraill o ddiddordeb cadwraeth megis tegeirian y gors cynnar (*Dactylorhiza incarnata*), ysbigrwynen un cibyn (*Eleocharis uniglumis*), y dinboeth fach (*Persicaria minor*) a'r carwy droellennog (*Trocardis verticillate*).

Lliniaru Bioamrywiaeth

Rwy'n argymhell bod mesurau lliniaru a gwella yn canolbwyntio ar wella cynefinoedd Llygod Pengrwn y dŵr gan ddileu'r Ffromlys Chwarennog yn ogystal â chreu cynefinoedd. Yn ogystal â hyn, rwy'n argymhell bod caeau sydd

PWYLLGOR CYNLLUNIO	DYDDIAD: 28/09/2026
ADRODDIAD Y PENNAETH ADRAN CYNORTHWYOL	

wedi'u gwella yn amaethyddol yn dychwelyd i laswelltir wedi ei led-wella gan eu rheoli fel gweirgloddiau.

Mae adran 9.1.1 o 4.5.L Datganiad Budd Net ar gyfer Bioamrywiaeth a Seilwaith Gwyrdd yn nodi:

'Bydd angen rheoli a monitro pob cam i wella a chreu cynefin a awgrymir i gyflawni NBB am o leiaf bum mlynedd, gan y byddai'r holl waith gwella a chreu cynefin yn cael eu hystyried yn gynefin blaenoriaeth (Adran 4.4). Bydd yr holl greu a gwella cynefinoedd ar y safle yn cael ei fonitro a'i gynnal gan y National Grid am y cyfnod rheoli 5 mlynedd. Bydd unrhyw gamau rheoli a monitro y tu hwnt i bum mlynedd yn cael eu sicrhau trwy gytundeb cyfreithiol gyda thirfeddianwyr.'

Mae creu'r rhan fwyaf o gynefinoedd yn cymryd llawer mwy na 5 mlynedd, felly awgrymaf fod hyn yn cael ei newid i 25 mlynedd fel yr wyf wedi argymhell mewn cyfarfodydd y llynedd gyda'r National Grid.

Mae'r DA yn cyfeirio at golli cynefinoedd dros dro ond nid yw wedi ystyried yr amser y mae'n ei gymryd i sefydlu cynefinoedd newydd yn lle'r rhai a gollwyd. Mae eginblanhigion yn cymryd degawdau i dyfu'n goed a darparu ymarferoldeb ecolegol. Nid yw'r amser oedi hwn wedi'i werthfawrogi'n llawn.

Gwella Bioamrywiaeth (Budd Net i Fioamrywiaeth)

Mae dyletswydd S6 yn ei gwneud yn ofynnol bod yn rhaid i awdurdodau cyhoeddus geisio cynnal a gwella bioamrywiaeth a thrwy hynny hyrwyddo gwytnwch ecosystemau, i'r graddau y mae'n gyson gydag ymgymryd yn briodol â'u swyddogaethau. Bydd hyn yn gymwys i'r Awdurdod Cynllunio Lleol sy'n gyfrifol am benderfynu ar y cais cynllunio.

Hoffwn atgoffa'r ymgeisydd (National Grid) bod ganddynt ddyletswydd i gynnal a gwella bioamrywiaeth o dan Ddeddf yr Amgylchedd 2016.

Mae'r ymgeisydd wedi cyflwyno atodiad i'r Datganiad Amgylcheddol, dyddiedig 17 Gorffennaf 2026. Mae'r ddogfen hon yn awgrymu sut y gellid cyflawni gwelliannau lliniaru a bioamrywiaeth ychwanegol drwy brosiect gydag Ymddiriedolaeth Afonydd Gogledd Cymru ar dir fferm cyfagos.

Perygl Llifogydd

Gallai'r datblygiad arwain at lifogydd ac mae CNC yn gofyn am fesurau i liniaru hyn. Cynigir y bydd pypiau dros dro yn cael eu gosod i'w defnyddio yn ystod unrhyw lifogydd.

- Cynllun Lliniaru Pypiau Llifogydd Glaslyn - Gwybodaeth Ategol Nodyn Technegol Mai 2026 gan WPS

Dau bwmp dros dro i bwmpio dŵr llifogydd yn ystod digwyddiadau llifogydd eithafol o'r Cyt ac afon Glaslyn i Lyn Bach sy'n agored i'r môr. Byddai'r orsaf

PWYLLGOR CYNLLUNIO	DYDDIAD: 28/09/2026
ADRODDIAD Y PENNAETH ADRAN CYNORTHWYOL	

bwmpio angen trosbont bibellau.

Byddai Basgedi Pysgod yn cael eu cynnwys i atal pysgod rhag cael eu tynnu i fyny i'r llinell sugno, manylion i'w cadarnhau yn ystod y cam dylunio.

Gwyddom fod dyfrgwn yn bodoli yn agos at y pypiau arfaethedig.

Mae Llysiau'r Dial yn tyfu yn agos at y safleoedd pwmp arfaethedig, felly dylid gwirio'r safleoedd am Lysiau'r Dial a rhaid trin unrhyw briddoedd sy'n cael eu cloddio sy'n cynnwys rhisomau Llysiau'r Dial fel pridd/deunydd halogedig.

Byddai cynefinoedd o fewn Lleoliadau'r Pwmp yn cael eu colli neu eu tarfu dros dro a dim ond symiau bach iawn fydd yn cael eu colli am byth. Bydd y llain galed oddeutu 10m o hyd a 8m o led i ganiatáu i dri phwmp eistedd gyda phellter lleiaf i'r pwynt sugno ym mhob gorsaf bwmpio. Efallai y bydd angen lleoli'r ardal fechan o lain caled (10m o hyd a 8m o led) yn Lleoliad Pwmp 2 er mwyn caniatáu i'r pypiau gael eu lleoli'n gyfangwbl, yn rhannol neu'n gyfagos at SoDdGA Glaslyn.

Mae'r ddogfen yn nodi y bydd cynefinoedd yn cael eu hadfer i'w cyflwr sylfaenol blaenorol pan fydd y gorsafoedd pwmpio yn cael eu dadgomisiynu.

6.4.2 (4.5.L Datganiad Budd Net ar gyfer Bioamrywiaeth a Seilwaith Gwyrdd)

Mae cyfanswm o 46.23 hectar o gynefin lled-naturiol, 0.45 km o wrychoedd a llinell o goed, a 0.04 km o ffos i'w hadfer fel rhan o'r gwaith arfaethedig. Mae'r ddogfen hon yn awgrymu y gellir adfer cynefinoedd o fewn 3 blynedd, ond rwy'n anghytuno.

Isod mae'r tabl sy'n dangos y cynefinoedd i'w creu fel rhan o welliannau bioamrywiaeth sydd wedi darparu'r lleiafswm o fesurau gwella bioamrywiaeth o ystyried graddfa'r cynllun a'i effaith ar fioamrywiaeth, fodd bynnag, mae'r Atodiad (Gorffennaf 2026) yn darparu gwelliant bioamrywiaeth llawer gwell.

Er mwyn i'r gwaith arfaethedig gyflawni NBB, mae angen darparu'r iawndal canlynol oddi ar y safle

- 1.6 hectar o gynefin sy'n cyfrannu at swyddogaeth cors bori gorlifdir ac sydd o fewn safle dynodedig statudol.
- 0.14 hectar o brysgwydd
- 0.27 km o wrychoedd sy'n gyfoethog o rywogaethau
- 406 o goed unigol
- 272 o goed i wneud iawn am 0.17 ha o blanhigfa coetir llydandail.
- 50 o goed i wneud iawn am 0.03 hectar o goetir llydanddail-lled-naturiol.

Nid oes unrhyw fap na chynlluniau yn dangos y gwelliannau bioamrywiaeth ac

PWYLLGOR CYNLLUNIO	DYDDIAD: 28/09/2026
ADRODDIAD Y PENNAETH ADRAN CYNORTHWYOL	

mae hyn yn rhy amwys o fewn y LEMP, fodd bynnag, mae'r Atodiad yn darparu mwy o fanylion. Mae'r LEMP yn darparu mesurau lliniaru a gwella bioamrywiaeth annigonol. Ni ddylid gwneud iawn am golli cynefin coetir trwy blannu coed ond trwy greu ardaloedd coetir.

Datganiad Seilwaith Gwyrdd

4.5.L Datganiad Budd Net ar gyfer Bioamrywiaeth a Seilwaith Gwyrdd

Ffromlys Chwarennog ac INNS

Mae Ffromlys Chwarennog yn doreithiog ar hyd cyrsiau dŵr yr ardal, yn enwedig ar hyd Nant yr Afon Oer i'r gorllewin o Borthmadog, sydd ar hyd y llwybr cebl tanddaearol sydd i'w adnewyddu. Rhaid cynhyrchu a gweithredu rhaglen i ddileu'r Ffromlys Chwarennog yn yr hirdymor. Dylai hyn gynnwys monitro blynyddol ac adroddiadau a ddarperir i'r ACLI.

Dychwelodd yr astudiaeth ddesg gofnodion o wyth rhywogaeth o blanhigion INNS yn yr Ardal Astudio 2 km (dyddiedig yn y 10 mlynedd diwethaf, hyd at 2024), sydd wedi'u rhestru ar Atodlen 9 o WCA 1981 (fel y'i diwygiwyd).

Ffromlys Chwarennog (*Impatiens glandulifera*), Llysiau'r Dial (*Reynoutria japonica*), Monbretia (*Crocasmia pottsii x aurea* = *C. x crocosmii*flora), corchwyn Seland Newydd (*Crassula helmsii*) a rhododendron wyllt (*Rhododendron ponticum*)), pidyn-y-gog Americanaidd (*Lysichiton americanus*), y gynffon las (*Buddleja davidii*) a'r bachgen llwm (*Leycesteria Formosa*).

Amodau cynllunio a argymhellir ar gyfer lliniaru ecolegol a gwella bioamrywiaeth:

- Cyn i'r gwaith ddechrau o fewn SoDdGA Glaslyn, rhaid cynnal arolwg botanegol ar gyfer planhigion gwarchodedig fel y llysiau'r llaid Cymreig a rhywogaethau goresgynnol anfrodorol fel corchwyn Seland Newydd.
- Cyn i unrhyw waith ddechrau, rhaid cyflogi Clerc Gwaith Ecolegol.
- Cyn i unrhyw waith ddechrau, rhaid cael Cynllun Rheoli a Monitro Cynefinoedd 25 mlynedd
- Cyn i unrhyw waith ddechrau, mae angen Cynllun Rheoli a Dileu Planhigion Goresgynnol Anfrodorol 25 mlynedd.
- Cyfarfodydd cyswllt misol gyda chlerc gwaith ecolegol ac ecolegydd ACLI a staff CNC. Ynghyd ag adroddiadau misol.
- Amseru neu waith i osgoi tarfu ar rywogaethau adar yn Glaslyn.
- Dim llystyfiant, llwyni na chlirio coed yn ystod y tymor nythu adar oni bai y gellir profi yn ysgrifenedig na fydd y gwaith yn effeithio ar adar nythu.
- Mesurau rhesymol i osgoi niwed i ymlusgiaid
- Dylid amseru gweithgareddau o fewn corydd Glaslyn neu gerllaw iddynt i leihau aflonyddwch i adar, gan osgoi tymhorau a llanw pan fo adar yn sensitif i aflonyddwch.
- Cyn defnyddio unrhyw oleuadau ar safleoedd gwaith (gan gynnwys

PWYLLGOR CYNLLUNIO	DYDDIAD: 28/09/2026
ADRODDIAD Y PENNAETH ADRAN CYNORTHWYOL	

cabanau symudol), rhaid darparu cynllun sy'n dangos y goleuadau arf-aethedig a gollyngiad golau ynghyd â model goleuo sydd wedi dilyn canllawiau BCT ac ILP. Rhaid i oleuadau fod yn finimol a chael eu monitro i osgoi niwed i ystlumod, dyfrgwn a rhywogaethau nos eraill. Unwaith y bydd goleuadau yn eu lle, rhaid monitro hyn i sicrhau eu bod wedi'u gosod fel y bwriadwyd a'u monitro bob mis.

- Rhaid i waith monitro ansawdd dŵr ddigwydd bob dydd a rhaid darparu adroddiad misol o ansawdd dŵr i'r ACLI.
- Rhaid darparu cynllun (e.e. LEMP) a rhaid iddo fod yn hirdymor (25 mlynedd) ac yn fanwl gan gynnwys y canlynol. Dylid adolygu'r cynllun bob 5 mlynedd gyda'r ACLI.
 - Adfer glaswelltir i ddolydd sy'n gyfoethog o rywogaethau, nid glaswelltir wedi'i wella.
 - Gwelliannau cors/gwlyptir trwy rwystro draeniau.
 - Plannu ar gyfer infertebratau (Tamaid y cythraul, Fioled y gors ac ati) mewn cynefinoedd gwlyptir addas.
 - Cynllun dileu INNS hirdymor (Ffromlys Chwarennog a Llysiau'r Dial) ar y safle datblygu a'r cyrsiau dŵr cyfagos.
 - Cadw cofnodion botanegol o blanhigion tal sydd wedi tyfu o briddoedd a aflonyddwyd arnynt.
 - Plannu coed a phlannu gwrychoedd
 - Monitro cynefinoedd a lliniaru rhywogaethau ynghyd ag arol-ygon blyneddol yn y 5 mlynedd gyntaf ac i hysbysu rheolwyr.

Crynodeb

Bydd y bwriad hwn yn cael effaith sylweddol ar fioamrywiaeth. Bydd tua 48 hectar o gynefinoedd yn cael eu colli, gan gynnwys colli'n barhaol (1.94ha) a cholli dros dro (46ha) a bydd 165 metr o wrychoedd yn cael eu colli. Mae'r cynnig yn bwriadu adfer y rhan fwyaf o'r cynefinoedd hyn fel cam lliniaru. Fodd bynnag, nid yw'r Datganiad Amgylcheddol wedi mynd i'r afael â'r amseroedi i gynefinoedd gael eu sefydlu, oherwydd bydd yn cymryd o leiaf 10 mlynedd cyn i gynefinoedd sydd wedi'u hadfer dyfu'n ddigonol i ddarparu ymarferoldeb ecolegol ac mae'r rhan fwyaf o gynefinoedd yn cymryd sawl degawd i sefydlu. Felly, rwy'n argymhell bod yn rhaid ymestyn y rheolaeth i ail-greu'r cynefinoedd hyn i 25 mlynedd.

Byddai'r cynnig hwn yn cynnwys gwaith o fewn SoDdGA Glaslyn a bydd yn arwain at golli cynefin o 1.66ha o fewn y SoDdGA. Er y bydd 1.6ha o gynefin yn cael ei adfer, bydd colled barhaol o 0.06ha. Er mwyn gwneud yn iawn am y golled barhaol o fewn SoDdGA cynigir y bydd iawndal oddi ar y safle yn cael ei ddarparu gan drydydd parti (Ymddiriedolaeth Afonydd Gogledd Cymru) ar dir cyfagos (Tŷ Obry).

Y bwriad hefyd yw y bydd gwaith gwella bioamrywiaeth hefyd yn cael ei ddarparu drwy Ymddiriedolaeth Afonydd Gogledd Cymru ar dir Tŷ Obry. Fodd bynnag, mae angen mwy o waith fel arolygon a chytundebau ecolegol i sicrhau bod hyder y bydd camau gwneud yn iawn a gwella yn cael eu darparu. Mae'r ymgeisydd wedi cyflwyno Atodiad i'r Datganiad Amgylcheddol sy'n nodi'r bwriad o weithio gyda thrydydd parti (Ymddiriedolaeth Afonydd Gogledd Cymru) i ddarparu mesurau lliniaru a gwneud yn iawn oddi ar y safle

PWYLLGOR CYNLLUNIO	DYDDIAD: 28/09/2026
ADRODDIAD Y PENNAETH ADRAN CYNORTHWYOL	

oherwydd effeithiau ecolegol ac i wella bioamrywiaeth dros gynllun 25 mlynedd. Mae'r cynllun hwn hefyd yn cynnwys dileu a rheoli rhywogaethau planhigion ymledol anfrodorol (INNS).

Mae effeithiau ychwanegol gwaith Glaslyn yn cynnwys tarfu ar rywogaethau (ystlumod, dyfrgwn, llygod pengrwn y dŵr, pysgod, adar, moch daear, ymlusgiaid, planhigion) ac mae'r cynllun yn lliniaru hyn yn rhannol drwy osgoi, trawsleoli a sicrhau bod parhad llwybrau rhywogaethau yn cael ei gadw ac amseriad y gwaith. Mae rhagor o arolygon rhywogaethau yn cael eu cynnal.

Mae pryderon yn parhau nad yw effeithiau ar y coetir, tynnu gwrychoedd a goleuadau ar linellau hedfan ystlumod wedi'u hasesu'n briodol. Mae angen rhagor o wybodaeth i ddangos bod yr effeithiau ar boblogaeth Ystlumod Pedol Lleiaf ACA Coedydd Derw a SoDdGA Ysbyty Bron y Garth wedi'u hystyried, yn enwedig yr effeithiau a achosir gan golli coridorau coediog neu gysylltedd tirwedd a goleuadau. Argymhellir mapio mwy o fannau clwydo, llwybrau cymudo a llinellau hedfan ynghyd â thynnu coed cyn y gellir dod i gasgliadau o dan y Rheoliadau Cynefinoedd.

Daethpwyd o hyd i dystiolaeth am Lygod Pengrwn y dŵr yn ardaloedd y gwaith arfaethedig ac nid yw'r arolygon wedi'u cwblhau eto. Bydd angen mwy o fanylion am fesurau lliniaru llygod pengrwn y dŵr. Mae CNC wedi argymhell y dylid gwella cynefinoedd ar gyfer Llygod Pengrwn y Dŵr ac rwy'n cytuno. Rwy'n argymhell bod ffosydd newydd yn cael eu creu ar gyfer Llygod Pengrwn y Dŵr.

Croesewir y rhaglen arfaethedig i ddileu'r Ffromlys Chwarennog ledled ardal y dalgylch. Ystyrir bod rheolaeth a monitro hirdymor yn hanfodol ar gyfer Rhywogaethau Anfrodorol Goresgynnol.

Bydd y cynllun yn arwain at effeithiau ecolegol sylweddol, gan gynnwys colli cynefinoedd o fewn SoDdGA Glaslyn, aflonyddwch ar rywogaethau gwarchodedig, ac effeithiau posibl ar boblogaethau Ystlumod Pedol Lleiaf sy'n bwysig yn rhyngwladol. Er bod mesurau lliniaru a gwneud yn iawn wedi'u cynnig, mae ansicrwydd sylweddol o hyd ynglŷn â'r:

- Effaith ar Lygod Pengrwn y Dŵr a Moch Daear.
- Effeithiau ar linellau hedfan ystlumod a chyflawnrwydd yr ACA.
- Effeithiolrwydd hirdymor adfer cynefinoedd.
- Darparu mesurau gwneud yn iawn oddi ar y safle.
- Effeithiau croesi cwrs dŵr.

Y mater mwyaf arwyddocaol yw'r diffyg asesiad cadarn o ystlumod pedol lleiaf, yn enwedig effeithiau colli coed a gwrychoedd a goleuadau artiffisial ar llwybrau cymudo. Mae angen tystiolaeth bellach cyn y gellir bod yn hyderus na fydd unrhyw effaith andwyol ar gyflawnder yr ACA. Yn ogystal, dylid sicrhau bod cynefinoedd hirdymor yn cael eu rheoli am o leiaf 25 mlynedd i fynd i'r afael â'r amser sylweddol sydd ei angen i adfer cynefinoedd a gwella

PWYLLGOR CYNLLUNIO	DYDDIAD: 28/09/2026
ADRODDIAD Y PENNAETH ADRAN CYNORTHWYOL	

bioamrywiaeth.

Hawliau Tramwy
Cyhoeddus Cyngor
Gwynedd
(Gwasanaeth Cefn
Gwlad a Mynediad)

Derbyniwyd ymateb ar 08/05/2026:

Sylwadau: Cyfeiriaf at y cais a nodir uchod. Nodwyd bod nifer sylweddol o Hawliau Tramwy Cyhoeddus o fewn ardaloedd Porthmadog, Penrhyndeudraeth, Dolbenmaen a Llanfrothen, fel y manylir yn Cyfrol 8 – Atodiad 4, yn disgyn o fewn dalgylch y datblygiad arfaethedig. Mae gan y llwybrau hyn y potensial i gael eu heffeithio gan y gwaith datblygu. Yn ogystal, ymddengys nad yw'r ymgeisydd wedi adnabod rhai Hawliau Tramwy Cyhoeddus, sef Llwybr Troed Rhif 13 yn Nhref Porthmadog a Llwybr Troed Rhif 46 yng Nghymuned Penrhyndeudraeth (ar dop wal Y Cob – gweler y cynllun uchod). Gan ei bod yn anodd rhagweld yn fanwl yr effaith y bydd y datblygiad yn ei chael ar y llwybrau hyn, nodaf y canlynol:

- Rhaid i'r ymgeisydd sicrhau bod pob Hawl Tramwy Cyhoeddus yn aros ar agor, yn ddiogel, ac yn rhydd rhag unrhyw rwystrau drwy gydol cyfnod y datblygiad.
- Os nad yw'n bosibl cadw llwybr ar agor yn ddiogel, gall y datblygwr wneud cais i'w gau dros dro, ynghyd â darparu gwyriad addas fel rhan o'r cais.
- Cyn cyflwyno unrhyw gais o'r fath, bydd angen i'r datblygwr gysylltu â'r Tîm Hawliau Tramwy drwy'r cyfeiriad e-bost isod. Dylid nodi bod costau'n gysylltiedig drwy wneud cais i gau llwybr dros dro.

Yn ogystal: Rhaid sicrhau nad yw'r gwaith datblygu yn achosi difrod i arwyneb, aliniad, draeniad na lled unrhyw Hawl Tramwy Gyhoeddus. Ni ddylai'r llwybrau gael eu rhwystro gan gerbydau na gweithgareddau adeiladu ar unrhyw adeg. Am ymholiadau pellach neu i drafod unrhyw fater sy'n deillio o'r sylwadau hyn, cysylltwch â:Llwybrau@gwynedd.llyw.cymru.

Corff Cymeradwyo
SuDS Cyngor
Gwynedd:

Derbyniwyd ymateb ar 07/07/2026:

Mae'r wybodaeth yn ddigonol i ni beidio bod efo unrhyw wrthwynebiad i'r ceisiadau Cynllunio.

(Sylwadau yn dilyn cyflwyno dau gais SuDS cyfeirnod YGC26-1885-LL (Minffordd) ac YGC26-1884-LL (Wern))

Derbyniwyd ymateb ar 28/01/2026:

Yn dilyn ein hadolygiad o'r cyflwyniad, nid ydym yn gallu penderfynu a yw'r cynnig yn foddhaol oherwydd diffyg tystiolaeth sy'n dangos bod yr hierarchaeth cyrchfannau dŵr wyneb wedi'i dilyn. Amlinellir manylion pellach isod.

Blaenoriaeth 1: Casglu Dŵr Glaw

- Oherwydd natur y datblygiad, rydym yn derbyn na fyddai casglu dŵr glaw yn

PWYLLGOR CYNLLUNIO	DYDDIAD: 28/09/2026
ADRODDIAD Y PENNAETH ADRAN CYNORTHWYOL	

addas.

Blaenoriaeth 2: Treiddiad

- Rhaid cynnal profion treiddio yn unol â BRE365. Mae angen adroddiad prawf treiddiad arnom sy'n dangos stampiau amser ar gyfer tri phrawf a gynhaliwyd mewn pwll prawf wedi'i leoli lle bydd y suddfan arfaethedig. Rhaid i ddyfnder y pwll adlewyrchu'r suddfan arfaethedig a'i lenwi â digon o ddŵr i adlewyrchu amodau. Dylid cynnal y tri phrawf yn agos at ei gilydd.
- Yna dylid defnyddio'r gyfradd ymdreiddiad arafaf i gyfrifo maint y suddfan.
- Yn ogystal, mae angen monitro dŵr daear. Rhaid clirio o leiaf 1 metr rhwng gwaelod y suddfan a'r lefel dŵr daear uchaf i atal mynediad, a allai leihau capasiti'r system.

Blaenoriaeth 3: Cwrs dŵr

- Os profir nad yw ymdreiddiad yn ymarferol, gellir ystyried rhyddhau i gwrs dŵr. Rhaid i hyn fod ar gyfraddau dŵr ffo tir glas, gan olygu bod angen mesurau gwanhau a rheoli llif. Os nad oes cwrs dŵr yn rhesymol hygyrch, ewch ymlaen i Flaenoriaeth 4.

Blaenoriaeth 4: System Dŵr Wyneb

- Rhaid cytuno ar gyfraddau rhyddhau gyda pherchennog y system. Os nad oes carthffos dŵr wyneb o fewn pellter rhesymol, ewch ymlaen i Flaenoriaeth 5.

Blaenoriaeth 5: Carthffos Gyfun

- Rhaid darparu tystiolaeth gynhwysfawr i gyfiawnhau gwrthod pob opsiwn blaenoriaeth uwch. Oherwydd cyfyngiadau capasiti, mae Dŵr Cymru yn amharod i dderbyn cysylltiadau dŵr wyneb.
- Os oes cysylltiad presennol (e.e., mae eiddo yn cael ei ddymchwel a'i ailadeiladu), rhaid i'r ymgeisydd ddangos y bydd y datblygiad newydd yn gwella cyfradd llif a chyfaint.
- Os nad oes cysylltiad presennol, mae'n annhebygol y bydd Dŵr Cymru yn derbyn un newydd.
- Os yw'r cynnig yn cynnwys cysylltu â system Dŵr Cymru, rydym yn cynghori'n gryf i gysylltu â nhw cyn gynted â phosibl er mwyn osgoi oedi wrth brosesu'r cais.

Oherwydd y diffyg tystiolaeth a ddarparwyd, rydym yn annog yr ymgeisydd yn gryf i gysylltu gyda'r SAB i gael trafodaeth cyn ymgeisio. Hyd nes y darperir mwy o wybodaeth a thystiolaeth, rydym yn cynnig gwrthwynebiad dros dro.

Mae rhagor o fanylion ynglŷn â'r broses ymgeisio SAB ar gael drwy'r ddolen

PWYLLGOR CYNLLUNIO	DYDDIAD: 28/09/2026
ADRODDIAD Y PENNAETH ADRAN CYNORTHWYOL	

ganlynol.

<https://www.gwynedd.llyw.cymru/cy/Trigolion/Cynllunio-a-rheolaeth-adeiladu/Cynllunio/Systemau Draenio Cynaliadwy.aspx>

Cyngor Gwynedd
Awdurdod
Arweiniol
Llifogydd Lleol
(LLFA):

Derbyniwyd ymateb ar 25/08/2026:

Yn dilyn ein sgwrs gynharach gallaf gadarnhau nad oes gan yr uned hon sylwadau i'w cynnig ar gynnwys FCA y cais uchod. Mae materion draenio/llifogydd lleol eisoes yn cael eu rheoli ar gyfer y datblygiad drwy law'r SAB a hefyd proses Caniatâd Cwrs Dŵr Cyffredin (s23 y Land Drainage Act).

Uned Iaith Cyngor
Gwynedd

Derbyniwyd yr ymateb ar 13/08/2026:

Nid oes datganiad iaith ychwanegol wedi ein cyrraedd felly mae ein sylwadau diweddar, anfonwyd mis Ionawr, yn aros yn gyfredol. "Gan bod y datblygiad wedi ei leoli yn un o gadarnleoedd y Gymraeg awgrymir y dylid cynnwys sgiliau Cymraeg fel rhan o'r hysbysebion ar gyfer swyddi newydd. Hoffem yn ogystal gyfeirio'r ymgeisydd at wefan Comisiynydd y Gymraeg a'r 'Cynnig Cymraeg', er mwyn eu cynorthwyo i greu Cynllun Iaith, ac adnabod camau datblygu pellach o ran hybu defnydd o'r Gymraeg: Cynnig Cymraeg"

Derbyniwyd ymateb ar 21/01/2026:

Gan fod y datblygiad wedi ei leoli yn un o gadarnleoedd y Gymraeg awgrymir y dylid cynnwys sgiliau Cymraeg fel rhan o'r hysbysebion ar gyfer swyddi newydd.

Hoffem yn ogystal gyfeirio'r ymgeisydd at wefan Comisiynydd y Gymraeg a'r 'Cynnig Cymraeg', er mwyn eu cynorthwyo i greu Cynllun Iaith, ac adnabod camau datblygu pellach o ran hybu defnydd o'r Gymraeg: Cynnig Cymraeg

Heneb

Derbyniwyd yr ymateb ar 04/08/2026:

Diolch i chi am yr ymgynghoriad isod. Ar ôl adolygu'r wybodaeth ychwanegol, gallaf gadarnhau ein bod yn hapus â geiriad yr amod a awgrymir (t.26-27 o'r ddogfen 'Ymateb i sylwadau ymgynghorai'). Rwyf wedi gwirio'r lleoliadau arfaethedig ar gyfer mesurau bioamrywiaeth oddi ar y safle ac ymddengys nad oes unrhyw oblygiadau archeolegol sylweddol. Mae hyn yn rhannol oherwydd graddfa gymharol fechan y gwaith plannu newydd: mae potensial ar gyfer archaeoleg nad ydym yn ymwybodol ohono ar hyn o bryd (e.e. o gyfnodau cynhanesyddol cynharach pan oedd lefel y môr yn is) ond ni fyddai'n gymesur

PWYLLGOR CYNLLUNIO	DYDDIAD: 28/09/2026
ADRODDIAD Y PENNAETH ADUAN CYNORTHWYOL	

argymhell ymateb yn yr achos hwn. Nodaf fod y cynllun OLEMP a phwmp i'w cyflwyno maes o law (er mwyn rhyddhau amod a chais ar wahân yn y drefn honno) a byddwn yn ddiolchgar pe byddech yn ymgynghori â ni ar y rhain oherwydd gallant ryngweithio â'r amgylcheddol hanesyddol.

Derbyniwyd ymateb ar 28/05/2026:

Diolch am ymgynghori â ni ar y cais hwn a llawer o ymddiheuriadau am yr ymateb hwyr.

Mae'r Datganiad Amgylcheddol a gyflwynwyd yn cynnwys pennod ar Amgylchedd Hanesyddol, sy'n cael ei gefnogi gan asesiad desg safle-benodol (Atodiad 3.6). Mae hyn yn gynhwysfawr, ar ôl gwneud defnydd llawn o'r dystiolaeth o ymchwiliadau archeolegol blaenorol helaeth yn yr ardal, ac rwy'n cytuno'n gyffredinol â'r casgliadau.

Mae fy sylwadau yn ystod y PAC am effeithiau posibl yn parhau i fod yn berthnasol ac yn cyd-fynd â'r sylwadau yn y dogfennau a gyflwynwyd. I grynhoi, y rhain yw y bydd effaith sylweddol ar Barc a Gardd Hanesyddol Gofrestredig Wern a bod y potensial am effaith archeolegol ffisegol yn gyfyngedig. O ran yr effaith ar Wern, byddwn yn cefnogi'r awgrym gan Cadw y dylid trafod cyfleoedd gwella yn lle opsiynau ar gyfer lliniaru uniongyrchol. Yn ogystal, byddem yn cynghori bod ystyriaeth benodol o gymeriad a diddordeb arbennig y Parc a'r Ardd yn cael ei wneud yn y cynllun tirwedd i'w gyflwyno ynghyd â'r LEMP terfynol. Rwy'n nodi bod yr OLEMP yn cynnwys cyfeiriad at ardaloedd creu a gwella cynefinoedd arfaethedig oddi ar y safle – mae'n bosibl y gall y rhain fod â goblygiadau archeolegol, yn dibynnu ar eu natur a'u lleoliad. Am y rheswm hwn ac ar gyfer y cynigion yn Wern, byddem yn ddiolchgar pe byddech yn ymgynghori â ni ar y LEMP, fel a phryd y caiff ei gyflwyno. Mewn perthynas ag effaith archeolegol ffisegol, er nad yw olion sylweddol yn cael eu rhagweld ar y safle, mae sawl nodwedd archeolegol sy'n haeddu ymchwilio a chofnodi cymesur o dan raglen liniaru cydlynol. Mae'r dull arfaethedig o fonitro a chofnodi Archeolegol wedi'i dargedu yn ystod y gwaith adeiladu, gyda dadansoddiad ac adrodd oddi ar y safle wedi hynny, yn addas ar y cyfan. Dros dro, rhagwelir y bydd hyn yn berthnasol o leiaf i groesfannau ffiniau caeau hanesyddol a nodweddion tebyg, i gyd-fynd â'r cofnod sylfaenol presennol o'u ffurf gyfredol yn y Wern, a gwaith tir o fewn ystâd y Wern, er mwyn cofnodi unrhyw dystiolaeth o gyfnodau cynharach yr ystâd. Gellir mynd i'r afael â thramffordd Croesor (PRN 21174), sy'n nodwedd hysbys a mwy sylweddol, yn well trwy ymchwiliad archeolegol ymlaen llaw wedi'i dargedu, er mwyn sicrhau cofnodiad priodol ac osgoi oedi yn ystod y gwaith adeiladu. Mae'n bleser gennyf nodi cyfeiriad manwl at y rhaglen lliniaru archeolegol arfaethedig yn yr OCEMP. Mae hwn yn ymrwymiad cadarnhaol ac yn ddefnyddiol ar gyfer gweithio adeiladol rhwng pob parti. Yng ngoleuni'r sylwadau hyn ac yn unol â pholisi a chanllawiau cynllunio lleol a chenedlaethol, argymhellir y dylai'r awdurdod cynllunio lleol ei gwneud yn ofynnol i raglen liniaru gymesur gael ei rhoi ar waith. Awgrymir y geiriad isod fel amod i sicrhau gwaith o'r fath:

PWYLLGOR CYNLLUNIO	DYDDIAD: 28/09/2026
ADRODDIAD Y PENNAETH ADRAN CYNORTHWYOL	

i) Ni ddylai unrhyw ddatblygiad (gan gynnwys dymchwel, clirio'r safle, stripio uwchbridd neu waith arall ar y ddaear) ddigwydd hyd nes bod cynllun ymchwilio ysgrifenedig ar gyfer gwaith archeolegol wedi'i gyflwyno i'r Awdurdod Cynllunio Lleol a'i gymeradwyo'n ysgrifenedig ganddo. Bydd rhaid ymgymryd â'r datblygiad a chwblhau'r holl waith archeolegol yn unol â'r cynllun ymchwilio ysgrifenedig a gymeradwywyd.

ii) Bydd adroddiad dadansoddol manwl ar y gwaith archeolegol sy'n ofynnol gan amod (i) yn cael ei gyflwyno i'r Awdurdod Cynllunio Lleol o fewn 12 mis i gwblhau'r gwaith maes archeolegol. Yna rhaid i'r adroddiad gael ei gymeradwyo'n ysgrifenedig gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol.

Rhesymau: 1) Sicrhau bod rhaglen briodol o waith lliniaru archeolegol yn cael ei gweithredu yn unol â gofynion Polisi Cynllunio Cymru a NCT24: Yr Amgylchedd Hanesyddol.

2) I sicrhau y bydd y gwaith yn cydymffurfio â MORPHE/Rheolaeth Prosiectau Archeolegol (MAP2) a Safonau a Chanllawiau'r Sefydliad Siartredig ar gyfer Archeolegwyr (CIfA).

Rhaid i'r holl waith archeolegol sy'n gysylltiedig â'r cynllun gael ei wneud gan gwmni archeolegol proffesiynol sydd â phrofiad mewn gwaith o'r natur hon, yn unol â Safonau a Chanllawiau perthnasol y Sefydliad Siartredig ar gyfer Archaeolegwyr (CIfA).

Peidiwch â phetruso i gysylltu â mi os oes gennych unrhyw ymholiadau am yr uchod.

Cyfoeth Naturiol Cymru Derbyniwyd yr ymateb ar 25/08/2026

Diolch am ymgynghori â Chyfoeth Naturiol Cymru (CNC) ynghylch eich asesiad rheoliadau cynefinoedd ar gyfer y datblygiad uchod, a ddaeth i law ar 18/8/2026.

Dylid ystyried ein hymateb fel cynrychiolaeth ffurfiol CNC, fel y corff cadwraeth natur priodol, i'ch asesiad priodol o dan reoliad 63 o Reoliadau Cadwraeth Cynefinoedd a Rhywogaethau 2017 (fel y'u diwygiwyd).

O ystyried y mesurau lliniaru y manylwyd arnynt yn eich asesiad, yn ogystal a'r amodau a nodwyd yn ein hymateb dyddiedig 11/8/2026 (ein cyfeirnod C25/0946/44/EIA), rydym yn cytuno y gellir diystyru effaith andwyol ar gyfanrwydd Ardaloedd Cadwraeth Arbennig.

PWYLLGOR CYNLLUNIO	DYDDIAD: 28/09/2026
ADRODDIAD Y PENNAETH ADRAN CYNORTHWYOL	

Derbyniwyd yr ymateb ar 11/08/2026:

Diolch am ymgynghori â Chyfoeth Naturiol Cymru (CNC) ynglŷn â'r uchod, a dderbyniwyd gennym ar 20 Gorffennaf 2026.

Mae gennym bryderon o hyd am y cais fel y'i cyflwynwyd. Er hynny, rydym yn fodlon y gellir goresgyn y pryderon hyn drwy osod yr amodau isod ar unrhyw ganiatâd cynllunio a roddir:

Safleoedd Gwarchodedig, Tirwedd, Rhywogaethau Gwarchodedig, Halogiad, a Rheoli Amgylcheddol.

Mae angen ystyriaeth bellach o ran y Risg o Lifogydd i'r safle a deallwn yr ymdrinnir â hyn mewn cais ar wahân am waith lliniaru.

Paratowyd y llythyr hwn mewn ymateb i gyflwyno gwybodaeth ychwanegol ac mae'n disodli ein sylwadau blaenorol dyddiedig 12/06/2026 (CAS-310439-F2R8). I grynhoi, y prif newidiadau yw:

- Ychwanegu adran 1 Gwaith Galluogi Cychwynnol
- Newidiadau sylweddol i'r adran Safleoedd Gwarchodedig, yn benodol ynglŷn â SoDdGA Glaslyn
- Ychwanegiad at yr amod LEMP (adran 4.5)
- Ychwanegwyd sylwadau ynglŷn â llygod dŵr (Adran 5.3)

1 Gwaith Galluogi Cychwynnol

Er mwyn hwyluso sefydlu'r compownd safle cychwynnol a'r adeiladau lles cysylltiedig, mae'r ymgeisydd yn ceisio cytundeb na fydd y gofyniad i ryddhau amodau ymlaen llaw yn berthnasol i'r elfen benodol hon o'r datblygiad. Rydym yn nodi'r wybodaeth a gyflwynwyd i gefnogi'r elfen hon o'r cynigion ac nid oes gennym unrhyw wrthwynebiad i'r gwaith hwn ddechrau. Rydym yn fodlon bod digon o wybodaeth wedi'i darparu er mwyn i'r gwaith hwn ddechrau gyda'r risgiau lleiaf posibl ar yr amod bod yr holl ddulliau gwaith a nodir yn y dogfennau a gyflwynwyd yn cael eu cadw ac yr ymdrinnir â'r materion isod i foddhad eich awdurdod.

Mae'r cynllun argyfwng a gyflwynwyd yn gofyn am fân welliant fel ar dudalen 12. Gollyngiadau tanwydd. Mae rhif cyswllt brys Asiantaeth yr Amgylchedd wedi'i restru yn hytrach na rhif digwyddiad CNC (rydym yn cydnabod bod y rhif cywir wedi'i nodi yn y rhestr cysylltiadau brys yn Atodiad A, tudalen 19.).

Dylai'r Cynllun Rheoli Amgylchedd Adeiladu (CEMP) gynnwys cyfeiriad at y Canllaw ar Atal Llygredd 4 (GPP4) fel canllawiau pwysig y dylid cadw atynt er mwyn lleihau'r risg o unrhyw ddigwyddiad llygredd ar y safle.

Dylid defnyddio sgipiau wedi'u gorchuddio, a chasglu sbwriel yn rheolaidd yng nghyffiniau'r compownd.

Ni chyfeiriwyd yn benodol at yr union ddull o waredu dŵr budr sy'n draenio. Fodd bynnag, o ystyried bod y rhain yn gompowndiau gweithio dros dro, gellid

PWYLLGOR CYNLLUNIO	DYDDIAD: 28/09/2026
ADRODDIAD Y PENNAETH ADUAN CYNORTHWYOL	

defnyddio system carthbwl (*cesspit*). Er y byddai cysylltiad â'r prif gyflenwad yn well os yw'n bosibl, dylai'r ymgeisydd ystyried yr isod mewn perthynas ag unrhyw system wedi'i selio/carthbwl dros dro. Mae'n hanfodol bod unrhyw garthbwl wedi'i osod yn gywir. Gall carthbyllau sy'n cael eu cynnal yn anghywir achosi llygredd trwy halogi'r ddaear, dŵr daear ac weithiau dŵr wyneb. Mae unrhyw ddifrod i ffabrig y carthbwl, fel craciau neu dyllau, yn anodd ei ganfod ond mae angen ei gywiro ar unwaith er mwyn atal llygredd. Dylai'r carthbwl fodloni gofyniad Safon Brydeinig BS 6297. Dylid gosod dyfais rhybuddio lefel i nodi pryd mae angen gwagio'r tanc.

Mae'r ymgeisydd mewn cysylltiad â CNC (drwy J Murphy's & Sons Ltd) ynglŷn â'r gofynion ar gyfer Trwyddedau Gweithgaredd Risg Llifogydd (FRAP) ar gyfer gweithgareddau A i D o dan Reoliadau Trwyddedu Amgylcheddol 2016. Gan fod gan y Grid Cenedlaethol statws ymgymeriad Gwarchodedig (o dan Ddeddf Adnoddau Dŵr 1991) ar gyfer FRAPs, nid yw'n ofynnol iddynt geisio trwydded ar gyfer gweithgareddau E-K. Byddai hyn yn cynnwys unrhyw ffensys. Fodd bynnag, o bwys yw bod y Rheoliadau yn ystyried ffensys o arddull amaethyddol fel rhai wedi'u heithrio rhag bod yn weithgaredd. Mae'r lluniadau a gyflwynwyd yn cynghori bod y ffensys yn "Ffensys dros dro i atal da byw."

2 Safleoedd Gwarchodedig

Mae gan y cynigion y potensial i effeithio'n uniongyrchol ac yn anuniongyrchol ar nifer o safleoedd gwarchodedig yn yr ardal, mae'r rhain yn cynnwys Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA) Glaslyn, SoDdGA Ysbyty Bron y Garth, SoDdGA Morfa Harlech, Ardal Cadwraeth Arbennig Coedydd Derw a Meirion, ac ACA Pen Llŷn a'r Sarnau.

Bydd nodweddion symudol y safleoedd hyn (Ystlumod a Dyfrgwn) yn cael eu hystyried yn yr adran rhywogaethau gwarchodedig isod.

Rhaid i'r Awdurdod Cynllunio Lleol fel yr awdurdod cymwys o dan Reoliadau Cadwraeth Cynefinoedd a Rhywogaethau 2017 (fel y'u diwygiwyd), cyn penderfynu rhoi caniatâd i brosiect sy'n debygol o gael effaith sylweddol ar safle ACA/AGA/Ramsar, naill ai ar ei ben ei hun neu ar y cyd â chynlluniau neu brosiectau eraill, wneud asesiad priodol o oblygiadau'r prosiect ar gyfer y safle hwnnw yng ngoleuni ei amcanion cadwraeth. At ddibenion yr asesiad rhaid i chi ymgynghori â CNC ac ystyried unrhyw sylwadau a wnawn o fewn yr amser rhesymol a nodwch chi.

2.1 SoDdGA Glaslyn

Rydym yn nodi'r wybodaeth ychwanegol a gyflwynwyd i gefnogi'r cais ar ffurf Atodiad i'r Datganiad Amgylcheddol. Rhagwelir y bydd y cynigion yn arwain at golled parhaol o 436.3m² o gynefin SoDdGA a cholled dros dro o 1.6ha o gynefin Gorlifdir Arfordirol a Cors Bori (CFGM) o'r SoDdGA. Felly, cynigir mesurau lliniaru a digolledu gan yr ymgeisydd.

Fel rhan o'n hymateb i'n cyngor cyn gwneud cais cynllunio, fe wnaethom godi

PWYLLGOR CYNLLUNIO	DYDDIAD: 28/09/2026
ADRODDIAD Y PENNAETH ADRAN CYNORTHWYOL	

pryderon nad oedd rhai nodweddion blodau'r SoDdGA wedi'u hasesu'n ddigonol. Rydym yn croesawu'r datganiadau a wnaed yn adran 5.10.5 ynglŷn â gwaith arolwg pellach cyn dechrau ac y dylid sicrhau hyn drwy amod wedi'i eirio'n briodol – manylwn ar hyn ar ddiwedd yr adran hon (2.1.1). Yn ogystal â'r arolygon cyn cychwyn hyn, rydym yn cytuno yn y pen draw:

1. Fod cyfarwyddiadau clir ar gyfer diffinio ardaloedd gwaith yn hanfodol er mwyn sicrhau nad yw'r gwaith yn tresmasu ymhellach ar y SoDdGA na'r cynlluniau a ganiatawyd. Dylai ffensys ac ehangder y gwaith gael eu gwirio gan Glerc Gwaith Ecolegol a'u cyflwyno fel rhan o'r Cynllun Rheoli Amgylchedd Adeiladu (CEMP) (adran 6.1 isod).
2. Gyda chyfarwyddiadau ar dynnu pridd yn ofalus, ei storio a'i reoli, byddai'r effeithiau ar nodweddion y SoDdGA yn cael eu lleihau yn y tymor hir. Mae manylion y mesurau hyn yn hanfodol i ddiogelu'r SoDdGA a dylai Clerc Gwaith Ecolegol oruchwyllo'r gwaith a bod yn atebol am yr holl reolaeth pridd yn yr ardaloedd sensitif hyn. Dylid ymdrin â hyn drwy ddarparu amodau wedi'u geirio'n briodol mewn unrhyw ganiatâd ar gyfer y cynigion. Rydym wedi cynnwys pwyntiau i'r perwyl hwn yn yr amod CMEP y cyfeirir ato yn yr Adran Rheoli Amgylcheddol isod (adran 6.1).
3. Dylid cynnwys cynllun rheoli Boddlogelwch yn y CEMP a/neu fel amod/dogfen annibynnol.
4. Gyda darpariaeth briodol o'r cynefin oddi ar y safle (sy'n gofyn am gyfarwyddiadau rheoli priodol, cyllid, mecanweithiau adolygu ac ati) gellir ymdrin yn foddhaol â'r effeithiau hirdymor ar y SoDdGA o golli cynefin uniongyrchol a'r colledion dros dro.

2.1.1 Amod – Arolwg botanegol cyn cychwyn

Bydd arolwg botanegol sy'n canolbwyntio ar nodweddion SoDdGA Glaslyn yn cael ei gynnal cyn i'r gwaith gychwyn yn yr ardaloedd hyn ar adeg briodol o'r flwyddyn ar gyfer pob rhywogaeth dan sylw ac fe'i wneir gan ecolegydd profiadol addas.

Bydd yr arolwg hefyd yn manylu ar fesurau osgoi, lliniaru a digolledu priodol yn dibynnu ar y rhywogaethau a'r cynefinoedd a ganfuwyd eu bod yn bresennol. Bydd darpariaeth ar gyfer monitro, rheoli ac adrodd priodol ar unrhyw fesurau hefyd yn cael ei chynnwys. Ni fyddem yn gwrthwynebu bod y mesurau hyn yn cael eu cynnwys yn y Cynllun Rheoli Amgylchedd Tirwedd (LEMP) ar gyfer y cynigion.

2.1.2 Amod – Cynllun Rheoli a Monitro Cynefinoedd

Yn unol â'r wybodaeth a gyflwynwyd yn yr atodiad i'r DA, mae'r datblygwr wedi ymrwymo i ddarparu ardaloedd addas o welliannau i'r cynefinoedd sy'n agos at y gwaith, a bydd y rhain yn cael eu cyflawni mewn partneriaeth ag Ymddiriedolaeth Afonydd Gogledd Cymru. Maent wedi nodi ardaloedd o welliannau i gynefinoedd y disgwylir eu cyflawni, ac rydym yn croesawu

PWYLLGOR CYNLLUNIO	DYDDIAD: 28/09/2026
ADRODDIAD Y PENNAETH ADRAN CYNORTHWYOL	

cynnwys yr ardaloedd y cyfeirir atynt.

Mae'r cynefinoedd presennol yn y lleoliadau hyn wedi'u hasesu ac er bod llawer o ardaloedd yn cael eu hystyried fel ardaloedd gyda gwerth bioamrywiaeth da eisoes, mae'r adroddiad o'r farn bod hyn yn dangos addasrwydd sylfaenol dda ar gyfer y cynigion o ran darparu gwelliant bioamrywiaeth ystyrlon gyda mesurau rheoli priodol.

Mae'r cynlluniau yn cyfeirio i raddau helaeth at gyfnod o 25 mlynedd – rydym yn ystyried bod hyn yn addas. Fodd bynnag, dim ond pum mlynedd o reolaeth a nodir ar gyfer dolydd gwair a chynefinoedd ar y safle mewn rhai o'r dogfennau. Rydym yn cynghori y dylid darparu'r cynllun am 25 mlynedd er mwyn sicrhau bod ymarferoldeb yr ardaloedd hyn (gan gynnwys cynefinoedd SoDdGA ar y safle a dôl gwair wedi'i hadfer) yn cael ei gynnal.

Dylai'r cynllun terfynol gynnwys manylion llawn y cyfarwyddiadau rheoli, amserlenni, dangosyddion perfformiad allweddol, mecanweithiau adrodd ac adolygu, personau sy'n gyfrifol am y gwaith. Dylid nodi unrhyw orgyffwrdd/rhyngweithio â'r LEMP (amod y cyfeirir ato yn yr adran tirwedd isod) a'r INNS yn glir gyda rolau a chyfrifoldebau a llwybrau adrodd yn glir trwy'r amser.

2.1.3 Amod – Rheoli Rhywogaethau Estron Ymledol (INNS)

Mae'r ymgeisydd wedi ymrwymo i raglen uchelgeisiol o reoli INNS, i'w chyflwyno mewn partneriaeth ag Ymddiriedolaeth Afonydd Gogledd Cymru ar draws dalgylch Glaslyn cyfan dros gyfnod o 25 mlynedd, a chroesawir hynny. O ran budd net ehangach, rydym yn argymhell eich bod yn cysylltu â'ch ymgynghorydd ecolegol mewnol ynghylch addasrwydd y cynllun ehangach y tu allan i safleoedd gwarchodedig.

Mae'r egwyddorion a amlinellir yn addas ar gyfer nodau ac amcanion y cynllun ac felly, gellir cyflawni manylion llawn y cynllun trwy sicrhau amod wedi'i eirio'n briodol sy'n cynnwys mesurau rheoli, dangosyddion perfformiad allweddol a mecanweithiau adolygu. Dylai'r mesurau hyn gael eu darparu fel rhan o'r cynllun monitro a chynnal a chadw cynefinoedd cyffredinol neu fel cynllun INNS annibynnol.

Rydym yn nodi y bydd angen mesurau cyfnod adeiladu hefyd fel rhan / elfen o CEMP neu strategaeth INNS annibynnol.

2.2 Ardal Cadwraeth Arbennig (ACA) Coedydd Derw a Meirion

Rydym yn deall y bydd angen mân waith o amgylch blychau cyswllt presennol a bydd defnydd o isadeiledd presennol yn digwydd i gael mynediad i'r ardaloedd hyn, ac ni fydd unrhyw nodwedd gynefin gymwys yn cael ei heffeithio. Felly, ni fyddem yn codi pryderon ynghylch effeithiau'r prosiect ar gynefinoedd y safle hwn.

Ceir cyngor ar nodweddion symudol y safle hwn (Ystlumod) yn yr adran

PWYLLGOR CYNLLUNIO	DYDDIAD: 28/09/2026
ADRODDIAD Y PENNAETH ADRAN CYNORTHWYOL	

rhywogaethau gwarchodedig isod.

2.3 SoDdGA Ysbyty Bron y Garth

Mae gan y prosiect y potensial i effeithio ar ystlumod sy'n fforio a chymudo a allai ddod o'r SoDdGA, darperir sylwadau pellach ar ystlumod yn yr adran rhywogaethau gwarchodedig isod.

2.4 SoDdGA Morfa Harlech ac ACA Pen Llŷn a'r Sarnau

Rydym o'r farn y byddai'r prif lwybr effaith sy'n peri pryder i'r safleoedd hyn yn ymwneud â'r potensial am lygredd yn ystod y gwaith adeiladu. Felly, cyfeiriwch at yr adran rheoli amgylcheddol am ragor o wybodaeth ynglŷn â'r gofynion i sicrhau Cynllun Rheoli Amgylchedd Adeiladu (CEMP) priodol.

Darperir cyngor ar nodweddion symudol y safleoedd hyn (dyfrgwn) fel rhan o'r adran rhywogaethau gwarchodedig isod.

3 Risg Llifogydd

Yn dilyn ein hymateb dyddiedig 12/02/2026, mae'r ymgeisydd bellach wedi ailedrych ar y modelu hydrologig ac yn cynnig mesurau lliniaru llifogydd i reoli'r cynnydd posibl (o waith dros dro am gyfnod o bedair blynedd yn unig) o ran risg llifogydd i'r derbynyddion preswyl ym Mhorthmadog a Thremadog. Y bwriad yw gosod pypiau mewn dau leoliad (allfa Y Cyt i Lyn Cob Crwn a Glaslyn ger y giatiau llanw) a phwmpio.

Mae'r dogfennau a uwchlwythwyd yn ddiweddar (ar 07/05/2026) yn cefnogi cynigion yr ymgeiswyr a byddai'n ofynnol iddynt ddarparu ar gyfer y gwaith cynnar ac ar gyfer y cynllun cyffredinol (senarios dros dro a pharhaol).

Mae'r ddogfen Datganiad Amgylcheddol Rhifyn 4 Pennod 8 Diweddariadau yn cynghori bod Arup wedi gwneud modelu llifogydd ychwanegol ar gyfer y gwaith cynnar ac ar gyfer y cynllun (dros dro/parhaol). Ar gyfer y gwaith cynnar ac asesu'r digwyddiad llifogydd afonol o AEP 1% (1 o bob 100) ar gyfer Glaslyn a'r Cyt, mae dyfnderoedd llifogydd yn cynyddu 0.01m ar dir amaethyddol yng ngogledd-orllewin ardal yr astudiaeth gan nodi y byddai'r ardal eisoes wedi'i gorlifo i ryw 0.28m. Yn Nhremadog, byddai'r ffordd yn gweld llifogydd o 0.017m ychwanegol o system ddraenio Y Cyt. Yn ystod digwyddiad llifogydd AEP 1% Glaslyn, gallai dyfnderoedd eiddo gynyddu 0.4m.

Ar gyfer y gwaith dros dro, mae'r cynnydd ar gyfartaledd rhwng 0.005m a 0.10m. Yn y rhan fwyaf o achosion, mae'r cynnydd yn effeithio ar dir amaethyddol, ond hefyd ar ardaloedd preswyl Porthmadog. Ceir esboniad pellach ar dudalennau 5 i 7 o'r Diweddariad.

Ar gyfer y gwaith parhaol h.y. pan fydd yr holl waith newid ceblau wedi'i gwblhau ac ardaloedd wedi'u hadfer, rydym yn nodi ac yn derbyn bod poced fach o eiddo preswyl ym Mhorthmadog a'r cyrtiau tenis lle mae'r cynnydd oddeutu 0.006m o'i gymharu â'r senario presennol (neu heddiw) ar gyfer y

PWYLLGOR CYNLLUNIO	DYDDIAD: 28/09/2026
ADRODDIAD Y PENNAETH ADUAN CYNORTHWYOL	

llifogydd AEP o 1%. Mae hyn ond 1mm yn uwch na'r hyn a ystyrir yn 'oddefgarwch modelu derbyniol' o hyd at 5mm. Rydym yn nodi ac yn derbyn y byddai'r digwyddiad 1% presennol yn absenoldeb y prosiect yn dangos bod dyfnderoedd llifogydd yn yr ardal hon rhwng 0.175 a 0.475m, felly'n uwch na lefelau trothwy eiddo arferol eisoes. Nid oes unrhyw lwfansau newid hinsawdd wedi'u cymhwyso yn y gwaith galluogi/dros dro gan mai dim ond pedair blynedd sy'n cael ei ystyried.

Nodwn fod adran 4.4.5 i 4.4.16 o Atodiad 4.8. o'r Asesiad Canlyniadau Llifogydd (FCA) yn manylu na fyddai'r gwaith galluogi cychwynnol a gynigir yn arwain at gynnydd mewn risg llifogydd. Byddai'r gwaith galluogi hyn yn cymryd tua naw mis ac ar ôl y cyfnod hwn (a chyn i'r gwaith safle ehangach ddechrau), byddai'r gwaith pwmpio i liniaru llifogydd ar waith. Felly, rydym yn derbyn bod y mesurau lliniaru fel y bwriedir yn ofynnol ar gyfer y gwaith dros dro ehangach yn unig ac nid ar gyfer y naw mis cychwynnol o waith galluogi.

Mae'r ddogfen ddiwygiedig (F 4.8.Ca. *Glaslyn Cables Flood Consequences Assessment*) hefyd yn adlewyrchu canlyniadau'r gwaith modelu diweddaedig ac wedi defnyddio arferion gorau i asesu'r risg a'r mewnbynnau i'r gwaith modelu.

Mae'r ymgeisydd hefyd wedi cyflwyno Nodyn Technegol (Cynllun Lliniaru Pwmpio Llifogydd Glaslyn – Gwybodaeth Atebol) sy'n amlinellu sut maent yn bwriadu lliniaru'r cynnydd mewn risg llifogydd. Mae gennym rai pryderon ynglŷn â'r trefniadau pwmpio gan y bydd angen deialog a chytundebau pellach arnom i sicrhau na fydd y bwriad yn peryglu ein gofynion gweithredol rheoli risg llifogydd yn yr ardal. Bwriedir gosod pypiau ar safle 1 i bwmpio o'r Cyt i Lyn Bach a Lleoliad Pwmp 2 o Afon Glaslyn i Lyn Bach (dros ddrysau llanwol Glaslyn). Y bwriad yw cael capasiti pwmpio o hyd at 1.5 metr ciwb yr eiliad am isafswm cyfnod o 50 awr yn ystod llifogydd AEP o 1%. Nid yw'r ddogfen wedi manylu ar y llwybr cydsynio ar gyfer y dull hwn.

Er ei bod yn amhosibl diystyru'r posibilrwydd y bydd digwyddiad llifogydd sylweddol (1% AEP) yn digwydd yn ystod cyfnod adeiladu'r prosiect, sylwer mai dim ond am bedair blynedd y byddai'r niwed posibl o'r gwaith dros dro yn bodoli. Os bydd eich awdurdod yn gofyn am y gwaith lliniaru fel yr awgrymir (trefniadau pwmpio), byddem yn gofyn i'r ymgeisydd naill ai ddarparu manylion ychwanegol i ymdrin â'n pryderon fel rhan o unrhyw lwybr cydsynio arall sy'n ofynnol, neu fod amod addas ynghlwm wrth unrhyw ganiatâd cynllunio a roddir. Mae'r materion sy'n weddill fel a ganlyn:

- Cytundeb ynghylch mynediad rheoli risg llifogydd i CNC yn lleoliad pwmp 1. Mae'r lleoliad arfaethedig yn gwrthdaro ag unig lwybr mynediad CNC i'r rhan hon o'r cwrs dŵr a reolir. Mae'r mynediad hwn yn hanfodol ar gyfer cynnal a chadw arferol ac ymateb brys (e.e. rheoli rhwystrau neu lystyfiant). Felly, byddai unrhyw gyfyngiad ar y mynediad hwn yn creu risg weithredol sylweddol.

PWYLLGOR CYNLLUNIO	DYDDIAD: 28/09/2026
ADRODDIAD Y PENNAETH ADRAN CYNORTHWYOL	

- Cytundeb ynghylch mynediad rheoli risg llifogydd i CNC yn lleoliad pwmp 2. Mae'n hanfodol bod mynediad brys i'r giatiau ar gael bob amser, gan gynnwys y gallu i ddod â chraen i mewn a'i osod fel oedd yn angenrheidiol yn 2016. Byddem angen cadarnhad na fyddai mynediad i graen a'r gallu i gymryd pwysau yn cael ei beryglu. Ni ddylai'r gwaith ymyrryd â'n cyfrifoldeb i wneud unrhyw waith sydd ei angen ar strwythur y drws llanwol. Dylid darparu lluniadau technegol sy'n manylu ar yr uchod yn lleoliad 2.
- Mae tir Lleoliad 2 yn eiddo i CNC ac felly byddai angen cytundeb cyfreithiol.
- Nid yw'n glir beth fyddai'n sbarduno gweithrediad y pypiau ym mhob lleoliad. Rhaid diffinio'r lefel dŵr gwirioneddol ym mhob lleoliad ar gyfer pryd mae'r pypiau yn gweithredu.
- Mae gan CNC delemetreg ar y Cyt a Glaslyn ac felly ni fyddem eisiau i'r bwriad effeithio ar y rhain gan eu bod yn cael eu defnyddio at ddibenion monitro/rhybuddio llifogydd. Mae ceblau trydan a chyfathrebu wedi'u claddu ger lleoliad pwmp 2 i wasanaethu'r giatiau llanwol.
- Gall y lleoliadau derbyn a gollyngiadau fod yn destun Trwydded Gweithgaredd Risg Llifogydd ar wahân gan CNC. Byddem yn disgwyl lluniadau manwl i'n hysbysu o'r trefniadau a'r methodolegau gwirioneddol ar sut mae'r bwriad yn cael ei reoli er mwyn peidio ag effeithio ar yr asedau rheoli risg llifogydd.
- Byddai defnyddio depo/iard CNC yn cyflwyno cyfyngiadau gweithredol o ystyried y defnydd presennol. Byddai angen trafodaeth bellach (gyda thimau gweithredol), a dylid ystyried gwelliannau digolledu lle bo hynny'n briodol. Ymestynnwyd yr iard yn ddiweddar oherwydd anghenion gweithredol.
- Mae mynediad yn defnyddio cerbydau cymalog yn gyfyngedig iawn ac efallai na fydd yn ymarferol. Dylai unrhyw fwriadau ar gyfer llwybrau mynediad newydd neu wedi'u haddasu gynnwys CNC yn gynnar.
- Rhaid sicrhau bod mynediad ar gael i CNC bob amser, gydag ardaloedd gwaith wedi'u gwahanu'n glir, ac ni ddylid ei gwneud yn ofynnol i staff CNC weithredu o dan weithdrefnau safle allanol (e.e. os oes angen gweithdrefnau iechyd a diogelwch/safle amgen gan gcontractwr ar wahân yn ein compownd, ni ddylid cyfyngu ein staff i bolisïau/gweithdrefnau allanol).
- Ni fydd staff CNC yn gallu cynorthwyo gyda gweithredu'r pypiau yn ystod cyfnod o lifogydd gan y bydd ein hadnoddau eisoes wedi'u hymrwymu i'n gweithdrefnau presennol ynghylch llifogydd yn y dalgylch.

Felly, byddem yn awgrymu bod yr ymgeisydd a'ch awdurdod yn ystyried y ffordd orau o frwr ymlaen â'r materion uchod. Byddem yn hapus i gael trafodaeth bellach i gynorthwyo eich awdurdod i ddod i'ch penderfyniad ar y materion hyn.

3.1 Lliniaru llifogydd a derbynyddion eraill

Rydym yn fodlon nad yw'r mesurau lliniaru pwmpio arfaethedig yn debygol o

PWYLLGOR CYNLLUNIO	DYDDIAD: 28/09/2026
ADRODDIAD Y PENNAETH ADARAN CYNORTHWYOL	

arwain at effeithiau nodedig i dderbynyddion eraill o fewn ein cylch gwaith ar yr amod bod y mesurau a nodir yn y nodyn technegol ac sy'n gysylltiedig â'r prosiect ehangach yn cael eu gweithredu yn unol â'n sylwadau ym mhob pennawd pwnc penodol.

4 Tirwedd

Mae ein cyngor cynllunio tirwedd yn ymwneud â chymeriad tirwedd a mwynderau gweledol Parc Cenedlaethol Eryri (PCE) a phwrpas statudol y dynodiad i warchod a gwella ei harddwch naturiol. Rydym wedi adolygu'r wybodaeth a gyflwynwyd i gefnogi'r cais. Nod y cais hwn yw disodli ceblau tanddaearol 400 cilofolt (kV) a 132 kV (Ceblau Glaslyn) rhwng 'Compownd Selio Pennau Ceblau' (CSEC) presennol Wern (CSEC) a CSEC Minffordd, gan ddarparu CSEC newydd, gwaith foltedd uchel, gwaith dur, a ffensys diogelwch yn CSEC Wern a CSEC Minffordd, isadeiledd cysylltiedig, ffyrdd mynediad a thirlunio sy'n rhychwantu tua 6 cilomedr (km).

Mae'r safle tua 300m i'r dwyrain o Barc Cenedlaethol Eryri ar y pwynt agosaf (Ffigwr 4.4.6 y DA). Mae cyfanrwydd y llwybr 6km i gyd yn ongli rhwng tua 0.5km a 1.5km i'r de o ffin ddeheuol PCE.

Mae safle gwaith Glaslyn yn cwmpasu ardal oddeutu 106.4 hectar (ha). Mae'r tir o fewn safle gwaith Glaslyn yn cynnwys ffyrdd mynediad, ardaloedd troi, compowndiau adeiladu ac ardaloedd gosod sydd eu hangen ar gyfer adeiladu a gweithredu'r gwaith. Mae'r gwaith adeiladu yn rhychwantu cyfnod o dair blynedd rhwng Chwarter 2, 2026 a Chwarter 2, 2029 gan gynnwys 24 awr o weithio yn ystod gweithgareddau critigol.

4.1 Cefndir

Cadarnhaodd ein cyngor cyn gwneud cais fod yr asesiad a ddarparwyd yn cyd-fynd â methodoleg gyffredinol yr Asesiad Effaith ar y Dirwedd a'r Effaith Weledol (LVIA) ac fe wnaethom gytuno â'r asesiadau tirwedd a gweledol a ddaeth i'r casgliad y byddai effeithiau yn digwydd yn bennaf yn ystod y cyfnod adeiladu.

Ein hargymhellion cryno yn y cam cyn gwneud cais oedd:

- Bod ffin y Parc Cenedlaethol yn cael ei chynnwys ar y Parthau Gweledol Damcaniaethol (ZTVs) (i gynorthwyo i sefydlu effeithiau posibl ar y dirwedd warchodedig a llywio dewis pwynt golygfa).
- Adolygu'r potensial ar gyfer effeithiau gweledol ar PCE gan ystyried cyfnod tair blynedd y cam adeiladu ynghyd â'r amser sydd ei angen ar gyfer sefydlu mesurau lliniaru tirwedd (3-5 mlynedd ychwanegol) ac ystyried pwyntiau golygfa o fewn PCE.
- Dylid blaenoriaethu mabwysiadu mesurau sgrinio tirwedd yn gynnar i ffiniau a gweithredu cynllun adfer tirwedd cymeradwy priodol (er mwyn lliniaru effeithiau yn ystod y cyfnod adeiladu).
- Darparu eglurder ar fesurau diogelu coed ar gyfer coed a gwrychoedd a gedwir lle dibynnir ar y rhain ar gyfer lliniaru.

PWYLLGOR CYNLLUNIO	DYDDIAD: 28/09/2026
ADRODDIAD Y PENNAETH ADUAN CYNORTHWYOL	

- Darparu strategaeth tirwedd glir, amserlen a manyleb ar gyfer gwaith plannu gan gynnwys manylion mesurau lliniaru a digolledu ynghyd â gwaith mewn camau. Dylai gwaith plannu i ddigolledu fod yn ychwanegol at waith lliniaru.
- Darparu eglurder ar liwiau a gorffeniadau'r isadeiledd arfaethedig.

4.2 Effeithiau Tirwedd

Mae Adran 4.8.20 y DA Rhifyn 4 Pennod 4 Tirwedd a Mwynderau Gweledol yn trafod yr Asesiad o Leoliad PCE. O ran Ceblau Glaslyn, nodi y "Byddai gweithgarwch adeiladu o fewn ACA 20 Porthmadog ac Aber Afon Glaslyn, ACA 21 Aber Dwyryd a Morfa Harlech yn cynrychioli gweithgaredd anghydnaws o fewn y tir gwledig a'r morluniau. Byddai'r gweithgarwch adeiladu yn fyrdymor gydag effeithiau uniongyrchol yn deillio o waith clirio llystyfiant a chloddio ac aflonyddu'r pridd o HDD a chloddio ffosydd ar lwybr cebl Glaslyn. Byddai effeithiau anuniongyrchol ar yr Ardal Cymeriad Tirwedd (LCA) a'r ACA hyn yn deillio o golli tawelwch o'r canfyddiad o ddylanwad trefol cynyddol. Mae'r rhinweddau gwledig a naturiol hyn yn cael eu dylanwadu gan bresenoldeb ymyraethau modern a threfol, a byddai hyn yn lleihau'r cyferbyniad mewn rhai manau. Byddai'r effeithiau yn lleol, dros dro ac yn wyrdroadwy ond byddai'n andwyol gymedrol ac yn sylweddol am gyfnod y gwaith".

Nodwn fod hyd y gwaith yn debygol o fod yn dair blynedd ac rydym yn cytuno â'r asesiad hwn. Rydym hefyd yn cytuno gyda'r asesiad y byddai "Gweithgareddau adeiladu o fewn LCA 04 Ucheldiroedd Moel Hebog ac ACA 19 Cricieth i Fochras yn fân andwyol a ddim yn sylweddol."

4.3 Effeithiau Gweledol

Oherwydd yr effeithiau andwyol cymedrol a sylweddol ar y dirwedd a aseswyd ar gyfer lleoliad PC Eryri yn ystod cyfnod adeiladu Ceblau Glaslyn, argymhellodd ein cyngor cyn gwneud cais adolygu'r penderfyniad i ddileu effeithiau gweledol o PCE. Mae ymateb PAC yn nodi bod "Effeithiau gweledol ar PCE yn ystod y gwaith adeiladu wedi cael eu hasesu a'u sgopio allan oherwydd natur pellter hir y golygfeydd."

Rydym yn cytuno â'r arfarniad gweledol yn 4.8.34 sy'n crynhoi effeithiau ar dderbynyddion o'r pwyntiau golygfa (gan gynnwys y rhai yn lleoliad y Parc Cenedlaethol). Mae hyn yn nodi;

"Byddai'r mwyafrif o dderbynyddion ar safle gwaith Glaslyn yn gweld symudiad peiriannau adeiladu, gan gynnwys gwaith tynnu pridd, peiriannau HDD, strwythurau dros dro, compowndiau storio dros dro ar draws y rhan fwyaf o'r olygfa. Pan fyddai'r derbynyddion yn bell o'r gwaith, byddai graddfa'r gwaith arfaethedig a'r pellter rhwng y gwaith arfaethedig a'r derbynydd yn golygu bod y gweithrediadau adeiladu yn ychwanegiad prin y gellir ei ganfod, ar raddfa fach o fewn golygfa panoramig eang. Byddai effeithiau yn fyrdymor gan arwain at effaith andwyol ddibwys"

PWYLLGOR CYNLLUNIO	DYDDIAD: 28/09/2026
ADRODDIAD Y PENNAETH ADRAN CYNORTHWYOL	

4.4 Lliniaru

Mae adran 4.8.7 yn cynnwys y mesurau lliniaru cyffredinol y bwriedir iddynt fod yn rhan o'r dyluniad; dangosir hyn hefyd ar Gynlluniau Tirwedd Ceblau Glaslyn 1-10 gyda mesurau lliniaru yn cael eu trafod ym Mhennod 3 Cynllun Rheoli Ecolegol y Dirwedd (LEMP).

Bydd y safle presennol yn cael ei glirio o lystyfiant gan gynnwys coed a gwrychoedd. Amlinellir swmp y gwaith clirio coed (nifer a chyflwr y coed a gwrychoedd) yn yr Asesiad Coedyddiaeth (Atodiadau ES 4.5K) ac mae'n cadarnhau: "Bydd 73 coeden unigol, 56 grŵp, pedwar coetir ac wyth gwrych yn cael eu tynnu neu eu tynnu'n rhannol i hwyluso'r gwaith arfaethedig; mae hyn yn cynnwys dwy goeden unigol ac un coetir rhannol a ddosbarthwyd fel coetir o ansawdd uchel (Categori A); 21 o goed unigol, saith grŵp, naw rhan o grwpiau a thair rhan o goetiroedd wedi'u dosbarthu fel coetir o ansawdd cymedrol (Categori B); 44 o goed unigol, 20 grŵp, 19 rhan o grŵp, tri gwrych a phum rhan o wrychoedd wedi'u dosbarthu fel rhai o ansawdd isel (Categori C); a'r chwe choeden unigol sy'n weddill ac un grŵp wedi'i ddosbarthu fel rhai anaddas i'w cadw (Categori U)."

Rydym yn croesawu'r cynlluniau tirwedd amlinellol sy'n nodi adfer tirwedd a mesurau lliniaru tirwedd. Nodwn y cynigion am fesurau lliniaru plannu a gwaith plannu i ddigolledu yn Rhifyn 8 Atodiad 4.5.L Datganiad Budd Net ar gyfer Bioamrywiaeth ac Isadeiledd Gwyrdd.

Mae'r adroddiad PAC yn nodi y bydd mesurau sy'n ymwneud â diogelu coed a strategaeth tirwedd yn cael eu hamlinellu'n fanwl yn y Cynllun Rheoli Tirwedd ac Ecolegol (LEMP) terfynol i'w gymeradwyo trwy amodau cynllunio.

4.5 Amod – LEMP - Strategaeth gwarchod coed a thirwedd

Rydym yn cynghori y dylai amod i roi amlinelliad manwl o'r strategaeth gwarchod coed a thirwedd gynnwys yr isod:

- Disgrifiad o'r rhesymeg dros ddyluniad mesurau lliniaru tirwedd meddal a gynigir ar bob un o'r 10 cynllun tirwedd a ddarperir ar gyfer mesurau lliniaru tirwedd a gweledol ac ar gyfer digolledu'r nodweddion a gollwyd.
- Dylai'r strategaeth dirwedd gynnwys amserlen plannu, manyleb gwaith (gan gynnwys maint, rhywogaethau, tymor, mesurau paratoi a disodli colledion) a chynigion rheoli a chynnal a chadw parhaus.
- Monitro a rheoli cynefinoedd SoDdGA yn ogystal â dangosyddion allweddol ar gyfer llwyddiant adfer a chamau adfer posibl (os na fydd ailsefydlu yn diwallu amcanion). Dylid cyfeirio'n glir at unrhyw orgyffwrdd â'r cynllun rheoli cynefinoedd hirdymor a diffinio rolau a chyfrifoldebau yn glir.
- Gwneud y gwaith plannu tirwedd yn raddol, yn enwedig y gwaith plannu byffer. Dylid cynllunio gwaith graddol i leihau effeithiau'r cynigion drwy gyflwyno llystyfiant sgrinio cyn gynted â phosibl yn y cynllun gwaith i ganiatáu effeithiau cynharaf. Gan fod y cyfnod adeiladu yn

PWYLLGOR CYNLLUNIO	DYDDIAD: 28/09/2026
ADRODDIAD Y PENNAETH ADUAN CYNORTHWYOL	

dair blynedd, ni fyddai'r effeithiau lliniaru o'r gwaith plannu ar ddiwedd y cyfnod adeiladu yn cael eu gwireddu am 3-5 mlynedd arall gan fod angen amser i bethau dyfu. Mae hyn yn golygu y gallai'r safle adeiladu fod heb sgrin am rhwng tair a chwe blynedd neu fwy.

Rheswm: sicrhau bod sgrin llystyfiant yn tyfu'n gynnar er mwyn lleihau effeithiau andwyol ar y Parc Cenedlaethol a sicrhau bod cynefinoedd SoDdGA yn ailsefydlu.

4.6 Goleuadau

Rydym yn croesawu cynigion i gadw goleuadau i'r lleiafswm yn ystod y cyfnod adeiladu tair blynedd ac er diogelwch tu hwnt i hyn. Nid ydym wedi gallu dod o hyd i asesiad goleuo. Rydym yn cynghori y dylai cynigion goleuo fod yn unol â Chanllawiau Arfer Da Llywodraeth Cymru, "Cynllunio ar gyfer cadwraeth a gwella awyr dywyll yng Nghymru": <https://www.gov.wales/dark-skies-guidance> ynghyd â'r mesurau a'r amod y cyfeirir atynt yn yr adran Rhywogaeth (4.2) isod.

4.7 Nodweddion parhaol

Mae'r CEMP yn cynnig; "Dylunio strwythurau parhaol, fel y CSEC, isadeiledd arall, a ffensys diogelwch mewn modd sy'n lleihau eu heffaith weledol ac yn cyflawni ymddangosiad gweledol da. Gall hyn gynnwys dewis palet lliw tawel sy'n ymddangos yn enciliol o fewn golygfeydd."

Dylid darparu neu sicrhau rhagor o fanylion am liwiau a gorffeniadau (os nad ydynt eisoes wedi'u cynnwys yn y cynigion) fel amod i foddhad eich awdurdod.

4.8 Crynodeb

Rydym yn cynghori bod yr effeithiau sy'n ymwneud â'r cynigion ceblau tanddaearol yn annhebygol o gael effeithiau niweidiol parhaol ar fwynderau hirdymor a rhinweddau arbennig PCE ond mae'n debygol o gael effeithiau tymor byr i ganolig y dylid eu lliniaru'n briodol. Asesir bod y rhain yn gymedrol, niweidiol ac arwyddocaol.

Rydym yn cynghori y bydd golygfeydd o PCE yn debygol o gael eu niweidio yn y tymor byr a chanolig yn ystod y gwaith adeiladu ac adfer. Mae angen gwaith plannu tirwedd ac adfer llawn er mwyn lliniaru'r effeithiau ac yn ychwanegol i wneud iawn am y nodweddion tirwedd a gollwyd. Dylai'r LEMP terfynol nodi'r rhain yn fanwl, gan gynnwys y pwyntiau a amlinellir uchod, mewn amod wedi'i eirio'n addas i'w gytuno gan yr awdurdod.

5 Rhywogaethau a Warchodir

5.1 Ystlumod

Mae gan y cynigion y potensial i effeithio ar nifer o rywogaethau ystlumod yng nghyffiniau'r gwaith gyda chlwydfannau wedi'u cadarnhau gerllaw, effeithiau ar goed, gwrychoedd a goleuadau a allai effeithio'n andwyol ar ystlumod sy'n

PWYLLGOR CYNLLUNIO	DYDDIAD: 28/09/2026
ADRODDIAD Y PENNAETH ADRAN CYNORTHWYOL	

cymudo a fforio. Mae ystlumod a'u mannau magu a gorffwys yn cael eu gwarchod dan Reoliadau Gwarchod Cynefinoedd a Rhywogaethau 2017 (fel y'u diwygiwyd).

Rydym yn nodi'r ymateb i'n sylwadau fel y cam statudol cyn gwneud gais (Adroddiad Ymgynghori Cyn Gwneud Cais Rhagfyr 2025). O ystyried natur y safle a'r effeithiau a ragwelir, rydym yn fodlon â'r rhesymeg a ddarperir ar hyn o bryd ac y gall yr amodau a gymhwysir i unrhyw ganiatâd a roddir fanylu yn briodol ar y mesurau sydd eu hangen cyn i'r gwaith ddechrau ar y safle.

Rydym yn croesawu'r ddarpariaeth o arolygon cyn dechrau ar nifer o goed cyn i'r gwaith ddechrau a'r fethodoleg ar gyfer tynnu coed risg isel. Rydym yn cytuno, os darganfyddir unrhyw ystlumod sy'n clwydo, y bydd angen trwydded gan CNC cyn i unrhyw waith sy'n effeithio ar glwydo ddechrau. Dylid sicrhau blychau ystlumod i foddhad eich awdurdod.

Lefelau goleuadau: Bydd angen cynnal y lefelau golau yn y compownd (ac mewn mannau eraill) ar y lefel isaf a ganiateir, heb unrhyw oleuadau diangen ac mae hyn yn cael ei adlewyrchu yn y gwahanol asesiadau a ddarperir. Fodd bynnag, mae ansicrwydd yn parhau ynglŷn â'r lefelau golau tebygol y bydd eu hangen ar y safle mewn gwirionedd.

Gan dybio y bydd y cynllun hwn yn rhannu ardal y compownd gyda chynllun Eryri VIP, ni ddylai fod cynnydd mewn lefelau golau o ganlyniad. Mae problemau goleuadau wedi'u nodi yn y cynllun VIP ers ei sefydlu, a oedd â gormod o oleuadau ar lystyfiant uchel gerllaw. Mae'r broses o ymdrin â'r mater hwn bellach ar waith.

Os oes angen goleuadau newydd o'r cynllun hwn yn yr ardal hon (ar ben Minffordd y cynllun) gall hyn wrthdroi'r gwelliant hwnnw sy'n cael ei wneud yn y cynllun VIP neu arwain at effeithiau mewn cyfuniad. Gallai hyn effeithio'n negyddol ar ystlumod sy'n fforio a chymudo, a allai hefyd fod yn nodweddion o'r SoDdGA a'r ACA gerllaw. Felly, bydd angen rheolaeth lym ar oleuadau, a dylid asesu'r lefelau trwy gydol y cynllun gan Glerc Gwaith Ecolegol (ECOW) priodol.

5.2 Amod – Goleuadau

Cyn gosod, cyflwynwyd Cynllun Goleuo i'r Awdurdod Cynllunio Lleol a chafodd ei gymeradwyo yn ysgrifenedig ganddo. Bydd y Cynllun Goleuo hwn yn ystyried goleuadau presennol ac arfaethedig ynghyd ag unrhyw ollyngiadau sy'n tarddu o ffynonellau golau mewnol, gan gynnwys:

- Manylion y goleuadau i'w defnyddio yn ystod ac ar ôl y gwaith adeiladu;
- Cynlluniau sy'n dangos lleoliad a math o oleuadau;
- Cynlluniau sy'n dangos pwyntiau ymddangosiad ystlumod a ragwelir

PWYLLGOR CYNLLUNIO	DYDDIAD: 28/09/2026
ADRODDIAD Y PENNAETH ADRAN CYNORTHWYOL	

neu sydd wedi'u cadw; ynghyd â nodweddion wedi'u cadw neu arf-aethedig y bwriedir eu defnyddio gan ystlumod at ddibenion fforio/gwasgaru;

- Darpariaeth ar gyfer gwiriadau parhaus a chofnodion i'w cadw yn ystod y gwaith a'r unigolyn sy'n gyfrifol (ECoW sydd â phrofiad priodol) gan gynnwys manylion cyswllt;
- Bydd darpariaethau'r cynllun yn cyd-fynd â darpariaethau Sefydliad y Gweithwyr Proffesiynol Goleuo a'r *Bat Conservation Trust: Guidance Note 08/23: Bats and Artificial Lighting at Night*.

Bydd y Cynllun Goleuo yn cael ei gyflawni yn unol â'r manylion cymeradwy.

Cyfiawnhad: Er mwyn sicrhau bod ystlumod yn cael eu diogelu gan y datblygiad.

5.3 Llygod Dŵr

Er na ddarganfuwyd llygod dŵr fel rhan o'r arolygon, mae llygod dŵr wedi bod yn bresennol yn yr ardal hon yn hanesyddol. Felly, dylid cynnal a/neu adfer y cynefin i sicrhau nad yw eu gallu i ddychwelyd ac ail-goloneiddio'r ardal yn cael ei rwystro. Byddai adfer ffosydd/cyrsiau dŵr sy'n llifo'n araf yn amhriodol, gyda choncrid a cherrig, yn debygol o danseilio ymdrechion yn y dyfodol i'w helpu i ail-goloneiddio'r ardal.

Felly, byddem yn croesawu cynigion i fanylu bod unrhyw ffosydd sy'n cael eu difrodi fel rhan o'r cynllun hwn yn cael eu hadfer fel yr oeddent o leiaf, ac yn ddelfrydol yn cael eu gwella fel cynefinoedd llygod dŵr. Byddai hyn yn gofyn am fannau a glannau meddal wedi'u proffilio'n briodol i adael iddynt dyrchu a digon o lystyfiant addas ar hyd y glannau.

Yn yr arolygon cychwynnol, ni chafodd rhai cyrsiau dŵr eu harolygu, oherwydd cyfyngiad mynediad neu ormod o lystyfiant. Mae arolwg ychwanegol o lygod dŵr bellach wedi'i gyflwyno fel rhan o'r Atodiad i'r DA sy'n cwmpasu cyrsiau dŵr yng nghyffiniau'r gwaith ac yn mapio'r ardaloedd a arolygwyd yn glir. Er bod arwyddion positif posibl o bresenoldeb wedi'u darganfod mewn ardaloedd penodol, daw'r arolygon i'r casgliad na welwyd llygod dŵr yn uniongyrchol. Felly, bydd arolygon ychwanegol gyda rafftau a thrapiau camera yn dal i gael eu cynnal ac felly, rydym yn cytuno â darparu'r arolygon hyn cyn dechrau'r gwaith yn unol ag argymhellion yr adroddiad.

Os cadarnheir presenoldeb llygod dŵr, rhaid i'r ymgeisydd fanylu ar fesurau osgoi a lliniaru priodol yn ogystal â sefydlu gofynion trwyddedu posibl.

5.4 Dyfrgwn

Nodwn yr ymdrech a wnaed i wneud arolygon hyd yma ar gyfer y rhywogaeth hon. Mae dyfrgwn yn cael eu gwarchod o dan Reoliadau Cadwraeth Cynefinoedd a Rhywogaethau 2017 (fel y'u diwygiwyd). Fel gyda llygod y dŵr, dylid gwneud darpariaeth briodol ar gyfer arolygon cyn dechrau'r gwaith.

Mae adran 6 yr adroddiad yn manylu ar nifer o fesurau osgoi yr ydym yn eu

PWYLLGOR CYNLLUNIO	DYDDIAD: 28/09/2026
ADRODDIAD Y PENNAETH ADRAN CYNORTHWYOL	

croesawu. Rydym yn croesawu'r pellteroedd sefyll (*stand-off*) y cyfeirir atynt ar gyfer dyfrgwn a byddem yn nodi bod yr HDD a ddefnyddir yn cael ei ystyried yn well ar gyfer croesfannau cwrs dŵr ac yn cael ei ystyried yn fesur osgoi addas. Bydd angen defnyddio mesurau osgoi rhesymol ar y safle sy'n sicrhau na all dyfrgwn gael eu dal mewn gwaith tyllu dros nos. Bydd yr amod goleuo y cyfeirir ato uchod ar gyfer ystlumod yn sicrhau y dylai unrhyw oleuadau sydd eu hangen ar y safle hefyd leihau ac osgoi unrhyw effeithiau ar ddyfrgwn.

Ar yr amod bod y mesurau hyn yn cael eu sicrhau a'u gweithredu'n briodol, rydym o'r farn bod y cynigion yn annhebygol o effeithio'n andwyol ar ddyfrgwn yn y cyffiniau.

6 Rheolaeth Amgylcheddol

Cyfeirir at y defnydd o lwybrau alwminiwm ar safleoedd sensitif. Mae hyn yn cael ei ystyried yn gadarnhaol ond mae'r ardal ar lefel y môr ac mae lefelau dŵr daear yn debygol o fod yn uchel. Bydd angen i'r contractwr ystyried amodau'r ddaear fel rhan o'i asesiad risg a chynllunio prosiect. Fel mesur rhagofalus, cynghorwn fod olrhain alwminiwm yn cael ei ddefnyddio ar bob trac mynediad. Fodd bynnag, bydd angen y rhain pan fydd amodau'r ddaear yn debygol o fod yn dirlawn. h.y. o ddiwedd mis Medi tan fis Ebrill. Byddem yn tynnu eich sylw at yr hyn sydd wedi digwydd yn yr ardal o'r blaen. Defnyddiwyd y caeau naill ochr i gyffordd Penamser ar yr A498 i Dremadog gan yr Eisteddfod Genedlaethol yn ystod Awst 1987. Fe wnaeth mynediad i gerbydau i'r caeau hyn eu troi'n fôr o fwd o fewn diwrnod neu ddau. Felly, mae angen paratoi'r prosiect hwn ar gyfer canlyniad o'r fath. Cafwyd digwyddiad tebyg pan ddefnyddiwyd caeau ger y cae pêl-droed fel maes parcio ar gyfer gŵyl yn ystod misoedd yr haf a chafwyd digwyddiad llifogydd, gan achosi i lawer o gerbydau fynd yn sownd mewn mwd dwfn.

Felly, er ein bod yn croesawu'r cyfeiriad at ganllawiau atal llygredd, bydd angen rhoi ystyriaeth bellach i ffensys silt neu fesurau tebyg i reoli dŵr ffo am gyfnod y prosiect a dylid eu hymgorffori mewn CEMP terfynol fel y manylir isod.

Dylid cadw at ddatganiad sefyllfa tynnu dŵr y Llywodraeth, Tynnu dŵr dros dro o waith cloddio i ddŵr wyneb: RPS 261 - GOV.UK. Os nad yw'n bosibl cydymffurfio â hyn e.e. oherwydd bod y lleoliad gollwng o fewn 500 metr i SoDdGA neu ACA, bydd angen trwydded i ollwng. Gallai cais am drwydded i ollwng gan CNC gymryd chwe mis i'w brosesu a dylid ystyried hyn yn gynnar yn y prosiect er mwyn sicrhau bod digon o amser yn cael ei roi i gael y drwydded.

Cynllun Atal Llygredd – dylai'r cynllun hwn gynnwys defnyddio ffensys silt ar hyd traciau mynediad ac ar groesfannau ffosydd ac ati. Gellid cyflwyno hyn fel rhan o CEMP fel y manylir isod neu amod annibynnol.

Gollyngiadau eraill:

PWYLLGOR CYNLLUNIO	DYDDIAD: 28/09/2026
ADRODDIAD Y PENNAETH ADRAN CYNORTHWYOL	

- Cyfeirir at olchi offer gyda glanedydd a thybir y bydd angen cyfleusterau golchi olwynion. Dylid gwneud darpariaeth ddigonol ar gyfer y materion hyn yn y CEMP.
- Os bydd ysgubwyr lonydd yn cael eu defnyddio, dylid nodi lle bydd ysgubwyr yn cael eu gwagio.
- Dylid cadarnhau'r trefniadau draenio dŵr budr dros dro ar gyfer y cynigion.

Byddem yn croesawu hysbysiad o bryd y bydd gwaith HDD yn digwydd, a ble, fel ein bod yn ymwybodol o'r hyn sy'n digwydd pe bai unrhyw afliwiad yn unrhyw gwrs dŵr ar y dyddiadau hynny ac ati yn cael ei weld neu ei adrodd i ni.

Rydym yn croesawu'r CEMP amlinellol a luniwyd ac yn ystyried y bydd amod wedi'i eirio'n addas i sicrhau manylion ychwanegol yn briodol unwaith y bydd contractwr wedi'i gadarnhau.

6.1 Amod - CEMP

Ni fydd unrhyw ddatblygiad na cham datblygu, gan gynnwys gwaith clirio safle, yn dechrau nes bod Cynllun Rheoli Amgylcheddol Adeiladu (CEMP) wedi'i gyflwyno i'r Awdurdod Cynllunio Lleol a'i gymeradwyo'n ysgrifenedig ganddo. Dylai'r CEMP gynnwys:

- Dulliau adeiladu: manylion deunyddiau, sut y bydd gwastraff a gynhyrchir yn cael ei reoli;
- Safleoedd Gwarchodedig a Gwaith Tynnu Pridd – Manylion llawn ac amseriad gweithrediadau tynnu pridd o fewn cynefinoedd sensitif, manylion llawn storio a chynnal a chadw swbstradau wedi'u tynnu yn ogystal â phrotocol ail-adfer. Dylai hyn gynnwys yr oruchwyliaeth gan ECoW a enwir
- Safleoedd Gwarchodedig ac ardaloedd gwaith - Rhaid i'r CEMP fanylu ar y triniaethau ffensys/ffiniau sy'n berthnasol i SoDdGA Glaslyn. Bydd y gwaith gosod yn cael ei oruchwyllo gan Glerc Gwaith Ecolegol i sicrhau nad oes unrhyw dresmasiad ar nodweddion cynefinoedd SoDdGA dros yr hyn sydd wedi'i ganiatáu.
- Safleoedd Gwarchodedig - Bydd cynllun rheoli bioddiogelwch cadarn yn cael ei gynhyrchu.
- Rhywogaethau a Warchodir – mesurau osgoi rhesymol i'w gweithredu ar y safle gan gynnwys personau sy'n gyfrifol am weithredu a monitro (ECoW)
- Rheoli Safle Cyffredinol: manylion y rhaglen adeiladu gan gynnwys amserlen, manylion clirio'r safle; manylion draenio'r safle adeiladu, ardaloedd cyfyngu, parthau byffer o faint priodol rhwng mannau storio (o sbwriel, olewon, tanwydd, ardaloedd cymysgu concriid a golchi) ac unrhyw gwrs dŵr neu ddraen arwyneb.
- Rheoli Bioamrywiaeth: manylion gwarchod coed a gwrychoedd; rheoli rhywogaethau ymledol; mesurau diogelu rhywogaethau a chynefinoedd, mesurau osgoi a lliniaru.

PWYLLGOR CYNLLUNIO	DYDDIAD: 28/09/2026
ADRODDIAD Y PENNAETH ADRAN CYNORTHWYOL	

- Prif Gynllun CEMP: manylion maint a chatau'r datblygiad; lleoliad ad-noddau tirwedd ac amgylcheddol; cynigion dylunio ac amcanion ar gyfer mesurau integreiddio a lliniaru.
- Rheoli Adnoddau: manylion storio a chadw tanwydd a chemegol; manylion cynhyrchu a rheoli gwastraff; manylion defnydd o ddŵr, dŵr gwastraff a defnydd ynni.
- Rheoli Traffig: manylion danfoniadau safle, peiriannau ar y safle, cyfleusterau golchi olwynion.
- Cynllun Atal Llygredd: dangos sut y bydd Canllawiau perthnasol ar gyfer Atal Llygredd a'r arfer gorau yn cael eu gweithredu, gan gynnwys manylion gweithdrefnau arllwys argyfwng a'r cynllun ymateb i ddi-gwyddiadau.
- Cynllun ymateb i ddigwyddiadau llygredd.
- Manylion y personau a'r cyrff sy'n gyfrifol am weithgareddau sy'n gysylltiedig â'r CEMP a manylion cyswllt brys.
- Clerc gwaith tirwedd/ecolegol i sicrhau cydymffurfiaeth adeiladu â chynlluniau cymeradwy a rheoliadau amgylcheddol.

Bydd y CEMP yn cael ei weithredu fel y cymeradwywyd yn ystod cyfnodau paratoi ac adeiladu'r datblygiad.

Cyfiawnhad: Dylid cyflwyno CEMP i sicrhau bod y mesurau rheoli angenrheidiol yn cael eu cytuno cyn dechrau ar y datblygiad a'u gweithredu i warchod yr amgylchedd yn ystod y gwaith adeiladu.

7 Halogiad

Mae llwybr Prosiect Atgyfnerthu Ceblau Glaslyn (y Prosiect) yn croesi ardal o ddŵr daear sydd dan fygythiad mawr o fewn llifwaddod Eilaidd A a llifwaddod Eilaidd B. Nid oes cofnod o barthau gwarchod ffynhonnell nac echdyniad trwyddedig o fewn ffin llinell goch y prosiect. Er nad yw dŵr daear yn arbennig o sensitif o fewn ardal y prosiect, mae angen gwarchod dŵr daear rhag aflonyddwch ffisegol anfwriadol (echdyniad, dargyfeiriad) a llygredd. Gall unrhyw effeithiau ar ddŵr daear effeithio ar ddŵr wyneb cysylltiedig a chynefinoedd cysylltiedig, gan gynnwys ecosystemau daearol sy'n dibynnu ar ddŵr daear a nodweddion safleoedd gwarchodedig.

Dylid cynnwys darpariaeth briodol i brofi am unrhyw ollyngiadau olew ac ati mewn gwaith digomisiynu (cyfeiriwch at Dylunio, adeiladu, addasu, cynnal a chadw a digomisiynu gorsafoedd llenwi (a elwir yn Lyfr Glas) | Sefydliad Ynni a groundwater-protection-code-underground-storage-tanks.pdf).

Yn absenoldeb tystiolaeth benodol o halogiad neu dderbynyddion dŵr daear sensitif, rydym yn argymhell i'r awdurdod lleol gynnwys yr amod isod ar gyfer prosiect o'r raddfa hon.

7.1 Amod: Halogiad heb ei Amau

PWYLLGOR CYNLLUNIO	DYDDIAD: 28/09/2026
ADRODDIAD Y PENNAETH ADRAN CYNORTHWYOL	

Yn ystod y gwaith datblygu, os canfyddir bod halogiad na chafodd ei adnabod yn flaenorol ar y safle, yna ni wneir unrhyw waith datblygu pellach (oni bai y cytunir ar hynny yn ysgrifenedig gyda'r Awdurdod Cynllunio Lleol), hyd nes i strategaeth adfer, sy'n manylu sut yr ymdrinnir â'r halogiad heb ei amau, gael ei chyflwyno i'r Awdurdod Cynllunio Lleol a'i chymeradwyo yn ysgrifenedig. Bydd y strategaeth adfer yn cael ei chyflawni fel y cymeradwyir.

Cyfiawnhad:

I sicrhau yr ymdrinnir â risgiau cysylltiedig â llygredd nad oedd yn cael ei amau yn flaenorol ar y safle drwy strategaeth unioni, i leihau'r risg i ddefnyddwyr y tir a thir gerllaw yn y dyfodol, ac i sicrhau y gellir cwblhau'r datblygiad yn ddiogel heb risgiau annerbyniol.

Yn ogystal â'r uchod, bydd yn hanfodol i'r datblygwr lunio a dilyn Cynllun Rheoli Amgylcheddol Adeiladu (CEMP) sy'n benodol i'r prosiect a chadw at yr hyn a ganlyn. Dilyn yr holl ganllawiau ymchwilio i dir a daear halogedig perthnasol, canllawiau gwarchod dŵr daear a llygredd a chanllawiau rheoli pridd a gwastraff, gan gynnwys:

- Rheoli risg halogiad tir (LCRM) - GOV.UK
- CIRIA C552 'Asesiad Risg Tir Halogedig - Canllaw Arfer Dda'
- BS 10175 (2011 + A2:2017), 'Ymchwilio i Safleoedd a Allai fod wedi'u Halogi - Cod Ymarfer'
- BS 5930 (2015 + A1:2020), 'Cod ymarfer ar gyfer Ymchwiliadau Safle'
- Dull Asiantaeth yr Amgylchedd o warchod dŵr daear
- Dogfennau canllaw ar gyfer Atal Llygredd | NetRegs | Canllawiau amgylcheddol ar gyfer eich busnes yng ngogledd Iwerddon a'r Alban
- CL:AIRE, Diffiniad o Wastraff: Cod Ymarfer y Diwydiant Datblygu
- Cod Ymarfer Adeiladu ar gyfer Defnydd Cynaliadwy o Briddoedd ar Safleoedd Adeiladu

Nodwn fod pob un o'r rhain a mwy yn cael eu cynnig yn y gwahanol ddogfennau prosiect. Ceir crynodeb o'r holl ddeddfwriaeth, polisïau lleol a chenedlaethol a chanllawiau y cyfeirir atynt yn Atodiadau'r Datganiad Amgylcheddol – Rhifyn 8 Rhan 1 – Rhifyn 1 ac mae hyn yn cael ei groesawu.

7.2 CEMP

Nodwn y CEMP Amlinellol cynhwysfawr a ddarparwyd a'r cynigion ar gyfer mireinio'r CEMP Amlinellol i lunio CEMP(au) manwl safle-benodol i'w gyflwyno i'r awdurdod lleol drwy'r Adran Gynllunio. Nodwn y gweithdrefnau arfaethedig i warchod dŵr daear ac ymdrin ag unrhyw lygredd neu lygredd a ddarganfuwyd a achosir gan weithrediadau safle. Nid oes gennym unrhyw ofnyion ychwanegol ar hyn o bryd. Ceir sylwadau pellach ar y CEMP amlinellol yn yr adran Rheoli Amgylcheddol.

PWYLLGOR CYNLLUNIO	DYDDIAD: 28/09/2026
ADRODDIAD Y PENNAETH ADRAN CYNORTHWYOL	

Materion Eraill

Mae'r cyngor yn y llythyr hwn yn ymwneud â materion sydd wedi'u cynnwys yn ein rhestr pynciau ymgynghori. Nid ydym yn diystyru'r potensial i'r datblygiad arfaethedig effeithio ar fuddiannau amgylcheddol eraill sydd heb eu cynnwys ar y rhestr hon.

Cynghorwn yr ymgeisydd, yn ogystal â chael caniatâd cynllunio, mai ei gyfrifoldeb ef yw sicrhau ei fod yn cael pob hawlen/caniatâd/trwydded sy'n berthnasol i'w ddatblygiad. Cyfeiriwch at ein gwefan am fanylion pellach.

Dŵr Cymru

Derbyniwyd yr ymateb ar 03/09/2026:

Diolch am eich e-byst.

Rydym wedi adolygu'r manylion atodedig ac nid oes gennym unrhyw wrthwynebiad mewn egwyddor i'r mynediad ceg arfaethedig. Fodd bynnag, byddem yn gofyn am fanylion unrhyw fodd o amgáu a fyddai o fewn parthau diogelu prif gyflenwad dŵr y gefnffordd gyhoeddus 150mm a'r prif gyflenwad dŵr AC 4 modfedd pan fesurir 4m y naill ochr a'r llall i'r llinellau canol. Byddem yn cynghori y dylai'r prif gyflenwad dŵr cyhoeddus gael ei leoli o fewn ardal gyhoeddus a hygyrch ac nid o fewn unrhyw gompownd caeedig. Hefyd, byddem yn gofyn am eglurhad ynghylch a fyddai unrhyw nodweddion eraill wedi'u lleoli o fewn parthau diogelu ein hasedau. Byddai'n ddefnyddiol cael cynllun safle manwl.

Derbyniwyd yr ymateb ar 13/08/26:

Cyfeiriwn at eich ymgynghoriad cynllunio ynghylch y safle uchod, ac fe allwn ddarparu'r sylwadau a ganlyn mewn perthynas â'r datblygiad arfaethedig.

Yn gyntaf, mewn perthynas â'r ffurflen gais a gyflwynwyd, rydym yn cydnabod bod y datblygiad yn bwriadu gwaredu llif dŵr budr ac arwyneb i danc septig a system ddraenio gynaliadwy, yn y drefn honno.

DRAENIO DŴR AFLAN - RHWYDWAITH A THRIN CARTHFFOSIAETH

Gan fod y datblygiad yn bwriadu defnyddio dull gwahanol i'r brif system ddraenio ar gyfer dŵr aflan, byddem yn cynghori'r ymgeisydd i ofyn am gyngor gan Gyfoeth Naturiol Cymru a/neu'r Adran Rheolaeth Adeiladu fel y corff rheoleiddio ar gyfer y dull hwn o ddraenio.

Pe byddai amgylchiadau'n newid a bod cysylltu â'r system garthffosiaeth gyhoeddus yn cael ei ffafrio, byddai'n rhaid ail-ymgynghori â ni ynghylch y cais hwn.

DRAENIO DŴR WYNEB

Gan droi at ddraenio dŵr wyneb, ers 7 Ionawr 2019, gallai'r datblygiad

PWYLLGOR CYNLLUNIO	DYDDIAD: 28/09/2026
ADRODDIAD Y PENNAETH ADRAN CYNORTHWYOL	

arfaethedig fod yn destun Atodlen 3 Deddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010. Pan fydd y datblygiad arfaethedig hwn yn arwain at gyfanswm ardal anhydraid o 100 metr sgwâr neu fwy, bydd angen cymeradwyaeth i nodweddion Systemau Draenio Cynaliadwy (SuDS) yn unol â'r 'Safonau statudol ar gyfer systemau draenio cynaliadwy - dylunio, adeiladu, gweithredu a chynnal a chadw systemau draenio dŵr wyneb'. Yn yr achos hwn, nid ydym yn cynnig unrhyw wrthwynebiad i'r cynigion i waredu llif dŵr wyneb i system ddraenio gynaliadwy, mewn egwyddor, yn amodol ar ymgynghori a chytundeb â'r corff rheoleiddio neu berchennog torlannol y system hon. Mae hyn hefyd ar y ddealltwriaeth lem nad oes bwriad i unrhyw ddŵr ffo wyneb o'r datblygiad arfaethedig gysylltu'n uniongyrchol/anuniongyrchol â'r system garthffosiaeth gyhoeddus.

CYFLENWAD DŴR YFED

Cofiwch nad yw Dŵr Cymru yn gyfrifol am amddiffyn tân nac am ddarparu llif tân addas. Cyfrifoldeb y Gwasanaethau Tân rhanbarthol priodol yw darparu llif tân ac amddiffyniad tân. Rydym yn eich cyfeirio at y 3ydd Argraffiad o'r Ddogfen Ganllaw Genedlaethol ar Ddarparu Dŵr ar gyfer Ymladd Tân a gyhoeddwyd gan y Gymdeithas Llywodraeth Leol a Water UK.

GWARCHOD ASEDAU

Yn ogystal, mae'r safle hwn yn cael ei groesi gan yr asedau isod gyda'u safleoedd bras wedi'u marcio ar y Cofnodion Carthffosydd Cyhoeddus a Phrif Gyflenwad Dŵr Statudol atodedig.

Parthau Gwarchod Asedau (wedi'u mesur naill ochr i'r llinellau canol)

Prif Gyflenwad Dŵr y Gefnffordd 150mm 4.5 metr

Prif Gyflenwad Dŵr y Gefnffordd 80mm 4 metr

Prif gyflenwad dŵr cyhoeddus 5 modfedd 4 metr

Prif gyflenwad dŵr cyhoeddus 4 modfedd 4 metr

Prif gyflenwad dŵr cyhoeddus 3 modfedd 4 metr

Prif gyflenwad dŵr cyhoeddus 110mm 4 metr

Prif gyflenwad dŵr cyhoeddus 50mm 3 metr

Prif bibell gyhoeddus 300mm 5 metr

Prif bibell gyhoeddus 150mm 4.5 metr

Prif bibell gyhoeddus 3 modfedd 4 metr

Carthffosydd cyfunol cyhoeddus 675mm 4 metr

Carthffosydd dŵr wyneb cyhoeddus 450mm 3 metr

PWYLLGOR CYNLLUNIO	DYDDIAD: 28/09/2026
ADRODDIAD Y PENNAETH ADRAN CYNORTHWYOL	

Carthffosydd cyfunol cyhoeddus 375mm 3 metr

Carthffosydd dŵr aflan cyhoeddus 375mm 3 metr

Carthffosydd cyfunol cyhoeddus 300mm 3 metr

Carthffosydd dŵr wyneb cyhoeddus 225mm 3 metr

Carthffosydd cyfunol cyhoeddus 150mm 3 metr

Carthffosydd dŵr aflan cyhoeddus 150mm 3 metr

Yn unol â Deddf Diwydiant Dŵr 1991, mae'n rhaid i Dŵr Cymru allu cael mynediad at ei gyfarpar bob amser i wneud gwaith cynnal a chadw a gwaith atgyweirio.

O ystyried y cynlluniau arfaethedig, mae'n ymddangos y byddai'r datblygiad arfaethedig wedi'i leoli o fewn parthau diogelu'r asedau cyhoeddus. Sylwer, mae'r pellter a nodir ar gyfer y parthau gwarchod hyn yn ddangosol ac yn seiliedig ar ganllawiau safonol y diwydiant. Fodd bynnag, bydd angen gwirio dyfnder yr asedau ar y safle, a allai olygu bod angen parthau gwarchod mwy. Er mwyn cyflawnrwydd, rydym yn argymhell i'r datblygwr edrych ar weithredoedd yr eiddo i gadarnhau a oes unrhyw gyfamodau neu gyfyngiadau sy'n gysylltiedig â'r ased(au) sy'n croesi'r safle datblygu arfaethedig.

Fel y gwyddoch o'n hymatebion blaenorol i'r ymgynghoriad, rydym wedi gofyn i ragor o wybodaeth gael ei chyflwyno o ran y berthynas rhwng y datblygiad arfaethedig gan gynnwys unrhyw waith dros dro, ceblau, tirlunio, lliniaru llifogydd a datblygiadau cysylltiedig a'n hasedau er mwyn i ni asesu a chynghori ymhellach.

Dylai gwybodaeth o'r fath gynnwys cynllun sy'n dangos agosrwydd y datblygiad arfaethedig i'n hasedau a thrawstoriadau sy'n dangos y rhyngwynebau rhwng y bwriad a'n hasedau.

Byddai'n well gan Dŵr Cymru fod y wybodaeth hon yn cael ei chyflwyno a'i chytuno ymlaen llaw cyn penderfynu ar y cais cynllunio. Fodd bynnag, os yw'r ACLl yn bwriadu rhoi caniatâd cynllunio, byddem yn gofyn i'r amod a amlinellir isod gael ei gynnwys mewn unrhyw hysbysiad penderfyniad. Byddwn yn tynnu sylw at y ffaith bod risg yn gysylltiedig â chynnwys amod os na ellir cytuno ar fanylion/mesurau derbyniol i ryddhau'r amod.

Argymhellir hefyd bod y datblygwr yn cysylltu â'n tîm Cynllunio a Diogelu (PlanandProtect@dwrcymru.com) i gynnal arolwg i wirio lleoliad yr asedau a sefydlu eu perthynas â'r datblygiad arfaethedig. Yn unol â hynny, os ydych yn bwriadu rhoi caniatâd cynllunio ar gyfer y datblygiad uchod, byddem yn gwneud cais bod yr **Amodau a'r Nodiadau Ymgynghorol** a ganlyn wedi'u cynnwys yn y caniatâd i sicrhau nad oes dirywiad i drigolion presennol na'r amgylchedd nac i asedau Dŵr Cymru:

PWYLLGOR CYNLLUNIO	DYDDIAD: 28/09/2026
ADRODDIAD Y PENNAETH ADUAN CYNORTHWYOL	

Amodau

Amod 1

Ni chaiff unrhyw ddatblygiad gychwyn nes bod y canlynol wedi'u cyflwyno i'r Awdurdod Cynllunio Lleol a'i fod wedi cytuno arnynt yn ysgrifenedig mewn ymgynghoriad gyda Dŵr Cymru.

1) Bod arolwg lleoliad asedau wedi'i gynnal i ganfod union leoliad, cyflwr, dyfnder a deunydd holl asedau Dŵr Cymru y byddai'r datblygiad arfaethedig yn eu croesi neu wedi'u lleoli o fewn parthau gwarchod yr asedau; a

2) Cynllun safle manwl, wedi'i siapio gan bwynt 1) uchod i ddangos

perthynas y datblygiad arfaethedig gyda'r asedau a'r trawstoriadau sy'n dangos y rhyngwynebau rhwng y datblygiad arfaethedig a phob un o'r asedau dŵr glân a dŵr gwastraff; ac

3) Os oes angen, bydd cynllun i ddargyfeirio'r asedau ac ni fydd unrhyw waith ar y datblygiad arfaethedig yn unol â'r caniatâd hwn yn cael ei wneud hyd nes y bydd gwaith ar unrhyw gynllun dargyfeirio gofynnol o'r asedau wedi'i adeiladu, ei gwblhau a'i ddwyn i ddefnydd gyda'r cynllun cymeradwy. Ar ôl hynny, bydd y datblygiad a gymeradwywyd yn cael ei gadw am byth.

Rheswm: Diogelu cyfanrwydd yr asedau cyhoeddus ac osgoi difrod iddynt ac yn unol â Pholisi PCYFF 2 o Gynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Gwynedd ac Ynys Môn.

Amod 2

Ni chaniateir i unrhyw ddŵr wyneb a/neu ddŵr yn draenio o'r tir gysylltu'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol â'r rhwydwaith carthffosiaeth cyhoeddus.

Rheswm: I atal y system garthffosiaeth gyhoeddus rhag cael ei gorlwytho'n hydrolog, i amddiffyn iechyd a diogelwch trigolion presennol ac i sicrhau nad oes unrhyw lygredd na niwed i'r amgylchedd.

Nodiadau Ymgynghorol

Hysbysir yr ymgeisydd hefyd y gallai bod rhai carthffosydd cyhoeddus a draeniau ochrol sydd heb eu cofnodi ar ein mapiau carthffosydd cyhoeddus gan eu bod yn wreiddiol mewn perchnogaeth breifat ac fe'u trosglwyddwyd i berchnogaeth gyhoeddus yn sgil Rheoliadau y Diwydiant Dŵr (Cynlluniau i Fabwysiadu Carthffosydd Preifat) 2011. Gall presenoldeb asedau o'r fath effeithio ar y bwriad. Er mwyn ein cynorthwyo i ddelio gyda'r bwriad gall yr ymgeisydd gysylltu â Dŵr Cymru. Dan Ddeddf y Diwydiant Dŵr 1991 mae gan Ddŵr Cymru hawliau i gael mynediad i'w gyfarpar bob amser. Ers 7 Ionawr 2019, gallai'r datblygiad arfaethedig fod yn destun Atodlen 3 Deddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010. Felly, mae'r datblygiad angen cymeradwyaeth ar gyfer nodweddion Systemau Draenio Cynaliadwy (SuDS), gan y Corff Cymeradwyo SuDS (SAB) sy'n penderfynu, yn unol â'r 'Safonau statudol ar gyfer systemau

PWYLLGOR CYNLLUNIO	DYDDIAD: 28/09/2026
ADRODDIAD Y PENNAETH ADRAN CYNORTHWYOL	

draenio cynaliadwy - dylunio, adeiladu, gweithredu a chynnal systemau draenio dŵr wyneb'.

Sylwch mai cyfrifoldeb yr ymgeisydd yw sicrhau nad yw unrhyw waith arfaethedig ar y safle datblygu yn gwrthdaro ag unrhyw wasanaethau tanddaearol. Ar gyfer Carthffosydd neu Brif Gyflenwad Dŵr a allai fod yn bresennol a chael eu heffeithio gan eich cynigion, fe'ch cynghorir i gysylltu â Dŵr Cymru a fydd yn gallu esbonio a oes angen unrhyw ganiatâd ar gyfer eich gwaith arfaethedig. Cyn dechrau ar y gwaith, rydym yn argymhell eich bod yn adolygu'r wybodaeth a'r canllawiau ar arolygon lleoliad asedau sydd ar gael ar wefan Dŵr Cymru yn

<https://developers.dwrcymru.com/en/applications/planning/asset-location-and-cctvsurveys>

Nid yw'r cais cynllunio a ganiateir drwy hyn yn cynnwys unrhyw hawliau i wneud unrhyw waith ar y systemau carthffosiaeth cyhoeddus na chyflenwi dŵr heb yn gyntaf sicrhau'r caniatâd gofynnol yn unol â Deddf Diwydiant Dŵr 1991. Bydd unrhyw addasiadau i eiddo presennol sy'n arwain at greu eiddo ychwanegol neu uno eiddo presennol hefyd yn gorfod cael eu hadeiladu fel bod pob un wedi'i gysylltu ar wahân i brif bibell ddŵr y Cwmni ac y gellir mesur eu defnydd ar wahân. Cysylltwch â'n tîm cysylltiadau newydd ar 0800 917 2652 i gael gwybodaeth bellach ar gysylltiadau dŵr a charthffosiaeth.

Asiant
Cefnffyrdd
Gogledd a
Chanolbarth
Cymru
(ACGCC)

Derbyniwyd yr ymateb ar 20/08/2026:

Cyfeirïaf at eich ymgynghoriad dyddiedig 08/01/2026 ynglŷn â'r cais cynllunio uchod a chynghoraf fod Llywodraeth Cymru fel awdurdod priffyrdd ar gyfer cefnffordd yr A487 yn cyfarwyddo y bydd unrhyw ganiatâd a roddir gan eich awdurdod yn cynnwys yr amodau a ganlyn:

1. Cyn dechrau unrhyw waith ar y safle, bydd angen cyflwyno Cynllun Rheoli Traffig Adeiladu (CTMP) i'r Awdurdod Cynllunio Lleol (ACLI) a fydd yn bodloni Llywodraeth Cymru, fel y Sefydliad Goruchwylio ar gyfer y Rhwydwaith Ffyrdd Strategol (SRN).
2. Cyn dechrau unrhyw waith ar y safle, bydd angen cyflwyno Cynllun Rheoli Traffig Adeiladu (CTMP) i'r Awdurdod Cynllunio Lleol (ACLI) a fydd yn bodloni Llywodraeth Cymru, fel y Sefydliad Goruchwylio ar gyfer y Rhwydwaith Ffyrdd Strategol (SRN).
3. Cyn dechrau unrhyw waith ar y safle, bydd angen cyflwyno Cynllun Rheoli Traffig Adeiladu (CTMP) i'r Awdurdod Cynllunio Lleol (ACLI) a fydd yn bodloni Llywodraeth Cymru, fel y Sefydliad Goruchwylio ar gyfer y Rhwydwaith Ffyrdd Strategol (SRN).
4. Cyn dechrau unrhyw waith ar y safle, bydd angen cyflwyno Datganiadau Dull Adeiladu (CMS) ac Asesiadau Risg i'r Awdurdod Cynllunio Lleol (ACLI) a fydd yn bodloni Llywodraeth Cymru, fel y Sefydliad Goruchwylio ar gyfer y

PWYLLGOR CYNLLUNIO	DYDDIAD: 28/09/2026
ADRODDIAD Y PENNAETH ADARAN CYNORTHWYOL	

Rhwydwaith Ffyrdd Strategol (SRN).

5. Cyn dechrau unrhyw waith ar y safle, bydd angen cyflwyno dyluniad ailsefydlu'r ffordd gerbydau a manyleb palmant i'r Awdurdod Cynllunio Lleol (ACLI) a fydd yn bodloni Llywodraeth Cymru, fel Sefydliad Goruchwyllo ar gyfer y Rhwydwaith Ffyrdd Strategol (SRN) mewn perthynas â'r rhannau o gefnffordd yr A487 yr effeithir arnynt.

Mae'r amodau uchod wedi'u cynnwys i gynnal diogelwch a llif rhydd traffig cefnffyrdd. Os oes gennych unrhyw ymholiadau pellach, anfonwch nhw i Flwch Post Llywodraeth Cymru

NorthandMidWalesDevelopmentControlMailbox@gov.wales

Derbyniwyd yr ymateb ar 09/06/2026:

Cyfeiriai at eich ymgynghoriad o 7 Mai 2026 ynghylch y cais uchod, ac yn cynghori bod Llywodraeth Cymru fel awdurdod priffyrdd ar gyfer cefnffordd yr A487 yn cyfarwyddo na roddir caniatâd cynllunio ar hyn o bryd gan nad yw'r ymgeisydd wedi darparu digon o wybodaeth i benderfynu ar y cais.

Rydym wedi adolygu'r dogfennau ychwanegol a ychwanegwyd at y porth cynllunio ers 07/05/26 ac mae'n rhaid i'r ymgeisydd ddarparu'r wybodaeth a ganlyn i gefnogi'r cais hwn neu ailgyflwyno'r cais gyda'r manylion a ganlyn;

1) Er mwyn lleihau amharu ar draffig, lleihau risgiau diogelwch i weithwyr ffyrdd, ac osgoi dirywiad posibl ar y palmant ar y Rhwydwaith Ffyrdd Strategol (SRN), mae'n ofynnol i'r ymgeisydd baratoi a chyflwyno Adroddiad manylach ar gyfer pob Opsiwn (1A, 1B, 2 a 3) i'r Awdurdod Cynllunio Lleol i'w adolygu gan Lywodraeth Cymru, fel y Sefydliad Goruchwyllo ar gyfer yr SRN. Rhaid i'r adroddiad hwn gyflwyno'r holl baramedrau technegol ac ymarferol yn fanwl sy'n pennu'r dyluniad ar gyfer pob Opsiwn, gan gynnwys lluniadau a chymharu'r rhain yn fanylach gan gynnwys amcangyfrifon costau.

2) Rhaid i'r Ymgeisydd ddangos cydymffurfiaeth â'r Llawlyfr Dylunio i Ffyrdd a Phontydd (DMRB) Dyluniad Geodechnegol CD622 Rheoli risg geodechnegol.

Os oes gennych unrhyw ymholiadau pellach, anfonwch nhw i Flwch Post Llywodraeth Cymru

NorthandMidWalesDevelopmentControlMailbox@gov.wales

CADW

Derbyniwyd yr ymateb ar 11/08/2026:

Mesurau lliniaru arfaethedig

PWYLLGOR CYNLLUNIO	DYDDIAD: 28/09/2026
ADRODDIAD Y PENNAETH ADGAN CYNORTHWYOL	

Cyflwynwyd gwybodaeth ychwanegol i gefnogi'r cais hwn. Roedd y wybodaeth hon yn cynnwys crynodeb o ganlyniadau'r trafodaethau a gynhaliwyd rhwng y Grid Cenedlaethol a Cadw mewn perthynas â mesurau i liniaru neu wrthbwysu'r effeithiau ar barc a gardd hanesyddol gradd II* Wern. Yn anffodus, oherwydd yr angen i ymgynghori â thrydydd partion nid yw wedi bod yn bosibl llunio cynllun manwl i liniaru neu wrthbwysu'r effeithiau hyn, ond mae'n amlwg y gellir cyflwyno mesurau addas i'r datblygiad maes o law. Felly, er mwyn peidio ag oedi wrth benderfynu ar y cais hwn, mae Cadw yn cytuno â'r ymgeisydd y gellir mynd i'r afael â mesurau i liniaru neu wrthbwysu'r effaith ar barc a gardd hanesyddol gradd II* Wern drwy amod cynllunio a osodwyd ar y gwaith yn CSEC Wern, yn hytrach nag atal y cynllun rhag mynd yn ei flaen.

Mae Cadw yn cytuno â geiriad yr amod a awgrymwyd gan yr ymgeisydd sef:-

"Ni fydd unrhyw waith yn dechrau ar estyniad Compownd Selio Pennau Ceblau'r Wern a nodir ar Gynllun Safle Arfaethedig Compownd CSE Wern (Cyfeirnod GLAS-ARUP--71-XX-DR-X-9220) hyd nes bod cynllun ar gyfer gwrthbwysu effeithiau andwyol ar Barc a Gardd Gofrestredig Wern wedi'i gyflwyno i'r Awdurdod Cynllunio Lleol a'i gymeradwyo ganddo. Bydd y cynllun yn cynnwys amserlen ar gyfer gweithredu a manylion y mecanwaith i sicrhau cyflawniad."

Felly, nid yw Cadw yn gwrthwynebu penderfyniad cadarnhaol ar y cais presennol yn amodol ar atodi'r amod uchod i unrhyw ganiatâd a roddir.

Derbyniwyd yr ymateb ar 27/01/2026:

Diolch am eich llythyr yn gwahodd ein sylwadau ar y wybodaeth a gyflwynwyd ar gyfer y cais cynllunio uchod. Mae'r ymateb hwn yn seiliedig ar y cyngor a ddarparwyd gan Uwch Swyddog Cynllunio Amgylchedd Hanesyddol Cadw.

Cyngor

Mae gennym bryderon sylweddol am yr effaith ar yr henebion cofrestredig a'r parciau a gerddi hanesyddol cofrestredig. Er hynny, rydym yn ystyried pe byddai mesurau lliniaru yn cael eu cymryd, byddai ein pryderon am yr effaith yn lleihau. Mae'r polisi cenedlaethol a rôl Cadw wrth gynllunio wedi'u nodi yn Atodiad A.

Asesu

Effaith uniongyrchol

Parciau a Gerddi Cofrestredig:

PGW(Gd)19(GWY) Wern

Wedi'i leoli o fewn 3km

PWYLLGOR CYNLLUNIO	DYDDIAD: 28/09/2026
ADRODDIAD Y PENNAETH ADGAN CYNORTHWYOL	

Henebion Cofrestredig:

CN019 Carreg Arysgrifedig Gesail Gyfarch

CN059 Gwersyll Moel y Gest

CN118 Siambwr Gladdu Cist Cerrig a Charreg Cafn-nod

CN174 Baddondy Rhufeinig, Tremadog

CN237 Cytiau Crwn ger Craig y Gesail

CN239 Grŵp Cytiau i'r gorllewin o Gwm Mawr

CN270 Grŵp Cytiau Amgaeedig ym Mharc-y-Borth

CN386 Fach-goch, maen hir i gyfeiriad y de-ddwyrain o

ME096 Anheddiad Ty'n y Berllan

ME184 Anheddiad Cylch Cytiau Amgaeedig i'r gogledd o Goed Gwlyb

Parciau a Gerddi Cofrestredig:

PGW(Gd)18(GWY) Tan-yr-Allt

PGW(Gd)29(GWY) Portmeirion

Safleoedd Treftadaeth y Byd

Tirwedd Llechi Gogledd Orllewin Cymru - Ffestiniog: ei phyllau a chwareli llechi, 'dinas y llechi' a'r rheilffordd i Borthmadog

Mae'r cyngor hwn yn cael ei roi mewn ymateb i gais cynllunio ar gyfer ymestyn Compownd Selio Pennau Ceblau presennol Wern (CSEC) gan gynnwys mynediad parhaol newydd; CSEC a Thŷ Pen Twannel (THH) newydd Minffordd gyda mynediad parhaol; tynnu CSEC presennol Garth; gosod ceblau 400 kV newydd i ddisodli ceblau 400 cilofolt (kV) a 132 kV diangen; a gwaith seilwaith a gwaith ategol cysylltiedig arall. Mae'r cais yn cyd-fynd â datganiad amgylcheddol, gyda phennod 6 yn asesu effaith y datblygiad arfaethedig ar yr amgylchedd hanesyddol. Mae'r bennod hon yn dod i'r casgliad na fydd y datblygiad arfaethedig yn cael effaith sylweddol ar leoliadau'r asedau hanesyddol dynodedig uchod, sydd wedi'u lleoli o fewn 3km o'r gwaith arfaethedig: Fodd bynnag, mae wedi nodi y bydd effaith uniongyrchol sylweddol ar barc a gardd hanesyddol Wern gradd II* a gofrestrwyd yn statudol. Mae adran 6.1.18 o Bolisi Cynllunio Cymru yn nodi "dylai awdurdodau cynllunio werthfawrogi, gwarchod a diogelu diddordeb arbennig parciau a gerddi a'u leoliadau sydd wedi'u cynnwys ar y gofrestr o barciau a gerddi hanesyddol yng Nghymru" tra bod adran 6.1.19 yn esbonio bod "effaith datblygiad arfaethedig ar barc neu ardd gofrestredig, neu ei leoliad, yn ystyriaeth berthnasol wrth wneud penderfyniad ar gais cynllunio". O ystyried y

PWYLLGOR CYNLLUNIO	DYDDIAD: 28/09/2026
ADRODDIAD Y PENNAETH ADRAN CYNORTHWYOL	

canllawiau a ddarperir ym Mholisi Cynllunio Cymru, byddai Cadw felly yn bwriadu gwrthwynebu'r cais presennol, oni bai y gallai'r ymgeisydd gynnwys mesurau i liniaru'r effaith uniongyrchol ar y parc a'r ardd hanesyddol gofrestredig neu ddarparu mesurau i wrthbwysu'r effaith hon. Mae'n annhebygol y gellir cyflwyno mesurau lliniaru i'r datblygiad arfaethedig ac felly dylai'r ymgeisydd ystyried ffyrdd o wella'r parc a'r ardd hanesyddol gofrestredig. Gallai'r rhain gynnwys ariannu atgyweiriadau i adeiladau rhestredig sy'n nodweddion pwysig yn y parc a'r ardd hanesyddol gofrestredig ac sy'n cyfrannu at eu harwyddocâd ond sydd ar "Gofrestr mewn Perygl" Cadw, megis adeiladau rhestredig 4628, Tŷ Haf yn Wern Manor 21569, Pwll Gardd Addurniadol yn Wern Manor. Mae Cadw yn fodlon cyfarfod â'r datblygwr er mwyn trafod mesurau gwrthbwysu priodol y gellid eu cynnwys gyda'r cais hwn.

Network Rail

Derbyniwyd yr ymateb ar 04/08/2026:

Diolch am eich e-bost dyddiedig 17 Gorffennaf 2026 ynghyd â'r cyfle i wneud sylwadau ar y bwriad hwn. Nid oes gan Network Rail unrhyw sylwadau pellach i'w gwneud ar y gwaith arfaethedig. Deallir bod Cytundeb Gwarchod Asedau yn cael ei wneud ar gyfer y gwaith.

Derbyniwyd yr ymateb ar 30/01/2026:

Diolch am eich e-bost dyddiedig 8 Ionawr 2026 ynghyd â'r cyfle i wneud sylwadau ar yr Asesiad Effaith Amgylcheddol (AEA) hwn.

Ar ôl adolygu'r Datganiad Dylunio a Mynediad a'r Cynlluniau Safle Parhaol Arfaethedig, mae Network Rail yn nodi bod y gwaith arfaethedig yn cynnwys croesfan Drilio Cyfeiriadol Llorweddol (HDD) o dan Lein Arfordir y Cambrian weithredol, ynghyd â chompowndiau adeiladu cysylltiedig, baeau ar y cyd, isadeiledd draenio a llwybrau cludo yn agos at dir rheilffordd. O safbwynt AEA, mae Network Rail yn gofyn i'r Datganiad Amgylcheddol wneud asesiad llawn o'r potensial i'r ddaear symud, dirgryniad, anheddiad, newid hydrolegol, a risgiau sy'n gysylltiedig ag adeiladu a allai effeithio ar weithrediad diogel y rheilffordd. Dylai'r HDD o dan y rheilffordd gyd-fynd â dadansoddiad geodechnegol cadarn, asesiad symudiad y ddaear, a system fonitro i ddangos na fydd unrhyw effeithiau andwyol yn digwydd.

Mae Network Rail hefyd yn gofyn i'r DA ystyried effeithiau adeiladu cronrus, gan gynnwys goleuadau, sŵn, newidiadau draenio, a symudiadau peiriannau trwm o fewn Parth Dylanwad y rheilffordd. Rhaid sicrhau mesurau lliniaru priodol, gan gynnwys parthau gwahardd, rheolaethau draenio, monitro, a methodolegau adeiladu cytunedig.

Yn ddarostyngedig i'r uchod, mae Network Rail yn ei gwneud yn ofynnol i'r ymgeisydd ymrwmo i Gytundeb Gwarchod Asedau (ASPRO) cyn dechrau unrhyw waith a allai effeithio ar y rheilffordd weithredol. Rydym yn hyderus y bydd yr uchod yn cael ei ystyried fel rhan o'r broses AEA. Gellir trefnu

PWYLLGOR CYNLLUNIO	DYDDIAD: 28/09/2026
ADRODDIAD Y PENNAETH ADRAN CYNORTHWYOL	

ymgysylltiad pellach â'n tîm Gwarchod Asedau.

Awdurdod
Cynllunio Parc
Cenedlaethol
Eryri

Derbyniwyd yr ymateb ar 27/07/2026:

Diolch am ymgynghori â'r Awdurdod ar y cais uchod. Rwyf wedi edrych ar fanylion y cais ac wedi dod i'r casgliad na fydd y datblygiad yn cael effaith andwyol ar y Parc Cenedlaethol.

Rheilffyrdd
Ffestiniog ac
Eryri

Derbyniwyd yr ymateb ar 02/02/2026:

Mae'r sylwadau hyn ar ran Rheilffordd Ucheldir Cymru Cyfyngedig (WHRL), perchnogion a gweithredwyr rheilffordd Treftadaeth Ucheldir Cymru (WHHR) ym Mhorthmadog. Mae ein rheilffordd yn rhedeg o'n prif orsaf ger prif reilffordd Arfordir y Cambrian/croesfan reilffordd yr A4971 i'n gorsaf ym Mhen y Mount, lle mae cysylltiad ffisegol â Rheilffordd Ucheldir Cymru Ffestiniog (FfWHR) sy'n eiddo ac yn cael ei gweithredu gan Gwmni Rheilffordd Ffestiniog (FRC) ac yn rhedeg o'u gorsaf ger harbwr Porthmadog i Feddgelert ac ymlaen i Gaernarfon.

Rydym yn cysylltu'n uniongyrchol â *National Grid Energy Transmission Limited* (NGET), eu contractwyr a'u hasiantau ar eu cynigion ar gyfer ceblau tanddaearol newydd mewn perthynas â materion sy'n ymwneud â dylunio, adeiladu, lliniaru a digolledu, gan gysylltu hefyd â FRC.

Mae'r ddogfennaeth y mae NGET wedi'i darparu yn y cais hwn a'r ymgynghoriad cyn gwneud cais yn cynnwys cyfoeth o wybodaeth werthfawr, yr ydym yn parhau i geisio ei chymhathu. Mae ein sylwadau ar y cam hwn yn dilyn.

Llwybr y ceblau sy'n cael eu hamnewid:

Yn ein trafodaethau gyda NGET a'u contractwyr maent wedi awgrymu nifer o lwybrau posibl ar gyfer y ceblau tanddaearol newydd yn ardal ein gorsaf ym Mhen y Mount. Rydym o'r farn bod yr opsiwn llwybro arfaethedig ar hyn o bryd yn union i'r gogledd o adeiladau'r orsaf (a ddangosir ar Ddalen 23) yn well na rhai a gynigwyd i ni. Fodd bynnag, mae'r ardal hon o fwy o ddefnyddioldeb na'r ardal i'r de o'r orsaf o ystyried ei lled mwy sydd ar gael a'i mynediad ffordd gyfagos. Yn ogystal â bod yn rhan o ddaliad tir gweithredol ein Cwmni sy'n deillio o i) ein statws fel ymgwymerwr statudol a ii) caniatâd cynllunio hanesyddol, gyda'r holl hawliau datblygu a ganiateir cysylltiedig, mae ganddo hefyd y potensial i ddarparu gwelliannau/ychwanegiadau i'r cyfleusterau gorsaf cyfyngedig ar hyn o bryd a allai wella rôl y rheilffordd ymhellach fel atyniad i dwristiaid. Felly, rydym yn pryderu am yr effeithiau andwyol posibl ar bosibiliadau datblygu tymor hwy.

Dull adeiladu:

Mae NGET a'u contractwyr yn cynnig ffosydd ac ôl-lenwi agored bas er

PWYLLGOR CYNLLUNIO	DYDDIAD: 28/09/2026
ADRODDIAD Y PENNAETH ADUAN CYNORTHWYOL	

gwaethaf bod drilio uniongyrchol llorweddol yn cael ei gynnig ar gyfer rheilffyrdd a ffyrdd yn gyffredinol. Mae'r cysylltiad ffisegol rhwng llinellau WHHR a FfWHR ym Mhen y Mount yn cael ei ddefnyddio o bryd i'w gilydd ar gyfer trosglwyddo locomotifau a cherbydau eraill, ac mae dyheadau i uwchraddio'r trefniadau signalau fel bod modd gweithredu gwasanaethau hysbysebu cyhoeddus rhwng y ddwy reilffordd. Felly, rydym yn ceisio cael darpariaeth llwytho ar gyfer rhyngweithredu'n llawn â'r FfWHR.

Effeithiau yn ystod y gwaith adeiladu:

Mae cynigion presennol NGET yn gofyn am gael gwared ar waith trac dros dro i'r gogledd o orsaf Pen y Mount, sy'n ofynnol er mwyn cynnal gweithrediadau cyhoeddus a amserlennir o ddydd i ddydd, yn ogystal â'r trosglwyddiadau a grybwyllwyd eisoes. Gan fod y gwasanaethau a amserlennir fel arfer yn gweithredu ddiwedd mis Mawrth i ddechrau Tachwedd, ynghyd â sesiynau Siôn Corn arbennig yng nghanol mis Rhagfyr, rydym yn gobeithio bydd y gwaith gosod ceblau tanddaearol yn cael ei wneud yn ei gyfanrwydd rhwng canol mis Rhagfyr a chanol mis Mawrth. Mae'r ffyrdd sy'n rhoi mynediad i gerbydau gwasanaeth i'n cyfleusterau yn Fferm Gelert (oddi ar Heol Fadog) a Phen y Mount (Ffordd Glanrafon) wedi'u cynnwys o fewn ffin Llinell Goch Ardal y Gwaith. Mae hynny ar gyfer Fferm Gelert yn cael ei ddefnyddio bob dydd a hynny ar gyfer Pen y Mount (ein hunig fynedfa addas ar gyfer llwythwyr isel HGV) o bryd i'w gilydd. Byddwn yn gobeithio na fydd y mynedfeydd hyn yn cael eu rhwystro gan waith adeiladu a gweithgarwch cysylltiedig (ac eithrio oddi ar Ffordd Glanrafon yn ystod cyfnod y gwaith gosod).

Datgomisiynu ceblau presennol:

Deallwn fod bwriad i'r dwythellau cebl presennol gael eu gadael yn y fan a'r lle trwy gydol y darnau sy'n rhedeg o dan neu'n gyfagos i'n tir h.y. 132kV ar y naill ochr a'r llall i brif reilffordd Arfordir y Cambrian, 400kV i'r de o'r ffordd osgoi. Byddwn yn ceisio sicrhau na fydd unrhyw risg o gwymp neu aneddle, ac y bydd unrhyw gyfyngiadau ar ddatblygu uwchben lefel y ddaear yn cael eu codi. Nodwn hefyd yr ymddengys bod cynnig i gadw'r pibellau agored sy'n amgáu'r llinellau 132kV dros y cwrs dŵr (Y Cyt) i'r gorllewin o adeilad ein gorsaf, sy'n wahanol i'r dull a ddilynwyd gyda chroesfannau cwrs dŵr mewn mannau eraill. Gobeithiwn y bydd ystyriaeth bellach yn cael ei rhoi i'r posibilrwydd o ddileu hyn.

Archeoleg:

O ystyried hanes yr ardal yr effeithir arni gan y gwaith cloddio, byddwn yn ceisio cymryd camau i sicrhau bod unrhyw weddillion o'r gweithgareddau blaenorol yn yr ardal a ddatgelir yn cael eu hadfer yn ofalus.

PWYLLGOR CYNLLUNIO	DYDDIAD: 28/09/2026
ADRODDIAD Y PENNAETH ADRAN CYNORTHWYOL	

Ymgynghoriad Cyhoeddus

Rhoddwyd hysbysiad yn y wasg; rhoddwyd hysbysiadau mewn sawl lleoliad yn agos at y safle gan roi gwybod i'r trigolion cyfagos.

Derbyniwyd sylwadau gan y cyhoedd yn gwrthwynebu ar y seiliau isod;

Gwrthwynebiad ar sail cynllunio;

- Gwrthwynebu os byddai'r gwaith datblygu/adeiladu yn arwain at gau mynediad i gerbydau i fusnesau.

- Nid yw Cynllun Traffig Adeiladu Glaslyn yn cynnwys adran CSEC yr A497–Wern, ac felly nid yw llif traffig a mathau o gerbydau wedi'u diffinio. Gofynnwn am amod sy'n gofyn am ddata traffig manwl ar gyfer yr adran hon, er mwyn galluogi asesiad o effeithiau ar leoliad yr adeilad rhestredig a'r busnes cysylltiedig, ac i ganiatáu mesurau lliniaru priodol.

- Effeithiau sŵn ac aflonyddwch: Risg o sŵn adeiladu sylweddol (gan gynnwys gwaith posib am 24 awr) sy'n effeithio ar fwynderau preswyl a gweithrediad busnes lletygarwch gerllaw.

- Effaith economaidd ar fusnes sefydledig: Effeithiau andwyol tebygol ar hyfywedd busnes twristiaeth wledig, yn enwedig yn ystod y tymor prysuraf (Mawrth-Medi).

- Effeithiau amgylcheddol (llwch, goleuadau, dirgryniad): Asesiad annigonol o effeithiau ychwanegol ar ddefnyddiau tir cyfagos.

- Pryder ynghylch aliniad y trac o'r A498 i'r CSEC a'r aflonyddwch a'r sŵn sy'n deillio ohono.

- Effaith ar leoliad adeiladau rhestredig: Niwed i leoliad a thawelwch adeilad rhestredig Gradd II*, yn groes i bolisiau diogelu treftadaeth.

- Diffyg gwybodaeth: Mae'r cais yn methu â darparu manylion hanfodol ar sŵn, dirgryniad, traffig, amseru, cyfnod a mesurau lliniaru, gan atal asesiad priodol gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol.

- Aflonyddwch yn deillio o waith yn CSEC Wern.

Nid yw'r gwrthwynebiad yn seiliedig ar sail gynllunio;

- Cost cynnal trac preifat a ddefnyddir gan contractwyr y Grid Cenedlaethol.

- Cerbydau Grid Cenedlaethol neu contractwyr yn parcio ar dir preifat.

PWYLLGOR CYNLLUNIO	DYDDIAD: 28/09/2026
ADRODDIAD Y PENNAETH ADРАН CYNORTHWYOL	

5. Asesiad o'r ystyriaethau cynllunio perthnasol

Egwyddor y datblygiad

- 5.1 Byddai'r datblygiad arfaethedig yn cynnwys disodli, rhesymoli a moderneiddio system gebl bresennol Glaslyn a'r seilwaith trawsyrru trydan cysylltiedig o fewn rhwydwaith trawsyrru'r Grid Cenedlaethol yng ngogledd-orllewin Cymru. Mae'r cais yn cael ei gyflwyno gan National Grid Electricity Transmission (NGET) ac mae'n cynnig datblygiad sy'n cynnwys uwch-raddio ac ymestyn CSEC Wern i ddarparu ar gyfer ceblau newydd a seilwaith cysylltiedig, gan gynnwys ffordd fynediad barhaol newydd o'r A498; gosod oddeutu 6 km o geblau Glaslyn newydd drwy gloddio ffosydd a Drilio Cyfeiriadol Llorweddol (HDD), gyda rhai darnau cebl diangen yn cael eu cadw yn eu lle os yw cyfyngiadau amgylcheddol yn atal eu symud; digomisiynu, symud ac adfer CSEC Garth; ac adeiladu CSEC Minffordd newydd ger y Tŷ Pen Twnnel presennol (THH) i hwyluso cysylltiadau cebl, ynghyd â mân ddiwygiadau i'r dyluniad THH sydd wedi'i gymeradwyo. Mae'r cynigion hefyd yn cynnwys trefniadau mynediad adeiladu dros dro a mynediad gweithredol parhaol i CSEC Wern a THH/CSEC Minffordd.
- 5.2 Byddai'r ceblau newydd arfaethedig yn defnyddio technoleg XLPE fodern, gan ddileu'r angen am systemau cebl sydd wedi'u llenwi ag olew, a seilwaith cysylltiedig. Byddai hyn yn lleihau'r risgiau amgylcheddol sy'n gysylltiedig â'r system bresennol tra'n darparu datrysiad rhwydwaith mwy cynaliadwy a gwydn. Mae'r cynigion wedi'u cysylltu'n agos â'r Prosiect Darpariaeth Effaith Weledol (VIP) ehangach ym Minffordd, sy'n golygu bod modd cysylltu'r ceblau newydd yn uniongyrchol â'r THH a hwyluso'r gwaith o gael gwared ar CSEC Garth sydd bellach yn segur. Byddai'r dull hwn yn lleihau maint cyffredinol y seilwaith uwchben y ddaear ac yn darparu cyfleoedd ar gyfer adfer y dirwedd a gwella amgylcheddol trwy adfer hen gompownd y Garth.
- 5.3 Cymru'r Dyfodol: Cynllun Cenedlaethol 2040 (Future Wales) yw'r Fframwaith Datblygu Cenedlaethol ar gyfer Cymru. Mae Pennod 2 yn tynnu sylw at yr angen i leihau allyriadau nwyon tŷ gwydr trwy gefnogi'r economi carbon isel, gan gynnwys datblygu ynni adnewyddadwy, yn arbennig ynni gwynt, a darparu'r seilwaith grid strategol sydd ei angen i hwyluso'r twf hwn.
- 5.4 Mae Polisi 17: Ynni Adnewyddadwy a Charbon Isel a Seilwaith Cysylltiedig yn cefnogi'r egwyddor o ddatblygu ynni adnewyddadwy a charbon isel ar raddfa ddigonol i ddiwallu angenion ynni y dyfodol. Mae'r polisi'n cydnabod bod seilwaith grid newydd yn hanfodol i gyflawni'r twf hwn, cyn belled â'i fod wedi'i gynllunio i leihau effeithiau gweledol ar gymunedau cyfagos, ac yn cadarnhau ymrwymiad Llywodraeth Cymru i weithio gyda rhan-ddeiliaid, gan gynnwys y Grid Cenedlaethol, i leihau rhwystrau i weithredu.
- 5.5 Mae Polisi 24: Gogledd Orllewin Cymru ac Ynni yn nodi bod gogledd-orllewin Cymru yn lleoliad allweddol ar gyfer datblygu a buddsoddi mewn ynni ac yn cefnogi, mewn egwyddor, datblygiadau sy'n gysylltiedig â mentrau ynni mawr, gan gynnwys Trawsfynydd a phrosiectau ynni adnewyddadwy ar y môr. Mae'r polisi'n pwysleisio rôl datblygiadau ynni ar gyfer cyflawni manteision economaidd, cefnogi cymunedau lleol a rhanbarthol, a hwyluso cynhyrchu ynni adnewyddadwy a charbon isel, gan gadarnhau y bydd seilwaith ar y tir sy'n gysylltiedig â phrosiectau ynni adnewyddadwy ar y môr yn cael ei gefnogi mewn egwyddor.

PWYLLGOR CYNLLUNIO	DYDDIAD: 28/09/2026
ADRODDIAD Y PENNAETH ADRAN CYNORTHWYOL	

- 5.6 Mae Pennod 5 o PCC, Lleuedd Cynhyrchol a Mentrus, yn mynd i'r afael â'r agweddau economaidd ar greu lleuedd. Mae paragraff 5.7.2 yn cydnabod y bydd angen buddsoddiad sylweddol mewn seilwaith cynhyrchu, trosglwyddo a dosbarthu ynni i ateb y galw yn y dyfodol. Mae paragraff 5.7.7 yn cydnabod ymhellach, er mwyn cyflawni ymrwymïadau i fynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd, y dylai'r system gynllunio *"integreiddio datblygiad â darparu seilwaith rhwydwaith grid trydan ychwanegol"*.
- 5.7 Mae paragraff 5.7.8 yn hyrwyddo dull integredig o gynllunio ar gyfer datblygiadau ynni a seilwaith rhwydwaith grid trydan i gefnogi uchelgeisiau ynni adnewyddadwy a charbon isel Llywodraeth Cymru, gan gydnabod y bydd angen seilwaith grid ychwanegol i gefnogi capasiti cynhyrchu newydd. Mae safbwynt Llywodraeth Cymru ar linellau pŵer newydd wedi'i nodi ym mharagraff 5.7.9, sy'n mynegi ei bod yn well gan y Llywodraeth iddynt gael eu gosod dan ddaear lle bo hynny'n bosibl, tra'n cydnabod y gellid bod angen cymryd safbwynt cytbwys at ystyriaethau cost a hyfywedd. Pan fydd llinellau uwchben yn angenrheidiol, anogir ymgysylltu'n gynnar â chwmnïau ynni a chymunedau lleol i liniaru'r effeithiau gweledol.
- 5.8 Mae paragraff 5.9.10 yn nodi y dylai awdurdodau cynllunio gynllunio'n gadarnhaol ar gyfer seilwaith grid, gan gefnogi datblygiadau priodol a hwyluso darparu'r seilwaith grid sydd ei angen i alluogi ynni adnewyddadwy a charbon isel, waeth beth fo'r ffiniau gweinyddol.
- 5.9 Byddai'r cynllun yn diogelu gweithrediad hirdymor seilwaith trawsyrru trydan hanfodol, yn cefnogi amcanion datgarboneiddio ac ynni ehangach, ac yn darparu manteision amgylcheddol trwy gael gwared ar seilwaith diangen ac adfer tir yr effeithiwyd arno. Gyda'r ystyriaethau hyn mewn golwg, mae'r Awdurdod Cynllunio Lleol o'r farn fod y datblygiad arfaethedig yn dderbyniol mewn egwyddor ac yn cyd-fynd â darpariaethau perthnasol Cymru'r Dyfodol, Polisi Cynllunio Cymru a'r Cynllun Datblygu Lleol a fabwysiadwyd.
- 5.10 Er bod yr egwyddor o ddatblygu yn cael ei hystyried mewn perthynas â'r cynnig yn ei gyfarwydd, mae'r cais yn cynnwys nifer o elfennau unigol. Er eglurder, caiff yr ystyriaethau cynllunio sy'n gysylltiedig â phob cydran eu hasesu ar wahân isod.

Wern – CSEC

Disgrifiad o'r gwaith

- 5.11 Mae'r cynigion yn cynnwys uwchraddio ac ymestyn y compownd Cable Sealing End (CSEC) presennol yn Wern i ddarparu ar gyfer 12 cebl newydd wedi'u trefnu fel dwy gylched drydanol. Byddai'r gwaith yn cynnwys gosod offer trydanol foltedd uchel newydd, sylfeini, strwythurau cynnal, pennau selio ceblau, *surge arrestors*, switshis daear, seilwaith draenio, trefniadau mynediad a llain galed. Byddai angen tynnu rhywfaint o goed i hwyluso'r estyniad.
- 5.12 Byddai'r compownd presennol yn cael ei ymestyn i gynnwys y seilwaith trydanol arfaethedig, gan olygu y byddai cyfanswm arwynebedd y safle yn tua 2,548m². Byddai'r gantri presennol, sy'n mesur 21.1 m o uchder, yn cael ei gadw. Byddai'r offer newydd arfaethedig, gan gynnwys strwythurau pen selio ceblau a chyfarpar foltedd uchel cysylltiedig, yn mesur rhwng tua 6.7m a 9m o uchder ac yn cael eu gosod oddi mewn i gompownd gyda wyneb o gerrig wedi

PWYLLGOR CYNLLUNIO	DYDDIAD: 28/09/2026
ADRODDIAD Y PENNAETH ADUAN CYNORTHWYOL	

malu. Byddai ffens ddiogelwch 2.4m o uchder o amgylch y compownd estynedig, gyda mynediad yn cael ei ddarparu trwy gatiâu ar yr ochr orllewinol sy'n cysylltu â ffordd fynediad newydd. Byddai'r ffordd fynediad oddeutu 1.26km o hyd a 5m o led, gan gysylltu'r safle â'r A498. Byddai'n cysylltu â'r compownd trwy fynedfa 6m o led (gyda gatiâu) ac yn ymgorffori ardal troi cerbydau i'r gorllewin o'r CSEC. Byddai pedair giât wedi'u lleoli ar hyd y llwybr, a fyddai hefyd yn cadw'r fynedfa i gaeau amaethyddol i'r gogledd o Nant yr Afon-oer. Bydd seilwaith draenio cysylltiedig, gan gynnwys ffos ffitro, strwythurau croesi ffos a siambrau arolygu, yn cael eu gosod ochr yn ochr â'r ffordd fynediad.

5.13 Mae dau ddarlun technegol wedi'u cyflwyno sy'n dangos y ffurf arfaethedig ar gyfer CSEC Wern;

- Cynllun Safle Arfaethedig 'GLAS-ARUP-71-XX-DR-X-9220'
- Adrannau a Drychiadau 'GLAS-ARUP-71-XX-DR-X-9221'

Mwynderau gweledol a'r effaith ar y dirwedd

5.14 Byddai'r datblygiad yn cynnwys ymestyn y CSEC presennol a gosod seilwaith trydanol cysylltiedig, gan arwain at ddyblu ôl-troed cyffredinol y compownd, fwy neu lai.

5.15 Mae Pennod 4 o Gyfrol 4 y Datganiad Amgylcheddol yn ymdrin â materion tirwedd a mwyn-derau gweledol, a daeth i'r casgliadau canlynol ar effaith CSEC Wern ar gymeriad y dirwedd.

5.16 Daw'r LVIA i'r casgliad y byddai'r effeithiau tirwedd sy'n gysylltiedig ag estyniad CSEC Wern yn gyfyngedig ac yn lleol. Yn ystod y gwaith adeiladu, byddai'r gwaith yn arwain at newid bach mewn defnydd tir a tharfus dros dro yn deillio o weithgareddau adeiladu, offer, peiriannau a storio deunyddiau. Fodd bynnag, byddai'r effeithiau yn cael eu cynnwys i raddau helaeth gan y tirffurf, y gwrychoedd a'r coetir presennol, heb golli nodweddion tirwedd gwerthfawr. O ganlyniad, byddai'r effaith ar gymeriad Ardal Gymeriad Tirwedd (LCA) 09 Porthmadog yn fân andwyol ac nid yn sylweddol.

5.17 Pan fyddai'n gweithredu, byddai'r CSEC estynedig yn cynyddu presenoldeb seilwaith traws-yrdd trydan yn y dirwedd leol rhyw fymryn. Oherwydd graddfa gyfyngedig yr estyniad, ei gysylltiad â'r seilwaith presennol a'i ddylanwad daearyddol cyfyngedig, byddai'r effeithiau andwyol ar gymeriad LCA 09 Porthmadog yn ddibwys ac nid yn sylweddol. Yn y tymor hwy, byddai gwaith plannu coed, llwyni, gwrychoedd a glaswelltir arfaethedig yn sefydlu ac yn helpu i integreiddio'r datblygiad i'r dirwedd gyfagos, a byddai'r effeithiau andwyol gweddilliol yn dal i fod yn ddibwys ac nid yn sylweddol.

5.18 Mewn perthynas â lleoliad Parc Cenedlaethol Eryri, mae'r LVIA yn nodi effeithiau cyfyngedig ar yr Ardaloedd Gymeriad Arbennig (SCAs) perthnasol. Yn ystod y gwaith adeiladu, byddai gweithgarwch dros dro yn CSEC Wern yn arwain at effaith andwyol fach ac ansylweddol ar gymeriad SCA 20 Porthmadog ac Aber Afon Glaslyn, tra byddai'r effeithiau andwyol ar SCA 19 Cricieth i Fochras ac LCA 04 Ucheldiroedd Moel Hebog yn ddibwys ac nid yn sylweddol. Ni adnabyddir unrhyw effeithiau sylweddol ar gyfer SCA 21 Aber Afon Dwyryd a Morfa Harlech. Pan fyddai'n gweithredu, byddai'r effeithiau ar gymeriad tirwedd a lleol-

PWYLLGOR CYNLLUNIO	DYDDIAD: 28/09/2026
ADRODDIAD Y PENNAETH ADGAN CYNORTHWYOL	

iad Parc Cenedlaethol Eryri yn parhau i fod yn andwyol ddibwys neu'n niwtral ac nid yn sylweddol, gyda phlannu lliniarol yn lleihau gwelededd a dylanwad y datblygiad ymhellach dros amser.

- 5.19 Daw'r LVIA i'r casgliad y byddai'r effeithiau gweledol sy'n gysylltiedig â CSEC Wern yn gyfyngedig, ac i raddau helaeth i'w gweld dim ond yn ystod y cyfnod adeiladu. Byddai'r rhan fwyaf o dderbynyddion yn profi effeithiau niwtral, gyda dim ond defnyddwyr hawliau tramwy cyhoeddus cyfagos a golygfeydd hamdden cyfagos yn profi mân effeithiau andwyol, ond nid sylweddol. Byddai derbynyddion preswyl cyfagos yn cael eu sgrinio i raddau helaeth gan lystyfiant presennol, gan brofi effeithiau andwyol dibwys. Unwaith y byddai'n weithredol, byddai'r CSEC estynedig yn cael ei weld yng nghyd-destun seilwaith trydan presennol a byddai'n cael effeithiau niwtral ar fwynderau gweledol.
- 5.20 O ran y trefniadau mynediad gweithredol parhaol, y prif newid fyddai adeiladu'r ffordd fynediad newydd i CSEC Wern. Gan y byddai hon yn gwasanaethu seilwaith trawsyrru trydan presennol ac yn cael ei lleoli o fewn tirwedd sydd eisoes wedi'i dylanwadu gan ddatblygiad o'r fath, mae'r LVIA yn datgan y byddai'r effeithiau gweithredol yn gyfyngedig. Mae'r asesiad yn nodi y byddai plannu lliniarol yn sefydlu dros amser, gyda "phatrymau nodweddol y dirwedd leol yn dychwelyd i'r amodau gwaelodlin" a thirlunio yn cyfrannu at y "nodweddion tirwedd allweddol wedi'u hadfer". O ganlyniad, ystyrir bod effeithiau gweithredol ar gymeriad y dirwedd a mwynderau gweledol yn andwyol ddibwys neu'n niwtral ac nid yn sylweddol.
- 5.21 Mae CNC wedi adolygu'r datblygiad arfaethedig ac nid ydynt yn codi unrhyw wrthwynebiad i effeithiau gweledol na'r effeithiau ar y dirwedd sy'n gysylltiedig â CSEC Wern. Mae eu sylwadau'n canolbwyntio ar sicrhau bod gwaith lliniaru tirwedd, mesurau diogelu coed, manylebau plannu a manylion lliwiau a gorffeniadau ar gyfer y seilwaith parhaol yn cael eu sicrhau trwy Gynllun Rheoli Tirwedd ac Ecolegol (LEMP) ac amodau cynllunio digon manwl. Mae CNC hefyd yn argymhell defnyddio lliwiau tawel ac enciliol ar gyfer y seilwaith parhaol ac yn argymhell defnyddio cyn lleied o olau â phosib, gan ddylunio'r goleuo yn unol â chanllawiau awyr dywyll Llywodraeth Cymru.
- 5.22 Mae polisi PCYFF2 yn ei gwneud yn ofynnol nad yw cynigion datblygu yn arwain at effaith andwyol annerbyniol ar iechyd, diogelwch, neu fwynderau y bobl sy'n byw mewn eiddo preswyl cyfagos, defnyddiau tir neu eiddo eraill, neu gymeriad cyffredinol yr ardal. Mae Polisi PCYFF3 y Cynllun Datblygu Lleol yn ei gwneud yn ofynnol i bob bwriad ddangos dyluniad o ansawdd uchel sy'n ymateb yn llawn i'r amgylchedd naturiol, hanesyddol ac adeiledig, gan gyfrannu at greu lleoedd deniadol a chynaliadwy. Yn ogystal, mae Polisi PCYFF4 yn ceisio sicrhau bod datblygiadau'n integreiddio'n briodol i'w hamgylchedd ac yn dangos bod tirlunio wedi'i ystyried o'r cychwyn cyntaf.
- 5.23 Mae'r datblygiad arfaethedig wedi'i leoli ger seilwaith trawsyrru trydan presennol, gan felly lleihau'r effeithiau tirwedd a gweledol trwy grynhoi datblygiad o fewn coridor cyfleustodau sydd eisoes wedi sefydlu, ac mae'n osgoi cyflwyno ffurf adeiledig ynysig yn yr ardal wledig ehangach. Rhoddir cryn bwysau hefyd ar yr angen amlwg am y datblygiad, a fyddai'n gymorth i seilwaith ynni o bwys cenedlaethol barhau i weithredu, gan gyd-fynd ag amcanion polisi cenedlaethol a lleol sy'n ymwneud â diogelwch ynni a datgarboneiddio.

PWYLLGOR CYNLLUNIO	DYDDIAD: 28/09/2026
ADRODDIAD Y PENNAETH ADRAN CYNORTHWYOL	

- 5.24 Yn y cyd-destun hwn, ni fyddai'r datblygiad yn newid yr amodau gwaelodlin gweledol presennol yn sylweddol a chaiff yr effeithiau andwyol cyfyngedig a nodwyd eu gorbwyso gan fanteision gweithredol ac amgylcheddol ehangach y cynllun.
- 5.25 Ar ôl ystyried y wybodaeth a gyflwynwyd a chan gynnwys yr amodau priodol, mae'r Awdurdod Cynllunio Lleol yn fodlon bod y cynnig yn cydymffurfio â Pholisiau PCYFF 2, PCYFF 3 a PCYFF 4 y Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd.

Sŵn a dirgryniad

- 5.26 Mae'r asesiad o effeithiau sŵn a dirgryniad wedi'i gynnwys ym Mhennod 11 y Datganiad Amgylcheddol ac mae'n ystyried sŵn adeiladu, dirgryniad a sŵn traffig adeiladu sy'n effeithio ar dderbynyddion sensitif cyfagos. Cafodd effeithiau sŵn gweithredol eu sgopio allan o'r asesiad gan na fyddai ffynonellau sŵn gweithredol o bwys yn cael eu cyflwyno.
- 5.27 Byddai effeithiau dros dro yn codi yn ystod gwaith rhagarweiniol, wrth adeiladu'r ffordd fynediad barhaol, a sefydlu compownds a gwaith daear sy'n gysylltiedig ag estyniad CSEC Wern. Er gall rhai derbynyddion brofi lefelau sŵn uwch yn ystod y gwaith adeiladu, byddai'r effeithiau'n rhai dros dro ac yn gyfyngedig i'r cyfnod adeiladu. Yn dilyn camau lliniaru, mae'r Datganiad Amgylcheddol yn rhagweld na fydd yr effeithiau gweddilliol yn sylweddol.
- 5.28 Cefnogir gwaith galluogi Wern gan gyflwyno CEMP a CTMP Gwaith Galluogi manwl, sy'n darparu llawer mwy o wybodaeth nag sydd ar gael ar hyn o bryd ar gyfer y pecynnau gwaith diweddarach. Mae'r CEMP Gwaith Galluogi yn cynnwys darpariaethau sy'n ymwneud ag oriau gwaith, atal llygredd, rheoli traffig adeiladu, rheoli sŵn a dirgryniad, ymgysylltu â rhanddeiliaid, monitro amgylcheddol a gweithdrefnau ymateb i argyfwng. Mae hefyd yn ymrwymo i ddefnyddio'r Dull Ymarferol Gorau, dewis offer tawelach, cysylltu â'r gymuned, monitro a chatau cywiro lle bo angen.
- 5.29 Nid yw'r Datganiad Amgylcheddol Sŵn a Dirgryniad yn nodi'n arbennig unrhyw effeithiau dirgryniad Niweidiol Mawr penodol y gellir eu priodoli'n uniongyrchol i CSEC Wern neu'r gwaith galluogi. Mae'r effeithiau sŵn mwyaf arwyddocaol a nodwyd o dan NGA1 yn ymwneud â sefydlu compownd i'r gorllewin o WCHHR a gwaith ffordd gludo i'r gogledd o Faes Gerddi yn ardal Porthmadog.
- 5.30 Fodd bynnag, mae gan Wasanaeth Gwarchod y Cyhoedd dal bryderon am y diffyg gwybodaeth fanwl ynghylch rheoli adeiladu. Yn benodol, mae'n ystyried nad oes digon o wybodaeth wedi'i darparu ynglŷn ag:
- amseriad y gwaith mwyaf swnllyd;
 - hyd y gwaith hynny;
 - union leoliad gweithgareddau sy'n cynhyrchu sŵn;
 - y modd y bydd BPM yn cael ei weithredu; a
 - rheoli unrhyw oriau gwaith estynedig.
- 5.31 Mae Gwasanaeth Gwarchod y Cyhoedd wedi darparu sylwadau ar y cais ac yn nodi y cafodd cais gwreiddiol yr ymgeisydd am Gydsyniad Blaenorol Adran 61 ei wrthod oherwydd gwybodaeth annigonol. Mae Cydsyniad Blaenorol Adran 61 yn gytundeb ffurfiol o dan Ddeddf Rheoli Llygredd 1974 rhwng y contractwr a'r awdurdod lleol sy'n sefydlu ymlaen llaw sut y

PWYLLGOR CYNLLUNIO	DYDDIAD: 28/09/2026
ADRODDIAD Y PENNAETH ADRAN CYNORTHWYOL	

bydd sŵn a dirgryniad o waith adeiladu yn cael eu rheoli, gan gynnwys dulliau gwaith, oriau gwaith, trefniadau monitro a mesurau lliniaru i ddangos y bydd y Dull Ymarferol Gorau (BPM) yn cael ei ddefnyddio i leihau'r effeithiau ar dderbynyddion cyfagos. Yn yr achos hwn, mae'r ymgeisydd yn dibynnu ar broses Adran 61 fel rhan o'i strategaeth lliniaru, fodd bynnag, gwrthodwyd cais cychwynnol Adran 61 gan Wasanaeth Gwarchod y Cyhoedd oherwydd nad oedd digon o wybodaeth.

- 5.32 Er gwaethaf y pryderon hynny, mae'r CEMP Gwaith Galluogi bellach wedi darparu fframwaith rhesymol cadarn ar gyfer rheolaeth amgylcheddol a byddai'n cael ei sicrhau trwy amodau cynllunio a fyddai'n mynnu bod rhaid cydymffurfio â'r ddogfen gymeradwy. O ystyried graddfa a natur y gwaith galluogi ac o gofio bod CEMP a CTMP manwl eisoes ar gael ar gyfer y cam hwn, ystyrir bod y materion sy'n weddill yn ymwneud fwyaf â phrosesau gweithredu a chymeradwyo yn y dyfodol yn hytrach na derbynioldeb y gwaith eu hunain. Yn amodol ar gydymffurfio â'r CEMP, CTMP ac unrhyw gytundeb Adran 61 a gymeradwyir yn y dyfodol, ystyrir y gellir rheoli'r effeithiau sy'n gysylltiedig â'r cam hwn yn ddigonol.
- 5.33 Felly gyda'r amodau priodol, mae'r ACLl o'r farn bod y datblygiad yn cydymffurfio â PCYFF 2 y CDLIC.

Ansawdd Aer a llwch

- 5.34 Cyflwynir yr asesiad o ansawdd aer ac allyriadau ym Mhennod 10 y Datganiad Amgylcheddol (ES). Cafodd effeithiau gweithredol eu sgopio allan gan y byddai'r seilwaith gorffenedig ond yn cynhyrchu traffig cynnal a chadw achlysurol ac ni fyddai'n arwain at allyriadau sylweddol.
- 5.35 Byddai adeiladu estyniad CSEC Wern a'r ffordd fynediad barhaol gysylltiedig yn cynnwys clirio llystyfiant, stripio uwchbridd, gwaith daear, cloddio, trin a symud deunyddiau, traffig adeiladu a gweithredu offer/peiriannau. Mae gan y gweithgareddau hyn y potensial i gynhyrchu allyriadau llwch a mater gronynnol yn yr aer. Daw'r asesiad i'r casgliad, os rhoddir camau lliniaru ar waith, y byddai'r effeithiau gweddilliol ar iechyd pobl, mwynderau a derbynyddion ecolegol yn ddibwys ac nid yn sylweddol.
- 5.36 Mae CEMP a CTMP Gwaith Galluogi safle-benodol wedi'u cyflwyno ar gyfer y gwaith hwn. Mae'r dogfennau yn darparu gweithdrefnau rheoli adeiladu manwl a rheolaethau amgylcheddol, gan gynnwys y llwybr traffig, monitro, atal llygredd a mesurau atal llwch.
- 5.37 Mae'r mesurau lliniaru allweddol yn cynnwys:
- Gweithredu Cynllun Rheoli Llŵch.
 - Gweithdrefnau ar gyfer monitro llwch, cynnal arolygon ac ymdrin â chwynion.
 - Defnyddio dŵr i atal llwch ar ffyrdd cludo, priddoedd agored a gweithgareddau sy'n creu llwch.
 - Hydrohadu, gorchuddio a sefydlogi pentyrrau stoc.
 - Cyfleusterau golchi olwynion, ysgubo ffyrdd a rheolaethau trac.
 - Rheolaethau llwybro'r traffig adeiladu a phecynnau gwybodaeth i yrwyr.
 - Offer allyriadau isel, cyfyngiadau ar offer/injans yn rhedeg yn segur, a defnyddio tanwydd amgen lle bo'n ymarferol.

PWYLLGOR CYNLLUNIO	DYDDIAD: 28/09/2026
ADRODDIAD Y PENNAETH ADRAN CYNORTHWYOL	

- Terfynau cyflymder ar ffyrdd cludo a llwybrau adeiladu.

5.38 Daw'r asesiad i'r casgliad y byddai'r effeithiau gweddilliol yn ddibwys ac nid yn sylweddol.

5.39 Felly gyda'r amodau priodol, mae'r datblygiad yn cydymffurfio â PCYFF 2 y CDLIC.

Materion ecolegol a bioamrywiaeth

5.40 Mae'r effeithiau ecolegol sy'n gysylltiedig â CSEC Wern a'r ffordd fynediad barhaol yn cael eu hasesu'n bennaf ym Mhennod 5 y Datganiad Amgylcheddol. Mae ardal y Wern yn cynnwys rhai o'r derbynyddion ecolegol daearol mwyaf sensitif yng nghoridor y prosiect, gan gynnwys Coed Bryn-tŵr/Wern, ardaloedd o goetir hynafol, Cynefin o Bwysigrwydd Pennaf (HoPI) Cors Pori Arfordirol a Gorlifdir (CFGM), glaswelltir corsiog, gwrychoedd, hen goed, clwyd ddydd yr ystlum *soprano pipistrelle* mewn ysgubor adfeiliedig, a nifer o setiau moch daear actif.

5.41 Mae'r prif effeithiau yn deillio o ymestyn CSEC Wern ac adeiladu'r ffordd gludo barhaol. Mae'r Datganiad Amgylcheddol yn nodi'r golled barhaol o thua 1.58ha o gynefin CFGM, tua 0.21ha o goetir cymysg wedi'i blannu, colledion o laswelltir corsiog a gwrychoedd, ac effeithiau posibl ar ystlumod, moch daear, adar bridio ac ymlusgiaid. Caiff yr effeithiau hyn eu hasesu ym Mhennod 5, Adran 5.9 y Datganiad Amgylcheddol.

5.42 Daw'r ES i'r casgliad y gellir lliniaru effeithiau ar gynefinoedd, ystlumod, ymlusgiaid ac adar trwy gadw cynefinoedd, byfferau ecolegol, gwaith adfer, mesurau diogelu rhywogaethau a chynigion gwella bioamrywiaeth. Er bod effeithiau moch daear yn cael eu hasesu i gychwyn fel effaith sylweddol sy'n gofyn am liniaru ychwanegol, caiff yr effaith weddilliol ar ôl trwyddedu a lliniaru ei asesu fel mân effaith andwyol ac nid yn sylweddol.

5.43 Nid yw ymateb diweddaraf CNC yn gwrthwynebu'r effeithiau ecolegol sy'n gysylltiedig â'r Wern ond mae'n gofyn am sicrhau'r mesurau hyn trwy amodau cynllunio a'r CEMP manwl. Rhoddir pwyslais arbennig ar oruchwyliaeth ecolegol, lliniaru ystlumod, trwyddedu moch daear, rheoli cynefinoedd, rheoli rhywogaethau ymledol a chynlluniau rheoli manwl ar gyfer cynefinoedd a gedwir a chynefinoedd yn lle hen rai.

5.44 Mae Uned Bioamrywiaeth yr Awdurdod Lleol wedi adolygu'r cais ac yn derbyn bod colledion cynefinoedd sy'n gysylltiedig ag estyniad Wern yn gymharol gyfyngedig o'i gymharu â rhanau eraill o'r cynllun ond mae'n ystyried nad oes digon o fanylder yn y mesurau lliniaru ac nad ydynt yn mynd i'r afael yn ddigonol ag effeithiau ecolegol hirdymor. Y prif bryder yw colli coed, cynefin ar ymyl coetir a gwrychoedd a allai weithredu fel llwybrau cymudo ar gyfer Ystlumod Pedol Lleiaf. Mae eu sylwadau hefyd yn nodi nad yw plannu newydd ar ei ben ei hun yn ddigon a bod yn rhaid i'r ymgeisydd ddangos sut y bydd cysylltedd tirwedd ar gyfer ystlumod yn cael ei gynnal yn ystod y gwaith adeiladu a'r cyfnod gweithredu. Gofynnir am fapio ychwanegol o ran clwydfannau ystlumod, llinellau hedfan, llwybrau cymudo ac ardaloedd o dynnu coed.

5.45 Mae'r Uned Bioamrywiaeth hefyd yn tynnu sylw at yr angen am liniaru penodol ar gyfer llygod dŵr. Er nad oes unrhyw boblogaethau llygod dŵr wedi'u cadarnhau ar hyn o bryd o fewn yr ôl-troed uniongyrchol, mae tystiolaeth yn bodoli yn agos i Wern ac mae CNC wedi

PWYLLGOR CYNLLUNIO	DYDDIAD: 28/09/2026
ADRODDIAD Y PENNAETH ADGAN CYNORTHWYOL	

cynghori y dylid cynnal ac adfer cynefinoedd fel y gall llygod dŵr eu meddiannu eto yn y dyfodol. Felly, argymhellir gwella cynefin ar gyfer llygod dŵr, gan gynnwys systemau ffosydd newydd ac wedi'u hadfer a chynefin glannau gwell.

- 5.46 Mae'r amodau a awgrymir ar gyfer Wern yn cynnwys
- Mapio'n fanwl llinellau hedfan a chlwydfannau ystlumod a'r cysylltedd tirwedd cyn cychwyn.
 - Rheoli a monitro cynefinoedd hirdymor am o leiaf 25 mlynedd yn hytrach na phum mlynedd.
 - Gwella a monitro cynefinoedd llygod dŵr.
 - Goruchwyliaeth gan Glerc Gwaith Ecolegol yn ystod gwaith clirio llystyfiant ac adeiladu.
- 5.47 Byddai'r cynnig yn arwain at golli rhywfaint o gynefinoedd yn barhaol, fodd bynnag, mae'r ES yn dangos bod effeithiau wedi'u hosgoi neu eu lleihau lle bo'n bosibl ac wedi'u hategu gan amnewid cynefinoedd, gwella bioamrywiaeth a mesurau rheoli hirdymor. Felly, mae'r cynigion yn cyd-fynd yn fras â Pholisïau PS19, AMG4 ac AMG5, sy'n ceisio diogelu bioamrywiaeth, safleoedd dynodedig a rhwydweithiau ecolegol. Mae'r cynigion Budd Net ar gyfer Bioamrywiaeth (NBB) a gynhwysir yn y Datganiad Amgylcheddol a'r ddogfennaeth ategol hefyd yn dangos cydymffurfiaeth â PCC a'r ddyletswydd bioamrywiaeth Adran 6.
- 5.48 Felly, ystyrir y gellir lliniaru'r effeithiau ecolegol sy'n gysylltiedig â CSEC y Wern a'r ffordd fynediad barhaol yn foddhaol, ac nad ydynt yn groes i Bolisïau PS 5, PS 19, AMG 4 ac AMG 5 y CDLIC, cyn belled ag y rhoddir amodau priodol.

Tir Amaethyddol

- 5.49 Mae Pennod 7 y Datganiad Amgylcheddol yn nodi bod CSEC Wern a'r gwaith cysylltiedig wedi'u lleoli o fewn tir amaethyddol o briddoedd priddgleis a chlai sy'n gysylltiedig â gwastraddau arfordirol gydag amodau dŵr daear naturiol uchel. Ar gyfer y gweithgareddau adeiladu byddai'n rhaid cael ardaloedd gwaith dros dro, traciau mynediad, stripio pridd, cloddio, a storio pridd ac isbridd. Mae'r DA yn cydnabod bod gan y gweithgareddau hyn y potensial i effeithio ar strwythur y pridd, cynyddu cywasgedd, newid hydroleg y pridd a thynnu tir dros dro o gynhyrchiant amaethyddol.
- 5.50 Yn nhermau Dosbarthiad Tir Amaethyddol (ALC), mae ardal Wern yn cael ei chategoreiddio'n bennaf fel tir amaethyddol Gradd 5, er gall gweithgareddau adeiladu dros dro sy'n gysylltiedig â llwybrau mynediad, gwaith cebl a thrin pridd effeithio ar ardaloedd cyfyngedig o dir amaethyddol Isradd 3a Gorau a Mwyaf Amlbwrpas (BMV). Nid yw'r Datganiad Amgylcheddol yn nodi unrhyw golled barhaol o dir BMV yn CSEC Wern.
- 5.51 Mae'r DA yn adnabod effeithiau posibl gan gynnwys colli cynhyrchiant amaethyddol dros dro, diraddio strwythur y pridd trwy drin, cywasgu gan draffig adeiladu, newidiadau i amodau lleithder pridd a hydroleg pridd lleol, ac erydiad priddoedd agored a phentyrrau stoc. Er mwyn mynd i'r afael â'r effeithiau hyn, mae'r ES yn cynnig mesurau lliniaru trwy weithredu Cynllun Rheoli Pridd a Chynllun Rheoli Amgylcheddol Adeiladu (CEMP). Mae'r mesurau hyn yn cynnwys stripio a storio pridd ac isbridd ar wahân, rheoli pentyrrau stoc yn ofalus, lleihau i'r eithaf ar symud/trin pridd, adfer priddoedd i'w dyfnderoedd a'u proffiliau gwreiddiol, a rheoli traffig adeiladu i leihau cywasgu ac osgoi tarfu diangen. Mae'r asesiad gwaelodlin

PWYLLGOR CYNLLUNIO	DYDDIAD: 28/09/2026
ADRODDIAD Y PENNAETH ADRAN CYNORTHWYOL	

yn adnabod ar y cyfan mai risg isel sydd i'r priddoedd yr effeithir arnynt gael eu herydu, ac y gellir eu diogelu trwy arferion adeiladu safonol.

- 5.52 Daw'r Datganiad Amgylcheddol i'r casgliad y byddai'r effeithiau ar dir amaethyddol, ansawdd y pridd a chynhyrchiant amaethyddol yn rhai dros dro, ni fyddent yn fawr ac y byddai modd eu dad-wneud. Ar ôl mesurau lliniaru, caiff yr effeithiau gweddilliol eu hasesu fel mymryn yn andwyol ac nid yn sylweddol.
- 5.53 Mae paragraffau 3.58 a 3.59 Polisi Cynllunio Cymru yn cydnabod pridd fel adnodd y mae terfyn iddo, ac yn ceisio diogelu tir amaethyddol, yn enwedig tir BMV, rhag colled neu ddi-raddio diangen. Mae paragraff 3.59 yn nodi na ddylid datblygu tir o Raddau 1, 2 a 3a dim ond os oes angen am y datblygiad sy'n drech nag unrhyw beth arall, ac os nad oes tir o raddau amaethyddol is ar gael neu os oes cyfyngiadau amgylcheddol sy'n gorbwyso ystyriaethau amgylcheddol.
- 5.54 Yn yr achos hwn, mae'r ardaloedd cyfyngedig o dir Isradd 3a yn digwydd ger CSEC presennol Wern. O ystyried y gofyniad i'r datblygiad gysylltu â, a gweithredu ochr yn ochr â seilwaith trydan sy'n bodoli eisoes, mae cyfiawnhad gweithredol clir dros leoli'r gwaith yn y lleoliad hwn. Ar ben hynny, mae'r Datganiad Amgylcheddol yn dangos y byddai'r effeithiau ar dir BMV yn rhai dros dro ac na fyddai unrhyw golled barhaol o dir BMV yn digwydd yn Wern.
- 5.55 Ystyrir felly fod y cynnig yn cyd-fynd ag amcanion paragraffau 3.58 a 3.59 PCC ac yn cydymffurfio â Maen Prawf 6, Polisi PS 6 o Gynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Ynys Môn a Gwynedd, sy'n ceisio diogelu adnoddau tir amaethyddol a phridd o ansawdd uwch.

Mynediad, priffyrdd, Hawliau Tramwy

- 5.56 Byddai ffordd fynediad barhaol newydd, tua 1.26km o hyd, yn cael ei hadeiladu o'r A498 i ddarparu mynediad gweithredol i'r safle. Mae'r gwaith galluogi cysylltiedig yn cynnwys y compownd adeiladu, mynedfeydd llydan oddi ar y brif ffordd, ffyrdd cludo a chlirio llystyfiant. Mae CTMP a CEMP wedi'u cyflwyno'n benodol mewn perthynas â'r gwaith 'galluogi' hwn.
- 5.57 Mae'r Datganiad Amgylcheddol yn nodi mai'r prif effeithiau trafnidiaeth tebygol fyddai'r traffig adeiladu yn defnyddio coridor yr A487 a'r A498. Mae'r DA Cyfrol 4 Pennod 9: Traffig a Thrafnidiaeth (Tablau 9-15 i 9-17) yn nodi y rhagwelir mai'r A487 i'r gorllewin o'r A498 fydd yn profi'r cynnydd uchaf mewn symudiadau HGV, gyda chynnydd o 31.6% mewn traffig HGV, er byddai cyfanswm y traffig yn cynyddu dim ond 1.3%. Yn yr un modd, byddai'r A498 i'r de o'r A487 yn profi cynnydd o 26.6% mewn traffig HGV a chynnydd o 1.1% yng nghyfanswm y traffig. Mae'r asesiad yn dod i'r casgliad y byddai'r effeithiau hyn yn parhau i fod yn ddibwys neu'n fân andwyol ac nid yn sylweddol.
- 5.58 Mae'r mesurau lliniaru wedi'u cynnwys yn Adrannau 2 a 5 y CTMP Galluogi, Adran 4.13 y CEMP Gwaith Galluogi, a'r mesurau lliniaru ymgorfforedig a nodwyd ym mharagraff 9.9.4, Pennod 9, Cyfrol 4 y Datganiad Amgylcheddol. Mae'r rhain yn cynnwys:
- Llwybrau HGV rhagnodedig.
 - Rheoli traffig dros dro ac arwyddion rhybuddio.

PWYLLGOR CYNLLUNIO	DYDDIAD: 28/09/2026
ADRODDIAD Y PENNAETH ADRAN CYNORTHWYOL	

- Pecynnau gwybodaeth i yrwyr a monitro llwybrau.
- Arolygon cyflwr ffyrdd cyn, yn ystod ac ar ôl adeiladu.
- Mesurau golchi olwynion a glanhau ffyrdd.
- *Banksmen* a mynediad cyhoeddus ar wahân lle mae'r traffig adeiladu yn cysylltu â llwybrau cyhoeddus.
- Marsialiaid traffig a mesurau i amddiffyn cerddwyr a beicwyr.

- 5.59 Mae'r cynnig yn cyd-fynd â Pholisi TRA 4 a Pholisi Strategol PS 4 y CDLIC gan fod yr Asesiad Trafnidiaeth yn dod i'r casgliad na fyddai'r datblygiad yn cael effaith annerbyniol ar weithrediad diogel neu effeithlon y rhwydwaith priffyrdd a'i fod yn ymgorffori mesurau priodol ar gyfer rheoli traffig adeiladu.
- 5.60 Gallai'r gwaith sy'n gysylltiedig â CSEC Wern, a'r ffordd fynediad barhaol newydd effeithio ar Hawliau Tramwy Cyhoeddus gerllaw, gan gynnwys Llwybr Troed Dolbenmaen Rhif 107, sy'n rhedeg o'r A497 yn Wern Lodge i Tyn y Berllan, Penmorfa. Nid yw gwasanaeth Hawliau Tramwy Cyhoeddus (Gwasanaeth Cefn Gwlad a Mynediad) Cyngor Gwynedd yn gwrthwnebu'r cynnig ac nid yw wedi gofyn am osod amod cynllunio. Mae eu sylwadau'n pwysleisio y dylai pob Hawl Tramwy Cyhoeddus aros ar agor, yn ddiogel ac yn ddirwysr lle bynnag y bo modd drwy gydol y cyfnod adeiladu, na ddylai unrhyw ddifrod ddigwydd i arwynebau, cyfarpar draenio, aliniad na lled llwybrau, ac y dylid symud ymlaen ag unrhyw gynlluniau angenrheidiol i gau dros dro drwy'r gweithdrefnau cyfreithiol priodol ar ôl ymgynghori â Thîm Hawliau Tramwy Cyhoeddus y Cyngor.
- 5.61 Mae'r CTMP Gwaith Galluogi a CEMP Gwaith Galluogi a gyflwynwyd ar gyfer Wern ill dau yn cynnwys mesurau amrywiol sydd â'r bwriad o ddiogelu cerddwyr, beicwyr a defnyddwyr PROW yn ystod gwaith galluogi Wern. Mae'r CTMP yn cadarnhau na fydd angen dargyfeirio unrhyw hawl tramwy cyhoeddus yn barhaol oherwydd y gwaith galluogi. Pan fydd angen Penmorfa Rhif 17 ar gyfer mynediad i gerbydau adeiladu, efallai y bydd angen Gorchymyn Rheoleiddio Traffig Dros Dro a/neu gytundeb trefeddiannwr. Mae'r CTMP yn cynnig darparu llwybr wedi'i ffensiio ar wahân at ddefnydd y cyhoedd, a'r defnydd o *banksman* i reoli symudiadau cerbydau a danfoniadau, gan felly gynnal mynediad diogel i ddefnyddwyr y llwybr.
- 5.62 Mae mesurau lliniaru ychwanegol o fewn y CTMP yn cynnwys rheoli traffig dros dro, arwyddion rhybudd adeiladu, gwybodaeth gyhoeddus ac ymgysylltu â'r gymuned, hyfforddiant i yrwyr, a darparu Pecynnau Gwybodaeth i Yrwyr sy'n tynnu sylw at droedffyrdd, llwybrau beicio a llwybrau ceffylau ac ardaloedd gyda niferoedd uwch o gerddwyr, beicwyr a marchogion. Bydd traffig adeiladu yn cael ei gyfyngu i lwybrau cymeradwy ac yn cael ei fonitro trwy'r CTMP.
- 5.63 Mae'r CEMP Gwaith Galluogi hefyd yn nodi y bydd marsialiaid traffig i reoli unrhyw gysylltiad rhwng HGVs a cherddwyr/beicwyr, cynnal mynediad i gyfleusterau lleol, ymgysylltu â rhan-ddeiliaid, arolygu ffensys ac arwyddion yn rheolaidd, a gweithredu'r CTMP Galluogi trwy gydol y cyfnod adeiladu.
- 5.64 Yn flaenorol, cyhoeddodd Asiantaeth Cefnffyrdd Gogledd a Chanolbarth Cymru gyfarwyddyd yn cynghori na ddylid rhoi caniatâd cynllunio oherwydd nad oedd digon o wybodaeth fanwl. Mewn ymateb, ymgysylltodd yr ymgeisydd yn uniongyrchol ag ACGChC i fynd i'r afael â'r materion oedd heb eu datrys. Yn dilyn y trafodaethau hyn, mae ACGChC wedi cadarnhau y gellir rhoi caniatâd cynllunio yn awr, gydag amodau.

PWYLLGOR CYNLLUNIO	DYDDIAD: 28/09/2026
ADRODDIAD Y PENNAETH ADUAN CYNORTHWYOL	

- 5.65 Mae'r amodau hyn yn gofyn am gyflwyno'r dogfennau canlynol:
- Cynllun Rheoli Amgylcheddol Adeiladu (CEMP).
 - Cynllun Rheoli Traffig Adeiladu (CTMP)
 - Cynllun Rheoli Traffig (TMP)
 - Datganiadau Dull Adeiladu (CMS) ac Asesiadau Risg
 - Dyluniad adfer y ffordd gerbydau a manyleb palmant
- 5.66 Mae ACGChC wedi cyfarwyddo bod rhaid cyflwyno'r manylion hyn cyn dechrau ar y datblygiad. Fodd bynnag, fel y trafodwyd yn flaenorol, mae'r ymgeisydd eisoes wedi cyflwyno CEMP a CTMP mewn perthynas â'r gwaith galluogi yn ardal Wern y safle.

5.67 Yn bwysig, nid yw'r cam hwn o'r datblygiad yn cynnwys mynediad uniongyrchol i'r Rhwydwaith Cefnffyrdd na Ffyrdd Strategol. Bydd mynediad ar gyfer y gwaith galluogi yn cael ei gymryd o'r rhwydwaith priffyrdd lleol ar hyd yr A498, sydd tua 350 i 380 metr i'r de o gyffordd cefnffordd yr A487. O ystyried bod CEMP a CTMP eisoes wedi'u darparu ar gyfer y gwaith galluogi, ac nad yw'r gwaith hwn yn rhyngweithio'n gorfforol â'r Rhwydwaith Ffyrdd Strategol, ni ystyrir bod cyflwyno rhagor o ddogfennau o'r fath yn angenrheidiol nac yn berthnasol i'r cam hwn o'r gwaith. Serch hynny, bydd angen y manylion hyn ar gyfer camau di-lymol y datblygiad ehangach.

5.68 Ar y sail hon, mae'r Awdurdod Cynllunio Lleol o'r farn fod y datblygiad yn cydymffurfio â gofynion polisi TRA 4 y CDLIC.

Hydroleol a Pherygl Llifogydd

- 5.69 Mae CSEC Wern a gwaith galluogi cysylltiedig wedi'u lleoli o fewn rhan orllewinol gorlifdir Glaslyn ar dir amaethyddol isel sy'n cael ei groesi gan sawl ffos ddraenio sy'n gysylltiedig â dalgylch Y Cyt.
- 5.70 Mae Adran 9 Nodyn Cyngor Technegol 15: Datblygu, Llifogydd ac Erydu Arfordirol yn categorio mathau o ddatblygu yn seiliedig ar eu bregusrwydd i risg llifogydd. Nid yw'r datblygiad sy'n destun y cais wedi'i ddisgrifio'n benodol yn unrhyw un o'r categorïau ac mae paragraff 9.5 yn cadarnhau nad yw'r rhestr yn gyflawn, felly dylid cymhwyso barn broffesiynol wrth ystyried categorïau datblygu sydd heb eu rhestru'n benodol yn seiliedig ar y risgiau i fywydau a bywoliaethau mewn achos o lifogydd. Nid yw natur y datblygiad hwn yn peri risg i fywydau neu fywoliaethau mewn achos o ddigwyddiad llifogydd ac, felly, ystyrir ei fod yn ddatblygiad llai bregus.
- 5.71 Mae'r Map Llifogydd ar gyfer Cynllunio (FMfP) yn dangos bod mwyafrif y datblygiad wedi'i leoli o fewn un neu fwy o'r parthau llifogydd. Mae CSEC Wern a ffyrdd mynediad yn disgyn o fewn Parth Llifogydd 2 a 3 Dŵr Wyneb a Chyrsiau Dŵr Bach a Pharth Amddiffyn o'r Môr.
- 5.72 Mae'r DA yn adnabod effeithiau posib sy'n codi o gompowndiau dros dro, ffyrdd mynediad, ffyrdd cludo, pentyrrau stoc, gweithgareddau tynnu dŵr, symud gwaddodion, llygredd damweiniol a lleihad yng nghyfaint dŵr y gellir ei gadw ar y gorlifdir.

PWYLLGOR CYNLLUNIO	DYDDIAD: 28/09/2026
ADRODDIAD Y PENNAETH ADRAN CYNORTHWYOL	

- 5.73 Daeth yr asesiad Pennod 8 gwreiddiol i'r casgliad bod modd i isadeiledd dros dro gynyddu lefelau llifogydd o fewn y gorlifdir ac felly, fe wnaeth asesu'r effeithiau risg llifogydd cam adeiladu ar dderbynyddion trydydd parti fel Cymedrol (Sylweddol Posib). Hefyd, fe wnaeth paragraff 8.4.4 Pennod 8 y DA ac Asesiad Canlyniadau Llifogydd gydnabod, yn seiliedig ar y modelu ar gael ar y pryd, nad yw'r cynllun wedi dangos cydymffurfiaeth lawn gyda Nodyn Cyngor Technegol 15 a bod angen modelu hydrologig ychwanegol. Y risgiau hydrolegol gwreiddiol a nodwyd oedd:
- dŵr ffo sydd llawn gwaddodion yn codi o'r gwaith daear, stripio pridd a phentyrrau stoc;
 - llygredd damweiniol o danwyddau, olewon a chemegion;
 - tynnu dŵr daear sy'n gysylltiedig â chloddio;
 - amharu ar lwybrau draenio lleol;
 - dadleoli storio gorlifdir drwy gompowndiau, ffyrdd mynediad a phentyrrau stoc; a newidiadau i drawsgludo llifogydd o fewn ardaloedd gorlifdir.
- 5.74 Yn dilyn y sylwadau cychwynnol gan CNC, darparodd yr ymgeisydd fodelu hydrologig ychwanegol a gynhaliwyd gan Arup a'u hadrodd o fewn Nodyn Technegol Datganiad Amgylcheddol Rhifyn 4 Pennod 8 Diweddariadau (Mai 2026). Roedd y modelu hyn yn ystyried y gwaith galluogi, a fydd yn parhau yn ei le am lai na naw mis cyn dechrau ar y gwaith adeiladu ehangach
- 5.75 Daeth y modelu diwygiedig o hyd i'r ffaith bod cynnydd mewn dyfnderoedd llifogydd wedi'i gyfyngu'n gyffredinol i dir amaethyddol i ogledd-gorllewin ardal yr astudiaeth ac nid oedd cynnydd mewn dyfnderoedd llifogydd fel arfer yn fwy na 0.01m yn uwch na lefelau llifogydd presennol. Nid oedd unrhyw effeithiau andwyol i eiddo preswyl neu fasnachol yn ystod y cam gwaith galluogi, ni gynyddodd hyd y llifogydd.
- 5.76 Ar sail y modelu a ddiweddarwyd, cafodd arwyddocâd yr effeithiau risg llifogydd eu hailasesu. Cafodd graddfa'r newid ar gyfer derbynyddion trydydd parti ei lleihau o Ganolig i Isel, gan arwain at effaith yr adeiladu yn cael ei lleihau o Gymedrol (Sylweddol Posib) i Fân (Ansylweddol).
- 5.77 Mae'r Asesiad Canlyniadau Llifogydd a ddiweddarwyd erbyn hyn yn dod i'r casgliad, yn dilyn lliniaru, bod y risg llifogydd sy'n gysylltiedig â'r gwaith galluogi yn isel i ddibwys.
- 5.78 Mae CNC wedi adolygu'r modelu diwygiedig ac yn cadarnhau *"na fyddai'r gwaith galluogi cychwynnol a gynigir yn arwain at gynnydd mewn risg llifogydd"*.
- 5.79 Mae CNC yn derbyn nad oes angen y trefniant lliniaru pwmpio arfaethedig yn ystod cyfnod y gwaith galluogi ac nid yw'n codi unrhyw wrthwynebiad i'r gwaith galluogi ar sail risg llifogydd.
- 5.80 Mae Nodyn Cyngor Technegol 15 yn cynghori bod modd i ddatblygiad llai bregus sydd wedi'i leoli ym Mharth Llifogydd 2, Parth Llifogydd 3 neu Barth Amddiffyn ond fod yn briodol os yw'n ymdrin ag anghenion diogelwch ynni cenedlaethol.
- 5.81 Paragraff 10.23 *"Gall cynigion sy'n ymdrin â diogelwch cenedlaethol neu anghenion diogelwch ynni, lliniaru effeithiau newid hinsawdd, sy'n angenrheidiol i amddiffyn a hyrwyddo*

PWYLLGOR CYNLLUNIO	DYDDIAD: 28/09/2026
ADRODDIAD Y PENNAETH ADRAN CYNORTHWYOL	

iechyd cyhoeddus hefyd, drwy eithriad, fod yn briodol ar yr amod bod eu hangen lleoliadol yn glir a bod y canlyniadau posib o lifogydd wedi cael eu hystyried a'u darganfod yn dderbyniol."

- 5.82 Ystyrir bod natur y datblygiad yn cyfrannu at anghenion diogelwch ynni cenedlaethol a bod y gofyn i gael ei leoli ar y safle benodol hon yn ddibynnol ar gysylltu i'r seilwaith presennol, fel sy'n cael ei egluro mewn mwy o fanylder mewn adrannau eraill o'r adroddiad hwn. Felly, mae'r ACLI yn ystyried bod lleoli'r datblygiad o fewn parth buddsoddi yn dderbyniol.
- 5.83 Mae'r cais wedi darparu Asesiad Canlyniadau Llifogydd fel sy'n ofynnol gan baragraff 10.24 *"Ym mharthau 2, 3 a pharth amddiffyn NCT 15, mae'n rhaid i ddatblygwyr gynnal asesiad canlyniadau llifogydd sy'n gymesur â natur a graddfa'r cynnig. Cyn rhoi caniatâd cynllunio, mae'n rhaid i'r rhai sydd yn gwneud penderfyniadau fod yn fodlon bod y cynllun yn gyfiawn-adwy yn unol â'r egwyddorion a nodwyd yn adran 8"*.
- 5.84 Mae CNC wedi adolygu'r Asesiad Canlyniadau Llifogydd a chadarnhau, yn ddibynnol ar amodi pypiau lliniaru llifogydd (sy'n gysylltiedig â gwaith cebl Glaslyn), bod modelu a methodoleg yr Asesiad Canlyniadau Llifogydd yn dderbyniol, mae effeithiau llifogydd y cynllun yn dderbyniol wrth weithredu. Maent hefyd yn cadarnhau na fyddai'r gwaith galluogi yn cynyddu risg llifogydd.
- 5.85 Hefyd, mae sylwadau gan yr Awdurdod Llifogydd Lleol Arweiniol yn cadarnhau nad oes unrhyw bryderon gyda chynnwys yr Asesiad Canlyniadau Llifogydd na gwrthwynebiad i'r datblygiad. Maent hefyd yn nodi bod rhai materion draenio lleol a llifogydd eisoes wedi cael eu caniatáu drwy'r broses Caniatâd Cwrs Dŵr Cyffredin (a23 o'r Ddeddf Draenio Tir).
- 5.86 Cododd y SAB wrthwynebiad dros dro i ddechrau gan nad oedd digon o dystiolaeth i ddangos bod yr hierarchaeth draenio dŵr wyneb wedi cael ei dilyn yn briodol. Tra eu bod wedi derbyn nad oedd casglu dŵr glaw yn addas ar gyfer y datblygiad, roeddent angen ymchwilio mwy i dreiddiad fel yr opsiwn draenio ffafriol, gan gynnwys profi treiddiad sy'n cydymffurfio â BRE365, monitro dŵr daear a thystiolaeth i gefnogi dyluniad ffos gerrig. Hefyd, fe wnaeth y SAB amlinellu'r opsiynau hierarchaeth draenio dilynol, gan nodi y byddai gollwng i gwrs dŵr neu garthffos dŵr wyneb ond yn dderbyniol pan fo opsiynau blaenoriaeth-uwch wedi eu diystyru, a byddai unrhyw gysylltiad i'r rhwydwaith garthffos gyfun angen cytundeb a chyfiawnhad cadarn gan Ddŵr Cymru.
- 5.87 Fe wnaeth y SAB gynghori bod angen mwy o dystiolaeth cyn bod modd iddynt gefnogi'r cynigion ac fe wnaethant argymhell trafodaethau cyn gwneud cais i ddatrys y materion draenio oedd heb eu datrys.
- 5.88 Yn dilyn cyflwyno'r cais SAB YGC26-1884-LL (Wern), fe wnaeth y SAB adolygu'r wybodaeth ychwanegol a chadarnhau ar 07/07/2026 ei bod yn ddigonol i ymdrin â'u pryderon. O ganlyniad, fe wnaethant dynnu eu gwrthwynebiad dros dro yn ôl a chadarnhau nad oedd ganddynt wrthwynebiad i'r ceisiadau cynllunio.
- 5.89 I'r perwyl hyn, mae'r ACLI yn fodlon bod y datblygiad arfaethedig yn cydymffurfio â gofynion NCT 15 a pholisïau PS6 a PCYFF 6 y CDLI ar y Cyd.

PWYLLGOR CYNLLUNIO	DYDDIAD: 28/09/2026
ADRODDIAD Y PENNAETH ADUAN CYNORTHWYOL	

Archaeoleg a threftadaeth ddiwylliannol

- 5.90 Polisïau PS20 ac AT 1 y CDLI ar y Cyd a Nodyn Cyngor Technegol 24: Mae'r Amgylchedd Hanesyddol yn gosod dyletswydd ar Awdurdodau Lleol i asesu effeithiau datblygiadau newydd ar asedau treftadaeth a materion archeolegol.
- 5.91 Cyflwynir yr asesiad o effeithiau amgylchedd hanesyddol ym Mhennod 6 y Datganiad Amgylcheddol (DA) ac mae'n ystyried yr effeithiau ffisegol ar olion archeolegol a'r effeithiau ar leoliad ac arwyddocâd asedau treftadaeth dynodedig a rhai nad ydynt wedi'u dynodi sy'n codi o estyniad arfaethedig CSEC Wern, y ffordd fynediad barhaol a'r gwaith cebl cysylltiedig. Mae'r asesiad yn adnabod gwaith CSEC Wern fel prif ffynhonnell effeithiau treftadaeth o fewn y cynllun oherwydd y lleoliad o fewn Parc a Gardd Hanesyddol Rhestredig Gradd II Wern (PGW(Gd)19(GWY)) a gosodiad Adeilad Rhestredig Gradd II Wern Manor (Cadw 4626).
- 5.92 Mae'r DA yn dod i'r casgliad y byddai'r datblygiad yn arwain at:
- Effaith sylweddol andwyol gymedrol ar Barc a Gardd Hanesyddol Rhestredig Wern.
 - Effaith sylweddol andwyol gymedrol ar osodiad Wern Manor.
- 5.93 Mae Cadw wedi adolygu'r cynigion ac yn cadarnhau bod ganddynt bryderon sylweddol ynghylch yr effaith ar Barc a Gardd Hanesyddol Rhestredig Wern. Mae Cadw yn cynghori, yn unol â Pholisi Cynllunio Cymru, y byddai'n bwriadu gwrthwynebu oni bai bod lliniaru priodol neu fesurau gwrthbwysio wedi'u sicrhau. Mae Cadw yn ystyried bod cyfleoedd lliniaru uniongyrchol yn gyfyngedig ac yn argymhell y dylid archwilio mesurau gwella, gan gynnwys gwelliannau i asedau treftadaeth o fewn y parcdir sy'n cael ei adnabod ar hyn o bryd ar *Gofrestr Mewn Perygl* Cadw, gan gynnwys y Tŷ Haf yn Wern Manor (Cadw 4628) a'r Pwll Gardd Addurnedig (Cadw 21569).
- 5.94 Mae Heneb wedi nodi eu bod yn cytuno'n fras gyda chasgliadau'r DA ac, yn debyg, yn cynghori bod y prif fater treftadaeth yn ymwneud â'r effaith ar y Parc a Gardd Hanesyddol Rhestredig. Hefyd, cadarnhaodd Heneb eu bod yn cefnogi argymhelliad Cadw y dylid archwilio cyfleoedd gwella ac fe wnaethant gynghori ymhellach y dylai'r Cynllun Rheoli Tirwedd ac Ecolegol (LEMP) ystyried yn benodol cymeriad a diddordeb arbennig y Parc a Gardd Rhestredig a dylid ymgynghori â Heneb ar y LEMP terfynol a chynigion gwella cysylltiedig.
- 5.95 Mae lliniaru a nodwyd o fewn y DA yn cynnwys:
- Defnyddio aliniad trac lled-ffurfiol presennol ar gyfer y ffordd fynediad barhaol.
 - Defnyddio HDD ar ffin ddwyreiniol y parcdir i leihau aflonyddwch.
 - Cadw ac amddiffyn gwaith plannu cyfredol ar y ffin.
 - Plannu newydd pan nad oes modd osgoi cael gwared ar llystyfiant.
 - Ystyriaeth ofalus o ddyluniad y seilwaith, deunyddiau, goleuo a sgrinio.
- 5.96 Tra bo'r DA yn dod i'r casgliad y byddai effeithiau andwyol sylweddol yn parhau ar Barc a Gardd Hanesyddol Rhestredig Wern a gosodiad Wern Manor, mae Cadw bellach yn fodlon bod modd sicrhau mesurau gwrthbwysio priodol drwy amod cynllunio. Yn ddibynol ar yr amod a argymhellir, ystyrir bod yr effeithiau ar yr amgylchedd hanesyddol wedi cael eu hasesu'n briodol a gellir eu rheoli yn unol â gofynion Polisïau PS 20 ac AT 1 y CDLI ar y Cyd a'r arweiniad sydd wedi'i gynnwys o fewn Nodyn Cyngor Technegol 24.

PWYLLGOR CYNLLUNIO	DYDDIAD: 28/09/2026
ADRODDIAD Y PENNAETH ADRAN CYNORTHWYOL	

Ceblau Glaslyn

Disgrifiad o'r gwaith

- 5.97 Mae'r gwaith Ceblau Glaslyn arfaethedig yn cynnwys datgomisiynu'r systemau cebl 132 kV a 400 kV presennol rhwng CSEC Wern a CSEC Garth a gosod tua 6km o geblau tanddaearol 400 kV yn eu lle rhwng CSEC Wern a CSEC Minffordd arfaethedig. Mae'r ceblau presennol yn geblau llawn olew wedi'u hinswleiddio gyda phapur trin olew a'u cefnogi gan gyfres o faeau ar y cyd, offer monitro a seilwaith ategol wedi'u lleoli ar hyd y llwybr. Bydd y ceblau presennol yn cael eu gwaredu pan fo'n ymarferol, fodd bynnag, byddai rhai rhannau yn cael eu cadw fel y mae lle y gallai cloddio effeithio'n andwyol ar safleoedd dynodedig, cynefinoedd sensitif neu rywogaethau a warchodir. Mae'r rhain yn cynnwys rhannau o SoDdGA Glaslyn, ACA Coedydd Derw a Safleoedd Ystlumod Meirion, SoDdGA Ysbyty Bron y Garth a rhai ardaloedd sy'n cynnwys llysoiau'r dial. Byddai'r ceblau sy'n aros yno yn cael eu torri, eu draenio o olew, eu glanhau gyda nitrogen, eu capio a'u cysylltu â phyllau monitro, gyda monitro yn cael ei wneud am gyfnod o oddeutu 10 mlynedd.
- 5.98 Byddai'r ceblau newydd yn cynnwys ceblau *Cross-Linked Polyethylene (XLPE)* modern, sy'n cael gwared ar yr angen am systemau sydd llawn olew, tanciau olew a seilwaith cynnal a chadw cysylltiedig. Mae'r llwybr oddeutu 6km o hyd. Ar gyfer llawer o'i hyd, mae'r llwybr yn mynd drwy dir amaethyddol ac yn croesi priffyrdd, cyrsiau dŵr, rheilffyrdd, hawliau tramwy cyhoeddus a seilwaith cyfleustodau presennol.
- 5.99 Byddai'r llwybr yn gadael CSEC Wern i gyfeiriad y de-ddwyrain yn dilyn alinio'r ceblau presennol rhwng Nant yr Afon-oer a'r A497 cyn croesi Afon Bontfaen a'r A498 ger Pont Pen-Amser. Yna, mae'r llwybr yn parhau i gyfeiriad y gogledd-ddwyrain tuag at Borthmadog, gan groesi Y Cyt, Llwybr Cyhoeddus Porthmadog Rhif 6 a Llwybr Beicio Cenedlaethol 8 cyn parhau tuag at Gylchfan Porthmadog (A487). I'r dwyrain o'r gylchfan, mae'r llwybr yn mynd heibio gogledd Ysgol Eifionydd lle mae'r aliniad cebl yn rhannu i ddau ran dros dro er mwyn hwyluso croesi dan yr A487 a gwasanaethau presennol cyn ail-ymuno yn ne Llwybr Ceffyl Porthmadog Rhif 37. Yna, mae'r llwybr yn parhau tua'r dwyrain, gan groesi Rheilffordd Treftadaeth Ucheldir Cymru (WHHR), Rheilffyrdd Ffestiniog ac Ucheldir Cymru (FfWHR), Llwybr Cyhoeddus Porthmadog Rhif 10 ac 11, a Llwybr Ceffyl Rhif 37 cyn mynd i gyfeiriad y de-ddwyrain tuag at yr A487. Mae'r rhan olaf yn mynd dan yr A487, Rheilffordd Arfordir y Cambrian, Afon Glaslyn, rhan o SoDdGA Glaslyn ac ACA Coedwigoedd Derw a Safleoedd Ystlumod Meirionnydd gan HDD, cyn terfynu yn CSEC Minffordd arfaethedig.
- 5.100 Bydd y ceblau'n cael eu gosod gan ddefnyddio cyfuniad o gloddio ffosydd agored a HDD. Byddai oddeutu hanner y llwybr yn cael ei osod drwy'r cloddio ffos confensiynol tra y byddai HDD yn cael ei ddefnyddio mewn lleoliadau amgylcheddol sensitif a chroesfannau megis ffyrdd, rheilffyrdd a chysiau dŵr. Yng Nghylchfan Porthmadog, bydd y gosod yn cael ei wneud mewn camau gan ddefnyddio dull toriad agored, gyda threfniadau rheoli traffig dros dro i gynnal symudiadau cerbyd drwy gydol cyfnod y gwaith. Byddai angen compowndiau adeiladu dros dro, ffyrdd mynediad, mannau troi ac ardaloedd gosod ar hyd y llwybr wrth osod.
- 5.101 Byddai'r ceblau newydd hyn yn cael eu gosod o fewn dwythellau tanddaearol gyda chwe bae ar y cyd ar hyd pob cam cebl. Byddai'r rhain yn cael eu lleoli oddeutu 250m i'r gorllewin o'r A498, 620m i'r gorllewin o Gylchfan Porthmadog, 100m i'r de-ddwyrain o Gylchfan Porthmadog, 100m i'r dwyrain o groesfan WHHR a FfWHR, 350m i'r de-ddwyrain o Glwb Chwaraeon Madog ac oddeutu 290m i'r de-orllewin o'r CSEC Minffordd arfaethedig. Byddai pob un o'r baeau ar y cyd hyn yn cael eu gwasanaethau gan biler cyswllt (uwchben y ddaear) sy'n cael ei ddefnyddio i

PWYLLGOR CYNLLUNIO	DYDDIAD: 28/09/2026
ADRODDIAD Y PENNAETH ADRAN CYNORTHWYOL	

gynnal a chadw a monitro ceblau. Byddai seilwaith ychwanegol yn cynnwys systemau cyfathrebu ffibr optig, offer monitro tymheredd *thermocouple*, marcwyr cebl a mesurau amddiffyn cysylltiedig. Ar ôl cwblhau'r gwaith hwn, byddai'r seilwaith adeiladu dros dro yn cael eu tynnu a'r tir sydd wedi'i effeithio yn cael ei adfer.

Mwynderau gweledol a'r dirwedd

- 5.102 Mae'r LIVA yn nodi y byddai adeiladu llwybr cebl Glaslyn yn arwain at effeithiau dros dro ar gymeriad y dirwedd sy'n codi o glirio llystyfiant, gwaith tynnu pridd, gwaith cloddio, gweithrediadau HDD, gwaith adeiladu a cholli tawelwch dros dro ar hyd rhannau o'r llwybr. O fewn LCA 09 Porthmadog, mae'r effeithiau hyn yn cael eu hasesu fel cymedrol andwyol a sylweddol yn ystod y cyfnod adeiladu oherwydd graddfa a maint y gwaith. Mae effeithiau cymedrol andwyol a sylweddol dros dro tebyg yn cael eu hadnabod o fewn ardaloedd gosodiad Parc Cenedlaethol Eryri o ACA 20 Porthmadog ac Aber Afon Glaslyn ac ACA 21 Aber Dwyryd a Morfa Harlech, ond bydd yr effeithiau hyn yn lleol, yn wyrdroadwy ac yn gyfyngedig i gyfnod y gwaith adeiladu. Byddai'r effeithiau ar LCA 05 Ucheldiroedd Moel Hebog ac ACA 19 Cricieth i Fochras yn fân andwyol ac yn ansylweddol.
- 5.103 Daw'r LVIA i'r casgliad y byddai'r effeithiau gweledol sy'n gysylltiedig â gwaith ceblau Glaslyn yn rhai dros dro ac yn gyfyngedig i'r cyfnod adeiladu. Byddai gwelededd gweithgaredd adeiladu yn amrywio yn dibynnu ar leoliad, topograffi a llystyfiant presennol. Byddai'r mwyafrif o dderbynyddion gweledol yn profi effeithiau dibwys i fân andwyol, tra y byddai derbynyddion sy'n agos at lwybr y cebl yn cael golygfeydd cliriach o weithrediadau adeiladu. Mae'r effeithiau fwyaf amlwg yn cael eu nodi ym Mhwynt Golygfa 10, lle y byddai gweithgaredd adeiladu yn arwain at effaith gymedrol andwyol am gyfnod dros dro.
- 5.104 Mae'r holl effeithiau tirwedd gweithredol ac effaith weledol wedi'u sgopio allan o'r asesiad gan y byddai'r ceblau newydd yn cael eu gosod dan y ddaear ac, unwaith y bydd y gwaith adeiladu wedi'i gwblhau a'r tir wedi'i adfer, na fyddai unrhyw effeithiau parhaol yn codi.
- 5.105 Mae CNC wedi nodi eu bod yn cytuno â chasgliad yr LVIA na fyddai adeiladu llwybr y ceblau yn arwain at effeithiau tirwedd cymedrol andwyol a sylweddol ar rannau o osodiad Parc Cenedlaethol Eryri, yn benodol o fewn ACA 20 Porthmadog ac Aber Glaslyn ac ACA 21 Aber Dwyryd a Morfa Harlech, oherwydd clirio llystyfiant, gwaith cloddio, colli tawelwch dros dro a gweithgaredd adeiladu. Maent hefyd wedi cadarnhau eu bod yn cytuno y byddai'r effeithiau hyn yn rhai dros dro, yn lleol ac yn wyrdroadwy yn eu natur ac, o ganlyniad, nad yw'r cynigion ceblau tanddaearol yn debygol o niweidio rhinweddau arbennig y Parc Cenedlaethol. Mae CNC hefyd yn cytuno y byddai'r effeithiau ar LCA 04 Ucheldiroedd Moel Hebog ac ACA 19 Cricieth i Fochras yn fân andwyol ac yn ansylweddol.
- 5.106 O ran effaith mwynderau gweledol, mae CNC yn cytuno gyda chanfyddiadau'r LVIA y byddai'r mwyafrif o olygfeydd, gan gynnwys y rhai o osodiad y Parc Cenedlaethol, yn profi effeithiau dibwys andwyol yn ystod y gwaith adeiladu. Mae CNC yn pwysleisio'r angen am liniaru tirwedd cadarn, gwaith plannu i ddigolledu ac adfer i leihau effeithiau tymor byr a chanolig.
- 5.107 Ar ôl ystyried y wybodaeth a gyflwynwyd a chan gynnwys yr amodau priodol, mae'r Awdurdod Cynllunio Lleol yn fodlon bod y cynnig yn cydymffurfio â Pholisïau PCYFF 2, PCYFF 3 a PCYFF 4 y Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd.

PWYLLGOR CYNLLUNIO	DYDDIAD: 28/09/2026
ADRODDIAD Y PENNAETH ADARAN CYNORTHWYOL	

Sŵn a dirgryniad

- 5.108 Mae'r asesiad o sŵn a dirgryniad sy'n gysylltiedig ag amnewid Ceblau Glaslyn wedi'i gynnwys ym Mhennod 11 y DA. Mae'r asesiad wedi ystyried gosod ceblau, croesfannau HDD, compowndiau, ffyrdd cludo dros dro, gwaith ailsefydlu a gweithgareddau datgomisiynu ceblau. Mae Llwybr Ceblau Glaslyn yn cynrychioli yr hyn sy'n debygol iawn o fod y ffynhonnell fwyaf sylweddol o effeithiau sŵn a dirgryniad sy'n codi o'r datblygiad. Mae'r DA wedi adnabod effeithiau Andwyol Mawr a Chymedrol Andwyol sy'n gysylltiedig â sefydlu compownd i'r gorllewin o'r WHHR, adeiladu ffordd gludo gyferbyn ag ystâd breswyl Maes Gerddi, gweithrediadau HDD, gwaith ailsefydlu a dad-weithredu compownd.
- 5.109 Mae effeithiau dirgrynu sylweddol wedi cael eu hadnabod yn Nhŷ Gerddi a 76 Maes Gerddi oherwydd y defnydd o roleri dirgrynol yn ystod adeiladu ffordd gludo. Mae'r DA yn dod i'r casgliad bod *"Effeithiau dirgrynu sylweddol drwy'r ddaear yn medru codi yn y ddau dderbynydd a nodwyd uchod os yw rholeri dirgrynol yn cael eu defnyddio yn ystod NGA1 a/neu NGA6."*
- 5.110 Mae pryderon penodol yn codi sy'n ymwneud â gweithgareddau HDD. Mae'r DA yn rhagweld 3 derbynydd preswyl yn profi effeithiau Andwyol Mawr a 43 derbynydd preswyl yn profi effeithiau Cymedrol Andwyol.
- 5.111 Mae'r asesiad yn cydnabod ymhellach y gall fod angen gwaith parhaol 24-awr ar weithrediadau HDD mewn amgylchiadau lle y gallai stopio'r gwaith gynyddu'r risg o fethiant y tyllwr, cwmp neu niwed amgylcheddol.
- 5.112 Mae'r mesurau lliniaru sy'n cael eu cynnig yn y DA yn cynnwys:
- Caniatâd Blaenorol Adran 61 Deddf Rheoli Halogi 1974.
 - Rhwystrau acwstig dros dro o amgylch compowndiau a lleoliadau HDD.
 - Sgrinio acwstig o dyllu rigiau, generaduron a phympiau.
 - Rhaglennu gweithrediadau HDD o fewn oriau gwaith arferol pan fo'n ymarferol.
 - Hysbysiad ymlaen llaw o weithio y tu allan i oriau.
 - Monitro sŵn a dirgryniad.
 - Rhybudd ymlaen llaw pan fo gwaith sy'n cynhyrchu dirgryniad yn cael ei wneud yn agos at dderbynyddion.
 - Gweithredu Dull Ymarferol Gorau (BPM).
- 5.113 Mae Caniatâd Blaenorol Adran 61 yn gytundeb ffurfiol o dan Ddeddf Rheoli Llygredd 1974 rhwng y contractwr a'r awdurdod lleol sy'n sefydlu ymlaen llaw sut y bydd sŵn a dirgryniad adeiladu yn cael eu rheoli, gan gynnwys dulliau gwaith, oriau gwaith, trefniadau monitro a mesurau lliniaru i ddangos y bydd y Dull Ymarferol Gorau (BPM) yn cael ei ddefnyddio i leihau'r effeithiau ar dderbynyddion cyfagos. Mae'r DA yn dibynnu ar broses Adran 61 fel elfen allweddol o'i strategaeth liniaru. Fodd bynnag, mae'r Gwasanaeth Gwarchod y Cyhoedd yn nodi bod y cais Adran 61 cychwynnol gan yr ymgeisydd wedi cael ei wrthod oherwydd gwybodaeth annigonol.
- 5.114 Tra bo'r DA yn dod i'r casgliad bod modd lleihau effeithiau sylweddol drwy ddefnyddio sgrinio acwstig, mesurau cyfathrebu (gyda'r cyhoedd), rhaglennu adeiladu a BPM, mae'r Gwasanaeth Gwarchod y Cyhoedd yn ystyried bod gwybodaeth annigonol ar hyn o bryd i ddangos y bydd y mesurau hyn yn effeithiol yn ymarferol. Yn benodol, mae'r Gwasanaeth Gwarchod y Cyhoedd yn nodi'r canlynol:
- nid oes rhaglen fanwl wedi cael ei darparu sy'n dangos pryd fydd y gweithgareddau mwyaf ymwithiol yn digwydd;
 - nid oes eglurhad clir wedi'i roi ynghylch sut fydd gweithrediadau HDD 24-awr yn cael eu rheoli;
 - mae mesurau rheoli dirgryniad yn parhau i gael eu diffinio'n annigonol;

PWYLLGOR CYNLLUNIO	DYDDIAD: 28/09/2026
ADRODDIAD Y PENNAETH ADRAN CYNORTHWYOL	

- nid yw gweithrediad ymarferol y rhwystrau acwstig wedi cael eu manylu'n llawn; ac
- nid yw'r cais Adran 61 sy'n dibynnu ar y DA wedi cael ei gytuno eto.

5.115 Nid yw'r ymgeisydd yn cytuno gyda'r pwyntiau hyn ac, yn hytrach, mae'n cynnig bod y rheol-aethau manwl yn cael eu sicrhau drwy fframwaith rheoli sy'n benodol i becynnau gwaith sy'n cynnwys:

- CEMP Llwybr Ceblau Glaslyn;
- CTMP Llwybr Cebl Glaslyn;
- Cynlluniau Rheoli Sŵn a Dirgryniad; a
- cais Caniatâd Blaenorol Adran 61 diwygiedig.

5.116 Byddai'r dogfennau hyn yn cael eu cyflwyno i, a'u cymeradwyo gan, yr Awdurdod Cynllunio Lleol cyn dechrau'r cam adeiladu perthnasol. Mae'r cais hefyd wedi cadarnhau y byddai'r gofyn-ion a nodwyd gan y Gwasanaeth Gwarchod y Cyhoedd yn cael eu hymgorffori i'r CEMPs a Chynlluniau Rheoli Sŵn a Dirgryniad manwl sy'n cael eu sicrhau drwy amod cynllunio.

5.117 Mae'r ACLI yn nodi nad yw'r Gwasanaeth Gwarchod y Cyhoedd wedi gwrthwynebu i'r dat-blygiad mewn egwyddor, ond yn hytrach i'r diffyg gwybodaeth fanwl sydd ar gael ar hyn o bryd. Mae'r DA wedi dangos lle mae effeithiau sylweddol yn debygol o ddigwydd ac yn adnabod cyf-res eang o fesurau lliniaru. Byddai cais yr ymgeisydd i gyflwyno CEMP a CTMPs ar gyfer pob pecyn gwaith penodol angen dogfennau rheoli manwl wedi'u cymeradwyo cyn dechrau, felly'n galluogi trefniadau monitro sŵn, manylebau rhwystr acwstig, cyfyngiadau oriau gweithio, rheol-aethau dirgrynu, strategaethau cyfathrebu a gofynion Adran 61 i'w cytuno ar gam manylach.

5.118 Er bod y DA yn adnabod effeithiau sŵn a dirgryniad sylweddol posib, ystyrir bod mecan-weithiau priodol ar gael drwy amodau cynllunio i sicrhau mesurau lliniaru a rheoli manwl cyn i'r gwaith adeiladu ddechrau.

5.119 Serch hynny, mae'r ACLI yn ystyried mai dyma yw un o'r materion fwyaf amgylcheddol sen-sitif sy'n gysylltiedig â'r datblygiad a byddai angen craffu gofalus wrth gael gwared ar unrhyw amodau yn y dyfodol.

5.120 Mae sylwadau a dderbyniwyd gan y Gwasanaeth Gwarchod y Cyhoedd ynghylch y cynllun lliniaru pypiau llifogydd arfaethedig yn nodi pryderon posib sy'n ymwneud â'r diffyg gwybod-aeth sydd ar gael i asesu effaith y sŵn sy'n codi o weithredu'r pypiau a generaduron cysyllt-iedig. Mae'r Gwasanaeth yn nodi nad yw'r wybodaeth a gyflwynwyd yn cynnwys rhagolygon sŵn sy'n benodol i dderbynyddion, asesiadau cronus, asesiadau tonyddol neu dystiolaeth sy'n dangos y byddai'r lliniaru acwstig arfaethedig yn cyrraedd lefelau sŵn derbyniol.

5.121 Fel y manylir o fewn yr adran Hydroleg, Adnoddau Dŵr a Risg Llifogydd o'r adroddiad hwn, mae bwriad i'r pypiau lliniaru llifogydd arfaethedig fod yn destun cais cynllunio ar wahân. Mae'r ymgeisydd wedi cadarnhau y bydd y cais yn y dyfodol yn cael ei gefnogi gan atodiad y DA ac asesiad sŵn llawn o'r gosodiadau pwmpio. Yn unol â hynny, mae pryderon y Gwasanaeth Gwarchod y Cyhoedd yn ymwneud â derbynioldeb y gosodiadau pwmpio eu hunain yn y dyfodol yn hytrach na'r casgliadau modelu llifogydd sydd wedi'u cynnwys yn y Diweddariad Asesiad Canlyniadau Llifogydd a Phennod 8 diwygiedig.

5.122 I'r perwyl hwn, ystyried bod y cais yn dderbyniol ac yn cydymffurfio â gofynion Polisi PCYFF 2 y CDLI, yn ddarostyngedig i gymeradwyo a gweithredu cynlluniau rheoli manwl a mesurau lliniaru wedi'u sicrhau drwy amodau cynllunio.

PWYLLGOR CYNLLUNIO	DYDDIAD: 28/09/2026
ADRODDIAD Y PENNAETH ADUAN CYNORTHWYOL	

Ansawdd Aer a llwch

- 5.123 Mae'r asesiad o ansawdd aer ac allyriadau sy'n gysylltiedig â Cheblau Glaslyn newydd wedi'i gynnwys ym Mhennod 10 y DA. Mae'r asesiad yn ystyried gwaith datgomiynu ceblau, cloddio toriad agored, croesfannau HDD, compowndiau dros dro, ffyrdd cludo, ardaloedd storio materol a gweithgareddau adfer. Cafodd oddeutu 2,575 derbynyddion sensitif a 4 safle ecolegol dynodedig cenedlaethol eu nodi o fewn ardal yr asesiad.
- 5.124 Mae'r asesiad yn adnabod bod gan waith daear, dymchwel, gweithgareddau adeiladu a symudiadau cerbydau'r posibilrwydd i gynhyrchu allyriadau llwch sylweddol yn absenoldeb lliniaru. Fodd bynnag, cynigir pecyn cynhwysfawr o fesurau lliniaru i reoli effeithiau ar dderbynyddion cyfagos.
- 5.125 Fel y nodwyd eisoes, nid yw'r CEMP a CTMP Gwaith Galluogi sydd wedi'u cyflwyno yn cynnwys y prif waith gosod ceblau a datgomiynu. Bydd angen CEMP a CTMP sy'n benodol i'r safle ar wahân drwy amod cyn dechrau'r gwaith Ceblau Glaslyn.
- 5.126 Mae lliniaru a nodwyd o fewn y DA yn cynnwys:
- Gweithdrefnau cysylltu a chyfathrebu â rhanddeiliaid.
 - Monitro llwch a chyfundrefnau archwilio rheolaidd.
 - Defnyddio dŵr i atal llwch mewn ardaloedd adeiladau, ffyrdd cludo a phentyrrau stoc.
 - Gorchuddio, sefydlogi a rheoli pentyrrau stoc.
 - Adfer blaengar ac ailgydio tir sydd wedi'i aflonyddu.
 - Golchi olwynion ac ysgubo ffyrdd fel nad oes gwaddodion yn cael eu cario o'r safle.
 - Sgipiau wedi'u gorchuddio, cerbydau wedi'u gorchuddio a thrin mân ddeunyddiau yn gaeedig.
 - Defnyddio rheolaethau ac offer allyriadau isel ar injan cerbydau.
- 5.127 Daw'r DA i'r casgliad y byddai effeithiau gweddilliol yn ddibwys ac yn ansylweddol.
- 5.128 I'r perwyl hwn, ystyrir bod y bwriad yn dderbyniol ac yn cydymffurfio â gofynion polisi PCYFF 2 y CDLI ar y Cyd.

Materion ecolegol a bioamrywiaeth

- 5.129 Mae'r prif effeithiau ecolegol sy'n gysylltiedig â llwybr y cebl ei hun yn cael eu hasesu ym Mhennod 5 y DA a'u diweddarau drwy'r Atodiad Datganiad Amgylcheddol (Gorffennaf 2026).
- 5.130 Mae llwybr y datblygiad yn mynd drwy goridor ecolegol sensitif sy'n cynnwys SoDdGA Glaslyn, Gwarchodfa Natur NWWT Traeth Glaslyn, cynefinoedd sy'n amddiffyn rhywogaethau gwarchodedig ac ardaloedd estynedig o Gors Bori a Gorfelfdir Arfordirol, glaswelltir corsiog a chynefinoedd gwlyptirol cysylltiedig. Mae'r DA wedi nodi bod y mwyafrif o'r llwybr wedi'i ddylunio i osgoi effeithiau uniongyrchol drwy ddefnyddio Drilio Cyfeiriadol Llorweddol (HDD), gan alluogi ceblau i basio dan y mwyafrif o'r SoDdGA a chynefinoedd cysylltiedig.
- 5.131 Mae Atodiad y DA, Gorffennaf 2026, yn darparu rhagor o wybodaeth ynghylch effeithiau SoDdGA Glaslyn a'r pecyn Budd Net i Fioamrywiaeth arfaethedig. Mae'r Atodiad hwn yn cadarnhau:

PWYLLGOR CYNLLUNIO	DYDDIAD: 28/09/2026
ADRODDIAD Y PENNAETH ADRAN CYNORTHWYOL	

- Tarfu dros dro ar oddeutu 1.6ha o laswelltir corsiog o fewn SoDdGA Glaslyn sy'n ymwneud â'r compownd HDD.
- Colli oddeutu 436.8m² o gynefinoedd yn barhaol sy'n gysylltiedig â'r pedwar blwch cyswllt a bwndiau.
- Effeithiau lleol dros dro sy'n gysylltiedig â phyllau monitro.
- Mesurau adfer cynefinoedd, trin pridd a digolledu bioamrywiaeth ychwanegol.

5.132 Tra bo'r DA, yn wreiddiol, wedi nodi effeithiau andwyol sylweddol sy'n ymwneud â physgod mudol sy'n codi o groesfannau cwrs dŵr, cylfatiau dros dro a rhwystrau taith pysgod, mae Pen-nod 5 Adran 5.10 yn cyflwyno mesurau lliniaru ychwanegol gan gynnwys achub pysgod, systemau pwmpio pysgod-gyfeillgar, dyluniad cylfat lle mae modd i bysgod fynd heibio, cyfyngiadau tymhorol a goruchwyliaeth ecolegol. Yn dilyn gweithredu'r mesurau hyn, mae effeithiau gweddilliol yn lleihau i fân andwyol ac ansylweddol.

5.133 Mae'r Atodiad hefyd yn argymhell lliniaru, gan gynnwys:

- Arolygon botanegol manwl cyn cychwyn o fewn SoDdGA Glaslyn.
- Goruchwyliaeth gan Glerc Gwaith Ecolegol.
- Cynlluniau Rheoli INNS pwrpasol.
- Methodolegau storio pridd ac adfer manwl.
- Technegau adfer cynefinoedd.
- Rhaglen gwella a stiwardiaeth bioamrywiaeth hirdymor wedi'i gyflawni gydag Ymddiriedolaeth Afonydd Gogledd Cymru.

5.134 Mae sylwadau gan CNC yn canolbwyntio'n bennaf ar effaith y datblygiadau ar SoDdGA Glaslyn. Mae CNC yn cydnabod y wybodaeth ychwanegol a ddarparwyd drwy Atodiad y DA ac erbyn hyn, mae'n derbyn bod modd ymdrin â'r effeithiau drwy fesurau lliniaru ac amodau priodol. Mae'r wybodaeth sydd ei hangen drwy amod yn cynnwys:

- Arolwg botanegol cyn cychwyn.
- Cynllun Rheoli a Monitro Cynefinoedd.
- Cynllun Rheoli INNS.
- Methodolegau tynnu pridd, storio ac adfer manwl.
- Rheolaethau CEMP o fewn y SoDdGA.
- Trefniadau rheoli a monitro hirdymor.

5.135 Er bod CNC wedi derbyn y strategaeth lliniaru arfaethedig, mae Swyddog Bioamrywiaeth y Cyngor wedi codi pryderon ynghylch sicrwydd hirdymor y mesurau adfer a gwneud iawn mewn perthynas â'r cynefinoedd. Yn benodol, nodir tra bo modd adfer cynefinoedd, mae'r gwaith adfer ecolegol yn debygol o gymryd llawer mwy o amser na'r cyfnodau tybiedig o fewn rhannau o'r asesiad a gyflwynwyd.

5.136 Mae'r Swyddog Bioamrywiaeth hefyd wedi nodi'r angen am drefniadau diogelu ychwanegol i sicrhau effeithiolrwydd mesurau lliniaru a digolledu. Mae'r rhain yn cynnwys arolygon botanegol cyn adeiladu ar gyfer rhywogaethau planhigion gwarchodedig a nodedig, mesurau amddiffyn a thrawsleoli pan fo angen, goruchwyliaeth ecolegol yn ystod y cyfnod adeiladu, cyfyngiadau amser i leihau aflonyddwch ar adar o fewn SoDdGA Glaslyn, a mesurau atal llygredd ac amddiffyn ansawdd dŵr cadarn sy'n gysylltiedig â chroesfannau cwrs dŵr. Gall hefyd fod angen gwaith arolwg a lliniaru pellach ar gyfer rhywogaethau, gan gynnwys llygod pengrwn y dŵr a moch daear.

PWYLLGOR CYNLLUNIO	DYDDIAD: 28/09/2026
ADRODDIAD Y PENNAETH ADRAN CYNORTHWYOL	

5.137 Mae'r Atodiad yn cynnwys cynigion ar gyfer Rhaglen Gwella a Stiwardiaeth Bioamrywiaeth y Dalgylch 25-mlynedd i'w darparu gan Ymddiriedolaeth Afonydd Gogledd Cymru. Mae'r rhaglen yn cynnwys gwella ac adfer cynefinoedd o fewn y dalgylch ehangach, rheoli rhywogaethau ymledol, gwelliannau cynefin gorlifdir, creu coetir cynhenid, sefydlu glaswelltir sy'n gyforiog o rywogaethau, plannu gwrychoedd a monitro ecolegol hirdymor. Mae'r Swyddog Bioamrywiaeth yn croesawu egwyddor y dull hwn ac yn ei ystyried yn ffafriol i'r cyfnodau rheoli byrrach a gynigiwyd yn wreiddiol.

5.138 Cydnabyddir y bydd effaith uniongyrchol ar SoDdGA Glaslyn a chynefinoedd cysylltiedig, ond mae'r DA ac Atodiad Gorffennaf 2026 yn dangos bod dull dilyniannol o osgoi, lleihau, lliniaru a digolledu wedi cael ei ddefnyddio. Mae HDD wedi'i ddefnyddio'n eang i osgoi effeithiau uniongyrchol, ac mae pecyn sylweddol o fesurau adfer cynefinoedd a gwella bioamrywiaeth wedi'i gynnig.

5.139 Yn unol â hynny, yn amodol ar sicrhau'r mesurau lliniaru a digolledu a nodwyd yn y DA, yr Atodiad ac ymateb CNC, ystyrir bod modd i'r cynnig gydymffurfio â Pholisïau PS 19, AMG 4 ac AMG 5, ynghyd â gofynion PCC ar gyfer gwella bioamrywiaeth yn Adran 6.

Tir amaethyddol

5.140 Mae prif lwybr y cebl yn mynd drwy ystod o briddoedd amaethyddol, gan gynnwys priddoedd priddgleis a chlai ar wastadeddau arfordirol, priddoedd llifwaddodol halwynog a phriddoedd priddgleis sy'n draenio'n rhydd dros garreg. Mae'r DA yn nodi sawl effaith sy'n ymwneud ag adeiladu ar briddoedd a thir amaethyddol sy'n gysylltiedig â chloddio ceblau, stripio uwchbridd, pentyrru stoc, compowndiau dros dro, traciau mynediad, gwaith draenio a gweithgareddau datgomiynu.

5.141 Mae'r asesiad yn nodi aflonyddwch dros dro yn y senario mwyaf difrifol o oddeutu 1.87ha o'r tir amaethyddol Gorau a Mwyaf Aml-bwrpas (BMV) (Is-radd 3a). Mae effeithiau posib yn cynnwys:

- Colli tir amaethyddol dros dro yn ystod y cyfnod adeiladu;
- Difrodi strwythur y pridd drwy stripio a thrin;
- Cymysgu gorwelion isbridd ac uwchbridd;
- Erydiad pridd o arwynebau a phentyrrau stoc agored;
- Cywasgu yn cael ei achosi gan draffig adeiladu;
- Newidiadau i nodweddion lleithder pridd a hydroleg lleol; a
- Llai o ymdreiddiad a mwy o ddŵr wyneb ffo lle mae priddoedd yn cael eu cywasgu.

5.142 Mae'r DA yn cynnig ystod o fesurau lliniaru, gan gynnwys paratoi Cynllun Rheoli Pridd, storio isbridd ac uwchbridd ar wahân, lleihau cyfnodau trin a storio, adfer priddoedd i'w proffiliau gwreiddiol a rheoli symudiadau cerbyd ar draws tir amaethyddol. Bydd priddoedd sy'n cael eu cloddio yn cael eu hailddefnyddio pan fo'n addas a'u rheoli drwy weithdrefnau rheoli deunyddiau a nodwyd yn y CEMP.

5.143 Daw'r asesiad i'r casgliad, gyda mesurau lliniaru ar waith, na fyddai unrhyw leihad mesuradwy yn ansawdd y pridd. Mae effeithiau sy'n codi o drin, storio, cywasgu ac aflonyddu pridd yn cael eu hasesu fel rhai mân, tra bo'r tynnu tir amaethyddol yn ei ôl o gynhyrchu dros dro yn cael ei asesu fel rhywbeth sy'n arwain at ychydig o effaith i effeithiau dibwys andwyol. Felly, ystyrir bod yr holl effeithiau gweddilliol yn ansylweddol.

- 5.254 Mae CNC wedi argymhell ystod o fesurau i gael eu sicrhau drwy amodau cynllunio a chynlluniau rheoli, gan gynnwys arolygon cyn adeiladu lle bo angen, goruchwyliaeth ecolegol, mesurau adfer cynefinoedd a'r trefniadau rheoli a monitro hirdymor a nodwyd yn y DA a'r Atodiad dilynol.
- 5.255 Mae cynigion Minffordd wedi'u cynllunio'n benodol i leihau effeithiau ecolegol trwy fabwysiadu dulliau gosod HDD, ardaloedd gwaith cyfyngedig, mesurau osgoi cynefinoedd ac arferion adeiladu sensitif. Cynigir mesurau lliniaru bioamrywiaeth, gwella cynefinoedd a stiwardiaeth hirdymor ychwanegol drwy'r pecyn Budd Net i Fioamrywiaeth sydd wedi'i ddiweddarau a'r Cynllun Rheoli Tirwedd ac Ecolegol Amlinellol.
- 5.256 Nododd Swyddog Bioamrywiaeth yr Awdurdod Cynllunio Lleol mai effeithiau posib ar ystlumod pedol lleiaf yw'r prif fater ecolegol sy'n gysylltiedig ag elfen Minffordd o'r cynllun. Codwyd pryder arbennig ynglŷn â cholli coed a gwrychoedd posib a allai gyfrannu at rwydweithiau cymudo a fforio ystlumod, ynghyd ag effeithiau posib goleuadau artiffisial sy'n gysylltiedig â'r compownd HDD a chyfnodau o weithio yn ystod y nos. Roedd y Swyddog Bioamrywiaeth o'r farn bod angen gwybodaeth ychwanegol ynghylch llinellau hedfan ystlumod, cysylltedd cynefinoedd ac effeithiau goleuo.
- 5.257 Mae'r materion hyn wedi cael eu hystyried wedyn drwy Asesiad Priodol yr Awdurdod Cynllunio Lleol a gynhaliwyd o dan y Rheoliadau Cadwraeth Cynefinoedd a Rhywogaethau (HRA). Ymgynghorwyd â CNC ar yr Asesiad Priodol ac ni wrthwynebodd ei gasgliadau, yn amodol ar weithredu mesurau lliniaru ac amodau cynllunio.
- 5.258 Er bod y Swyddog Bioamrywiaeth yn parhau i fod yn bryderus ynghylch pwysigrwydd coridorau coediog, gwrychoedd a chysylltedd tirwedd ehangach ar gyfer ystlumod pedol lleiaf, ystyrir y gellir mynd i'r afael â'r materion hyn yn briodol trwy reolaethau lliniaru a chynllunio. Yn benodol, dylid sicrhau strategaeth oleuo fanwl yn ôl amod, gan gynnwys modelu goleuadau, manylion lefel lwcs a chynlluniau amlinell gorlif golau. O ystyried casgliadau'r Asesiad Priodol ac ymateb CNC i'r ymgynghoriad, ystyrir na fyddai'r cynnig yn effeithio'n andwyol ar gyfanrwydd ACA Coedydd Derw a Safleoedd Ystlumod Meirion ac y gellir lliniaru'r effeithiau ecolegol sy'n gysylltiedig â gwaith Minffordd yn foddhaol.
- 5.259 Yn amodol ar weithredu'r mesurau lliniaru a nodir ym Mhennod 5 o'r DA, yr ymrwymadau ychwanegol a gynhwysir yn Atodiad Datganiad Amgylcheddol Gorffennaf 2026, mae'r

PWYLLGOR CYNLLUNIO	DYDDIAD: 28/09/2026
ADRODDIAD Y PENNAETH ADRAN CYNORTHWYOL	

Awdurdod Cynllunio Lleol o'r farn bod y cynnig yn cyd-fynd â Pholisïau PS 5, PS 19, AMG 4 ac AMG 5 o'r Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd a Pholisi Cynllunio Cymru.

Tir amaethyddol

- 5.260 Mae'r DA yn nodi'r ardal hon fel y lleoliad lle byddai'r effeithiau parhaol mwyaf nodedig ar dir amaethyddol yn digwydd. Mae'r asesiad yn dangos y gallai adeiladu'r CSECs a'r seilwaith cysylltiedig effeithio'n barhaol ar oddeutu 0.2ha o'r tir amaethyddol gorau a mwyaf amlbwrpas (BMV). Byddai effeithiau dros dro ychwanegol yn deillio o dynnu pridd, stocio, compowndiau adeiladu, llwybrau mynediad a gwaith adfer.
- 5.261 Mae'r priddoedd yn yr ardal hon yn cael eu disgrifio fel priddoedd cleiog sy'n draenio'n rhydd a phriddoedd llifwaddodol sy'n gallu adfer ar ôl gwaith adeiladu. Fel mewn mannau eraill ar hyd y llwybr, mae effeithiau posib yn cynnwys cywasgu pridd, colli strwythur pridd, aflonyddu ar broffiliau pridd a gostyngiadau dros dro mewn cynhyrchiant amaethyddol. Byddai lliniaru yn cael ei gyflawni trwy'r CEMP a'r Cynllun Rheoli Pridd, gan gynnwys trin pridd yn ofalus, storio gorwelion pridd ar wahân, mynediad cerbydau dan reolaeth ac adfer tir yr aflonyddwyd arno.
- 5.262 Daw'r DA i'r casgliad bod colli oddeutu 0.2 ha o dir BMV yn barhaol yn cynrychioli effaith maint isel ar adnodd o sensitifrwydd canolog, gan arwain at effaith ychydig yn andwyol nad yw'n sylweddol. Asesir yr effeithiau ar dir amaethyddol gradd is fel rhai dibwys. Ar ôl lliniaru ac adfer, ystyrir bod yr effeithiau gweddilliol ar ansawdd y pridd hefyd ychydig yn andwyol ac nid yn sylweddol.
- 5.263 Yn nhermau polisi, mae'r DA yn cydnabod sensitifrwydd tir BMV ond yn dod i'r casgliad bod maint y golled barhaol wedi'i leihau ac y byddai'r rhan fwyaf o'r tir amaethyddol yr effeithir arno yn cael ei adfer ar ôl adeiladu. Felly, mae'r asesiad yn dod i'r casgliad na fyddai'r cynllun yn arwain at niwed sylweddol i adnoddau tir amaethyddol ac mae'n parhau i fod yn gyson ag egwyddorion PCC paragraff 3.58 ynghylch diogelu priddoedd a thir amaethyddol BMV.
- 5.264 O ystyried natur linol y seilwaith a'r gofyniad arno i gysylltu'r seilwaith trydan presennol rhwng y Wern a Minffordd/Garth, mae angen gweithredol amlwg dros y llwybr. Ar ben hynny, mae'r DA yn dangos y byddai'r effeithiau ar dir BMV yn rhai dros dro, yn lleol ac yn gallu adsefydlu, heb unrhyw golled weithredol o gynhyrchiant amaethyddol yn cael ei rag-weld ar ôl ei adfer.
- 5.265 Felly, ystyrir bod y cynnig yn cyd-fynd ag amcanion paragraffau 3.58 a 3.59 PCC ac yn cydymffurfio â Maen Prawf 6 Polisi PS 6 y Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd.

Archeoleg a threftadaeth ddiwylliannol

- 5.266 Mae'r asesiad o effeithiau amgylcheddol hanesyddol sy'n gysylltiedig â THH Minffordd, CSEC Minffordd a chael gwared ar CSEC Garth wedi'i gynnwys ym Mhennod 6 o'r DA. Mae'r asesiad yn ystyried effeithiau adeiladu ar olion archeolegol ynghyd ag effeithiau ar leoliad asedau treftadaeth dynodedig a heb eu dynodi gerllaw.
- 5.267 Daw'r DA i'r casgliad bod y gwaith hwn wedi'i leoli o fewn ardal sydd eisoes wedi'i dylanwadu gan seilwaith presennol y Grid Cenedlaethol, gweithgaredd chwarela a gwaith EVIP a gymeradwywyd yn flaenorol ac na fyddai'n effeithio'n sylweddol ar arwyddocâd asedau treftadaeth dynodedig gerllaw. Nodir bod cael gwared ar CSEC Garth yn cael effaith fuddiol trwy gael gwared ar seilwaith o'r dirwedd.

PWYLLGOR CYNLLUNIO	DYDDIAD: 28/09/2026
ADRODDIAD Y PENNAETH ADRAN CYNORTHWYOL	

5.268 Mae effeithiau dros dro ar leoliad, sy'n gysylltiedig ag adeiladu, wedi'u nodi ar gyfer nifer o asedau treftadaeth nad ydynt wedi'u dynodi gan gynnwys:

- Capel Minffordd (PRN 68404)
- Tŷ ac Adeiladau Allanol ym Mhen-y-craig (PRN 27317)
- Adeilad i'r De-orllewin o Lloc-Meirig (PRN 27321)
- Fferm Penamser (PRN 25424)
- Fferm allanol I'r De-orllewin o Fferm Penamser (PRN 25425)

5.269 Daw'r DA i'r casgliad y byddai'r effeithiau hyn yn rhai dros dro, yn ddibwys o ran maint ac nid yn sylweddol.

5.270 Er na ragwelir olion archeolegol sylweddol, mae Heneb wedi cynghori y dylai monitro archeolegol fod yn rhan o'r rhaglen liniaru ehangach lle mae gan waith paratoi'r tir y potensial i effeithio ar nodweddion a gofnodwyd neu olion nas nodwyd o'r blaen.

5.271 Mae mesurau lliniaru yn cynnwys:

- Paratoi a gweithredu Cynllun Ymchwilio Ysgrifenedig y cytunwyd arno gyda Heneb.
- Monitro archeolegol o waith paratoi tir dethol.
- Cofnodi ac adrodd ar olion archeolegol a ddarganfuwyd yn ystod y gwaith adeiladu.
- Ystyried dyluniad, graddfa, deunyddiau, goleuo a sgrinio yn nyluniad terfynol y seilwaith.

5.272 Mae'r amod hon a argymhellir ac a nodir uchod yn berthnasol i'r gwaith hwn er mwyn sicrhau bod rhaglen briodol o waith lliniaru archeolegol yn cael ei gweithredu yn unol â Pholisi Cynllunio Cymru a NCT 24.

5.273 Yn ddarostyngedig i'r amod a argymhellir, ystyrir bod yr effeithiau ar yr amgylchedd hanesyddol wedi cael eu hasesu'n briodol ac y gellir eu rheoli yn unol â gofynion Polisiâu PS 20 ac AT 1 y CDLI ar y Cyd a'r arweiniad sydd wedi'i gynnwys o fewn NCT 24.

Ystyriaethau perthnasol eraill

5.274 Ystyrir bod yr ystyriaethau materol a ganlyn yn berthnasol i'r datblygiad yn ei gyfanrwydd:

Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd

5.275 Mae'r ymgeisydd wedi darparu Adroddiad i Lywio'r HRA (DA Cyfrol 8 Atodiad 7.1.B). Mae'r asesiad yn dilyn proses Sgrinio (Effeithiau Sylweddol Tebygol) y Rheoliadau Cynefinoedd a, lle bo angen, Asesiad Priodol ar holl Brosiect atgyfnerthu Pentir i Drawsffynnydd.

5.276 Fel yr awdurdod cymwys dan reoliad 63 o Reoliadau Cadwraeth Cynefinoedd a Rhywogaethau 2017 (fel y'u diwygiwyd), mae'n rhaid i ACLI Gyngor Gwynedd gynnal Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd (HRA), cyn penderfynu rhoi caniatâd ar gyfer prosiect sy'n debygol o gael effaith sylweddol ar ddynodiadau.

PWYLLGOR CYNLLUNIO	DYDDIAD: 28/09/2026
ADRODDIAD Y PENNAETH ADRAN CYNORTHWYOL	

1. Asesiad Sgrinio HRA

Gwiriwch a yw'r cynnig yn debygol o gael effaith sylweddol ar amcanion cadwraeth y safle.
A yw'r cynnig:

- yn uniongyrchol gysylltiedig gyda, neu'n angenrheidiol ar gyfer, rheoli cadwraeth safle Ewropeaidd
- mewn perygl o gael effaith sylweddol ar safle Ewropeaidd ar ei ben ei hun neu ar y cyd â chynigion eraill

Roedd DA Cyfrol 8 Atodiad 7.1.B yn dynodi nifer o safleoedd Ewropeaidd o fewn Parth Dylanwad cynllun Glaslyn, yn cynnwys ACA Coedydd Derw a Safleoedd Ystlumod Meirion, ACA Pen Llŷn a'r Sarnau, AGA Gogledd Bae Ceredigion, ACA Morfa Harlech a Morfa Dyffryn, ACA Corsydd Eifionydd, ACA Rhinog, AGA Migneint-Arenig-Dduallt, ACA Glynllifon ac ACA Mwyngloddiau Fforest Gwydyr.

Mae gan weithgareddau adeiladu y potensial i gynhyrchu sŵn, aflonyddwch gweledol, llwch, aflonyddwch dros dro i gynefinoedd a cholli llystyfiant i raddau cyfyngedig.

Yn achos ACA Coedydd Derw a Safleoedd Ystlumod Meirion, mae rhannau o gynllun Glaslyn wedi'u lleoli o fewn ffin yr ACA ac o fewn Parth Cynhaliaeth Craidd 2 km yr ystlumod pedol lleiaf. Cadarnhaodd arolygon weithgaredd cymudo a fforio gan ystlumod pedol lleiaf o fewn y coridor gwaith. Felly, mae sŵn adeiladu, goleuadau a rheoli llystyfiant yn debygol o greu llwybr o aflonyddwch ac effeithiau ar gynefin sydd wedi'i gysylltu'n swyddogaethol. Bwriedir gwneud gwaith dros dro hefyd o fewn ardaloedd o goetir llifwaddodol sy'n gysylltiedig â chynefinoedd ACA cymwys, ac mae rhannau o'r ACA yn bodoli o fewn 50 m o weithgareddau adeiladu lle gallai dyddodiad llwch ddigwydd. O ganlyniad, ni ellid diystyru Effeithiau Sylweddol Tebygol mewn perthynas â sŵn ac aflonyddwch gweledol, colli neu ddifrodi cynefin sydd wedi'i gysylltu'n swyddogaethol, colled neu ddifrod dros dro i gynefin cymwys a dyddodiad llwch. Cafodd y llwybrau hyn eu sgrinio i mewn i'r Asesiad Priodol.

Mae ACA Pen Llŷn a'r Sarnau tua 540 m i'r de o waith Glaslyn ac mae'n cynnwys dyfrgwn fel nodwedd gymwys. Cofnododd arolygon weithgarwch dyfrgwn o fewn ardal ehangach y cynllun, gan gynnwys baw dyfrgwn, safle gorffwys posib a gwâl bosib sy'n gysylltiedig â dalgylch afon Glaslyn. Mae gan weithrediadau HDD a gweithgareddau adeiladu eraill y potensial i greu aflonyddwch ger cysiau dŵr a ddefnyddir gan ddyfrgwn. Yn ychwanegol, mae cysylltiad hydrolegol rhwng y gwaith a'r ACA trwy afon Glaslyn. O ganlyniad, ni ellir diystyru Effeithiau Sylweddol Tebygol mewn perthynas â sŵn ac aflonyddwch gweledol, effeithiau ar ansawdd dŵr ac anaf neu farwolaeth posib dyfrgwn yn ystod y gwaith adeiladu.

Mae AGA Gogledd Bae Ceredigion wedi'i dynodi oherwydd y trochydd gyddfgoch sy'n gaeafu ac mae wedi'i lleoli tua 2.94 km o waith Glaslyn. Mae'r rhywogaeth yn gysylltiedig â chynefinoedd morol ac arfordirol, ac mae'r gwaith yn bennaf yn fewndirol. Nid oes unrhyw lwybr aflonyddwch realistig wedi'i nodi, ac mae Effeithiau Sylweddol Tebygol wedi'u heithrio.

Ni ellir nodi unrhyw lwybrau credadwy sy'n cysylltu gwaith Glaslyn â nodweddion cymwys ACA Morfa Harlech a Morfa Dyffryn, ACA Corsydd Eifionydd, ACA Rhinog ac AGA Migneint-Arenig-Dduallt. Felly, mae Effeithiau Sylweddol Tebygol wedi'u heithrio.

Er bod ACA Glynllifon ac ACA Mwyngloddiau Fforest Gwydyr wedi'u dynodi am ystlumod pedol lleiaf, mae'r ddau safle wedi'u lleoli ymhell y tu hwnt i'r pellteroedd Parth Cynhaliaeth Craidd perthnasol o waith Glaslyn. Ni nodir unrhyw lwybr realistig ar gyfer aflonyddwch, colli cynefin neu ddifrod i gynefin cynhaliol ac mae Effeithiau Sylweddol Tebygol wedi'u diystyru.

Fel yr awdurdod cymwys o dan reoliad 63 o Reoliadau Cadwraeth Cynefinoedd a Rhywogaethau 2017 (fel y'u diwygiwyd), mae'r ACLI yn cytuno â'r canfyddiadau hyn a bod angen Asesiad Priodol ar gyfer y llwybrau effaith a ganlyn:

PWYLLGOR CYNLLUNIO	DYDDIAD: 28/09/2026
ADRODDIAD Y PENNAETH ADRAN CYNORTHWYOL	

ACA Coedydd Derw a Safleoedd Ystlumod Meirion:

- Sŵn ac aflonyddwch gweledol.
- Colli neu ddifrodi cynefin sydd wedi'i gysylltu'n swyddogaethol.
- Colled neu ddifrod dros dro i gynefin cymwys.
- Dyddodiad llwch adeiladu.

ACA Pen Llŷn a'r Sarnau:

- Sŵn ac aflonyddwch gweledol.
- Effeithiau ar ansawdd dŵr.
- Anaf neu farwolaeth dyfrgwn.

Y casgliad cyffredinol o'r sgrinio yw na ellir diystyru Effeithiau Sylweddol Tebygol ar ACA Coedydd Derw a Safleoedd Ystlumod Meirion, ac ACA Pen Llŷn a'r Sarnau, a bod angen Asesiad Priodol, tra na ragwelir unrhyw Effeithiau Sylweddol Tebygol ar unrhyw safle Ewropeaidd arall mewn perthynas â Gwaith Ceblau Glaslyn.

2. HRA – Asesiad Priodol

Asesu effeithiau sylweddol tebygol y cynnig yn fanylach a nodi ffyrdd o osgoi neu leihau unrhyw effeithiau.

Nodwedd ac Amcan Cadwraeth y Safle	Effaith Bosib	Asesiad	Mesurau lliniaru perthnasol a chasgliad
ACA Coedydd Derw a Safleoedd Ystlumod Meirion Mae'r ACA wedi'i ddynodi am: • Ystlum pedol lleiaf (<i>Rhinolophus hipposideros</i>). • Hen goetir derw mes di-goes. • Coetir llifwaddodol. • Cynefinoedd coetir cymwys cysylltiedig. Yr amcanion cadwraeth perthnasol yw: • Cynnal poblogaeth yr ystlum pedol lleiaf a'i gynefin fforio a chymudo	Mae Gwaith Glaslyn wedi'i leoli'n rhannol o fewn yr ACA ac o fewn y Parth Cynhaliaeth Craidd 2 km ar gyfer ystlumod pedol lleiaf. Mae'r effeithiau posib a nodwyd trwy sgrinio yn cynnwys: • Aflonyddu ar ystlumod sy'n fforio a chymudo yn sgil gweithgarwch adeiladu, goleuadau a sŵn. • Colli neu ddifrodi cynefin sydd wedi'i gysylltu'n swyddogaethol. • Tarfu dros dro ar gynefin coetir cymwys. • Dyddodiad llwch ar gymunedau llystyfiant a	Mae arolygon ystlumod yn cadarnhau gweithgarwch ystlumod pedol lleiaf o fewn coridor y gwaith, ond ni nodwyd unrhyw glwydfannau ystlumod cymwys o fewn coed yr effeithir arnynt yn uniongyrchol gan y cynllun. Mae prif werth ecolegol yr ardal yn cael ei nodi fel cynefin cymudo a fforio yn hytrach na chynefin clwydo. Mae'r cynllun wedi'i ddylunio i osgoi effeithiau uniongyrchol ar goetir hynafol a chynefinoedd cymwys lle bynnag y bo modd. Bydd y traciau mynediad	• Gweithio yn ystod y dydd lle bynnag y bo'n ymarferol. • Defnyddio goleuadau sy'n sensitif i ystlumod. • Goleuadau cyfeiriadol gyda chysgodi i leihau gorlif golau. • Cadw coridorau cymudo a fforio allweddol. • Arolygon ystlumod cyn adeiladu. • Clerc Gwaith Ecolegol (ECOW). • O leiaf 15 m o bellter clustogi o amgylch coed addas a gedwir. • Plannu coetir yn lle'r coetir a gollir yn barhaol. • Cynllun Rheoli

PWYLLGOR CYNLLUNIO	DYDDIAD: 28/09/2026
ADRODDIAD Y PENNAETH ADRAN CYNORTHWYOL	

cynhaliol. - Cynnal ehangder, strwythur a swyddogaeth cynefinoedd coetir cymwys. - Cynnal cysylltedd cynefin a chyfleoedd clwydo. - Atal aflonyddwch a allai effeithio ar boblogaethau ystlumod neu gyflwr cynefinoedd.	choetir cymwys.	presennol yn cael eu defnyddio a bydd ceblau sydd ar hyn o bryd mewn ardaloedd coetir sensitif yn aros lle maent pan fyddai cael gwared arnynt yn achosi mwy o ddifrod ecolegol. Mae colli'r coetir sy'n gysylltiedig ag estyniad CSEC y Wern yn gyfyngedig o ran graddfa ac nid yw'n cynrychioli cyfran sylweddol o'r cynefin fforio sydd ar gael o fewn yr ACA. Daeth yr Asesiad Ansawdd Aer i'r casgliad y byddai effeithiau llwch adeiladu yn ddibwys gyda rheolaethau priodol ar waith ac na fyddai'n effeithio ar gyfanrwydd cynefinoedd cymwys.	Llwch a mesurau atal llwch adeiladu. Gweithredu CEMP trwy gydol y gwaith adeiladu. Yn amodol ar weithredu'r mesurau lliniaru a nodwyd uchod, ni fydd unrhyw effaith andwyol ar gyfanrwydd ACA Coedydd Derw a Safleoedd Ystlumod Meirion. Bydd yr amcanion cadwraeth ar gyfer ystlumod pedol llai, cynefinoedd coetir a nodweddion cymwys cysylltiedig yn cael eu cynnal.
ACA Pen Llŷn a'r Sarnau Mae'r ACA wedi'i dynodi am ystod o gynefinoedd a rhywogaethau morol. Y nodweddion sy'n berthnasol i Waith Glaslyn yw: - Dyfrgwn (<i>Lutra lutra</i>). - Cefnogi cynefin dŵr croyw a glannau a ddefnyddir gan ddyfrgwn. Yr amcanion cadwraeth perthnasol yw: - Cynnal poblogaeth	Roedd yr effeithiau posib a nodwyd trwy sgrinio yn cynnwys: - Sŵn ac aflonyddwch gweledol sy'n gysylltiedig â gweithrediadau HDD a gwaith adeiladu. - Effeithiau ar ansawdd dŵr sy'n deillio o weithgareddau adeiladu yn nalgylch afon Glaslyn. - Anafiadau neu farwolaethau sy'n gysylltiedig â chloddio wrth adeiladu ac ardaloedd gwaith.	Nododd arolygon dyfrgwn dystiolaeth o weithgarwch dyfrgwn o fewn ardal ehangach y cynllun, gan gynnwys baw, olion traed, safle gorffwys posib a gwâl bosib sy'n gysylltiedig ag afon Glaslyn a chyrsiau dŵr cysylltiedig. Mae'r cofnodion hyn yn cadarnhau bod dyfrgwn sy'n gysylltiedig â'r ACA yn defnyddio'r dirwedd ehangach o amgylch ardal y gwaith. Bydd y rhan fwyaf o'r gweithgarwch adeiladu yn digwydd yng ngolau dydd pan	- Gweithio yn ystod y dydd lle bynnag y bo modd. - Dyluniad goleuadau sensitif ac osgoi gorlif golau i goridau'r glannau. - O leiaf 10 m o bellter o gyrсияu dŵr y gwyddir eu bod yn cefnogi gweithgarwch dyfrgwn. - O leiaf 50 m o bellter o'r wâl bosib a nodwyd. - Pyllau lansio a derbyn HDD wedi'u lleoli o leiaf 30 m o lannau cyrsiau dŵr. - Rhwystrau acwstig dros dro o

PWYLLGOR CYNLLUNIO	DYDDIAD: 28/09/2026
ADRODDIAD Y PENNAETH ADRAN CYNORTHWYOL	

ddyfrgwn hyfyw. • Cynnal ystod naturiol dyfrgwn. • Cynnal cynefin bridio, gorffwys, cymudo a fforio addas. • Sicrhau nad yw aflonyddwch yn effeithio'n andwyol ar lwyddiant atgenhedlu neu hyfywedd poblogaeth.		fydd dyfrgwn yn gyffredinol yn llai gweithgar. Ni chynigir unrhyw waith uniongyrchol o fewn cyrsiau dŵr na safleoedd bridio hysbys. Bydd pyllau lansio a derbyn HDD wedi'u lleoli i ffwrdd o lannau cyrsiau dŵr, gan leihau'r risg o sŵn ac aflonyddwch. Bydd risgiau llygredd posib yn cael eu rheoli trwy reolaethau adeiladu safonol a mesurau atal llygredd a sicrhawyd trwy'r CEMP. Bydd cydymffurfio â gofynion trwyddedu amgylcheddol a chanllawiau atal llygredd safonol y diwydiant yn sicrhau diogelu cynefinoedd i lawr yr afon ac ansawdd dŵr.	amgylch gweithgarwch HDD lle bo angen. • Arolygon dyfrgwn cyn adeiladu. • Trwyddedu CNC os oes angen. • Mesurau atal llygredd wedi'u sicrhau drwy'r CEMP. • Rheolaethau storio tanwydd a chemegol. • Gweithdrefnau ymateb i ollyngiadau. • Rampiau dianc a mesurau gwahardd ar gyfer cloddiadau a adewir yn agored dros nos. • Goruchwyliaeth ecolegol yn ystod y gwaith adeiladu. Bydd y mesurau lliniaru arfaethedig yn sicrhau bod aflonyddwch, effeithiau ar ansawdd dŵr a risgiau o anaf neu farwolaeth yn cael eu hosgoi neu eu lleihau i lefel fechan. Felly, gellir dod i'r casgliad y tu hwnt i amheuaeth wyddonol resymol na fydd Gwaith Glaslyn yn effeithio'n andwyol ar gyfanrwydd ACA Pen Llŷn a'r Sarnau ac na fydd yn tanseilio cyflawni'r amcanion cadwraeth ar gyfer dyfrgwn.
--	--	--	---

Crynodeb o'r Asesiad Priodol (i'w gynnal gan yr Awdurdod Cymwys (Cyngor Gwynedd) mewn ymgynghoriad â Chyfoeth Naturiol Cymru)

O ystyried amcanion cadwraeth y safleoedd Ewropeaidd perthnasol, natur y gwaith arfaethedig, y wybodaeth arolygu sydd ar gael, a'r mesurau lliniaru a sicrhawyd drwy'r CEMP a chynlluniau

PWYLLGOR CYNLLUNIO	DYDDIAD: 28/09/2026
ADRODDIAD Y PENNAETH ADRAN CYNORTHWYOL	

rheoli ecolegol cysylltiedig, gellir dod i'r casgliad na fydd Gwaith Ceblau Glaslyn yn arwain at effaith andwyol ar gyfanrwydd y canlynol:

- Coedydd Derw a Safleoedd Ystlumod Meirion; neu
- ACA Pen Llŷn a'r Sarnau,

un ai yn unigol neu mewn cyfuniad â chynlluniau a phrosiectau eraill.

5.277 Rhoddwyd yr HRA i CNC am sylwadau a chadarnhaodd eu Cynghorydd Arbenigol Arweiniol ar gyfer Cynllunio Datblygu, yn ddarostyngedig i'r amodau a'r mesurau lliniaru a nodwyd yn yr asesiad, eu bod yn cytuno y gellir diystyru effaith andwyol ar gyfanrwydd Ardaloedd Cadwraeth Arbennig.

Parth Clustogi Mwynau

5.278 Mae'r datblygiad arfaethedig yn gorgyffwrdd â'r Parth Clustogi Mwynau sy'n amgylchynu Chwarel Garth ym Minffordd. Pwrpas parthau clustogi mwynau, fel y'u diffinnir gan NCTM 1: Agregau, yw diogelu gweithrediadau mwynau a defnydd o dir cyfagos trwy amddiffyn y defnydd hwnnw sydd fwyaf sensitif i effeithiau posib gweithgarwch echdynnu mwynau, tra hefyd yn sicrhau nad yw gweithrediadau mwynau yn cael eu cyfyngu'n ormodol gan ddatblygiad cyfagos.

5.279 Mae parth clustogi Chwarel Garth yn ymestyn 200 m o ffin y chwarel ac mae'n gorgyffwrdd â rhannau o'r datblygiad arfaethedig sydd wedi'u lleoli ar lan ddwyreiniol afon Glaslyn ac o fewn cyffiniau CSEC a THH Minffordd a'r Garth.

5.280 Fodd bynnag, nid yw parthau clustogi yn cynrychioli cyfyngiad cyfan-gwbl ar ddatblygu. Mae'r datblygiad arfaethedig yn cynnwys seilwaith trawsyrru trydan ac nid yw'n cyflwyno derbynnydd sensitif, megis datblygiad preswyl, cyfleusterau addysgol neu ddefnyddiau gofal iechyd, a allai arwain at wrthdaro rhwng defnydd y tir a gweithrediad presennol y chwarel.

5.281 Mae'r ACLI o'r farn nad yw'r datblygiad yn debygol o gyfyngu ar weithrediad parhaus Chwarel Garth.

5.282 Ystyrir felly na fyddai'r cynnig yn tanseilio diben y Parth Clustogi Mwynau ac nad yw'n groes i Bolisi MWYN 5 Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Gwynedd ac Ynys Môn.

Rheoli Deunyddiau a Gwastraff

5.283 Mae Pennod 14 o'r DA yn asesu'r effeithiau tebygol sy'n deillio o ddefnydd deunyddiau a chynhyrchu a rheoli gwastraff wrth adeiladu Gwaith Ceblau Glaslyn. Mae'r asesiad yn nodi y byddai'r rhan fwyaf o'r gwastraff a gynhyrchir yn cynnwys gwastraff nad yw'n beryglus sy'n gysylltiedig â gosod ceblau, gwaith HDD, cyfansoddion adeiladu, datgomisiynu seilwaith presennol, clirio llystyfiant, deunydd cloddio dros ben, pecynnu a gwastraff gweithwyr adeiladu. Byddai meintiau llai o wastraff peryglus hefyd yn ymddangos, gan gynnwys olew inswleiddio cebl ac olewau gwastraff o'r safle adeiladu.

5.284 Daw'r DA i'r casgliad y byddai graddfa cynhyrchu gwastraff yn gymharol isel o ystyried natur y datblygiad. Ni fyddai unrhyw waith dymchwel ar raddfa fawr a byddai gweithgareddau cloddio

PWYLLGOR CYNLLUNIO	DYDDIAD: 28/09/2026
ADRODDIAD Y PENNAETH ADUAN CYNORTHWYOL	

wedi'u cyfyngu i raddau helaeth i ffosydd cebl a gwaith HDD. Ar ben hynny, mae llawer o'r ffrydiau gwastraff a ragwelir yn gallu cael eu hailddefnyddio, eu hailgylchu neu eu hadfer yn hytrach na chael gwared arnynt i safleoedd tirlenwi.

5.285 Mae'r Rhagolwg Gwastraff a gyflwynwyd yn ddiweddarach yn darparu rhagor o fanylion am sut y byddai deunyddiau yn cael eu rheoli trwy gydol y broses adeiladu ac yn dangos bod y cynllun wedi'i ddylunio i wneud y mwyaf o ailddefnyddio ac adfer, a lleihau gwaredu.

5.286 Mae'r ffrwd deunydd mwyaf sylweddol yn cynnwys priddoedd cloddiedig a cherrig sy'n deillio o greu ffosydd a gweithgareddau adeiladu eraill. Mae'r Rhagolwg Gwastraff yn nodi oddeutu 201,006 m³ o ddeunydd wedi'i gloddio, gyda thua 100,503 m³ y bwriedir ei ailddefnyddio ar y safle ar gyfer ôl-lenwi ffosydd a gwaith peirianeg ac adfer arall. Bwriedir ailgylchu'r 100,503 m³ sy'n weddill i'w ailgylchu neu ei ailddefnyddio'n fuddiol, a thrwy hynny leihau gofynion gwaredu oddi ar y safle.

5.287 Mae ffrydiau gwastraff eraill i'w dargyfeirio o safleoedd tirlenwi yn cynnwys tua 467 tonnall o wastraff concrit yn cael ei ailgylchu a'i ailddefnyddio fel agregau, tra byddai tua 2,615 m³ o fwd drilio a thoriadau a gynhyrchir trwy weithrediadau HDD yn cael eu hailgylchu. Byddai gwastraff metelaidd, gan gynnwys ceblau diangen, dur adeiladu ac offer trydanol, yn cael ei adfer a'i ailgylchu, tra byddai pren, plastigau, gwydr, papur, cardfwrdd a deunyddiau pecynnu yn cael eu gwahanu a'u hailgylchu lle bo hynny'n ymarferol. Byddai llystyfiant sydd wedi'i glirio a gwastraff gwyrdd yn cael eu torri'n sglodion, eu compostio neu eu hailddefnyddio mewn ffordd fuddiol fel arall.

5.288 Mae'r rhagolwg hefyd yn nodi gwastraff sy'n codi trwy ddatgomiynu'r seilwaith cebl presennol, gan gynnwys olew cebl, ceblau diangen, concrit, dur a deunyddiau adeiladu cysylltiedig. Byddai olew inswleiddio cebl yn cael ei adfer a'i reoli trwy gyfleusterau trwyddedig priodol, gyda threfniadau ar wahân ar gael pe bai profion yn nodi presenoldeb PCBs. Rhagwelir ffrydiau gwastraff peryglus, gan gynnwys amsugnyddion, deunydd pacio halogedig, olewau gwastraff, olewau hydrolig, gwrthrewydd, paent, farnais a WEEE, mewn meintiau cymharol fach a byddent yn cael eu hanfon i gyfleusterau adfer arbenigol yn hytrach na safleoedd tirlenwi.

5.289 Mae'r DA yn nodi y bydd deunyddiau'n cael eu rheoli yn unol â'r hierarchaeth gwastraff (NCT 21), Mae mesurau lliniaru yn cynnwys ailddefnyddio deunyddiau a gloddiwyd, gwneud y defnydd mwyaf o ddeunyddiau trwy ddylunio, defnyddio cydrannau parod lle bo'n ymarferol, ystyried dadadeiladu ac adfer deunyddiau yn y dyfodol, gweithredu system gyflenwi "*mewn union bryd*", osgoi gor-archebu, a gwahanu ffrydiau gwastraff yn y ffynhonnell.

5.290 Yn y Rhagolwg Gwastraff a ddarparwyd gan yr ymgeisydd, mae nod cyfradd dargyfeirio o 100% o safleoedd tirlenwi ar gyfer y rhan fwyaf o ffrydiau gwastraff. Dim ond fel llwybr posib ar gyfer priddoedd halogedig, os ydynt yn ymddangos, y mae gwaredu trwy dirlenwi yn cael ei nodi, er mai'r rhagdybiaethau presennol yn seiliedig ar ddata sydd ar gael o ymchwilio i'r tir yw na fydd angen cael gwared ar unrhyw briddoedd halogedig.

5.291 Mae'r DA yn nodi capasiti tirlenwi ar gyfer gwastraff nad yw'n beryglus ac sy'n anadweithiol fel yr unig dderbynnwyd gwastraff sydd angen asesiad manwl ac yn dod i'r casgliad y byddai cyfaint y gwastraff sydd angen ei waredu yn sylweddol is na'r trothwy ar gyfer effeithiau sylweddol. Felly, asesir bod yr effaith ar gapasiti tirlenwi sydd ar gael yn ddibwys, gan arwain at effaith weddilliol ychydig yn andwyol nad yw'n sylweddol.

5.292 Yn gyffredinol, mae'r wybodaeth a gyflwynwyd yn dangos ymrwymiad clir i reoli deunyddiau cynaliadwy trwy effeithlonrwydd deunyddiau, ailddefnyddio deunyddiau a gloddiwyd, ailgylchu

PWYLLGOR CYNLLUNIO	DYDDIAD: 28/09/2026
ADRODDIAD Y PENNAETH ADRA CYNORTHWYOL	

ac adfer gwastraff adeiladu a lleihau gwaredu trwy dirlenwi. Felly, ystyrir bod y cynnig yn cyd-fynd yn fras ag amcanion Polisi Cynllunio Cymru sy'n ymwneud â'r economi gylchol a hierarchaeth gwastraff a'i fod yn gyson â Pholisi PS 5 o'r Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd.

- 5.293 Fodd bynnag, mae paragraffau 7.9.8 a 7.9.10 o Bennod 7 yn nodi y bydd Cynllun Rheoli Deunyddiau yn cael ei baratoi yn unol â'r *CL: AIRE The Definition of Waste Code of Practice* ac y bydd deunyddiau a gloddiwyd yn cael eu hailddefnyddio lle bynnag y bo modd, naill ai ar safle gwaith Glaslyn neu ar safleoedd eraill. Mae'r DA hefyd yn nodi y byddai deunyddiau sydd angen eu symud o'r safle yn cael eu cymryd i gyfleuster a drwyddedir yn briodol.
- 5.294 Nid yw'r DA na'r Rhagolwg Gwastraff yn nodi unrhyw waith peirianeg, cynigion adfer neu gynlluniau tirwedd penodol o fewn safle'r cais a fyddai'n ei gwneud yn ofynnol i gyfaint y priddoedd a'r cerrig cloddiedig a ragwelir i ddeillio o'r datblygiad. Nid ydynt ychwaith yn nodi unrhyw brosiectau oddi ar y safle, safleoedd derbyn neu gynlluniau aildddefnyddio buddiol a allai dderbyn deunydd cloddiedig dros ben yn unol â'r *CL: AIRE Code of Practice*.
- 5.295 Er bod y DA a'r Rhagolwg Gwastraff yn dangos ymrwymiad i wneud y mwyaf o aildddefnyddio, adfer ac ailgylchu deunyddiau a gloddiwyd, nid oes digon o wybodaeth wedi'i darparu i ddangos sut y byddai'r amcanion hyn yn cael eu cyflawni yn ymarferol. Yn benodol, nid yw'r cais yn nodi'r lleoliadau penodol lle byddai deunyddiau a gloddiwyd yn cael eu haildddefnyddio, y safleoedd derbyn ar gyfer unrhyw ddeunyddiau dros ben, na'r mecanweithiau lle byddai deunyddiau yn cael eu hadfer neu eu trosglwyddo yn unol â'r *CL: AIRE The Definition of Waste Code of Practice*.
- 5.296 O ganlyniad, nid yw'n bosib ar hyn o bryd i asesu yn llawn reolaeth a chyrchfan derfynol cyfran sylweddol o'r deunydd cloddiedig a fyddai'n deillio o'r datblygiad, nac i wirio y gellir cyflawni'r cyfraddau aildddefnyddio ac adfer a ragwelir.
- 5.297 I leihau effeithiau amgylcheddol, hwyluso monitro effeithiol yn ystod y cyfnod adeiladu a sicrhau bod cynhyrchu gwastraff yn cael ei leihau lle bynnag y bo'n ymarferol, dylai'r Awdurdod Cynllunio Lleol sicrhau, drwy amod, bod Cynllun Rheoli Deunyddiau a Gwastraff manwl yn cael ei gyflwyno a'i gymeradwyo. Dylai hyn nodi'n glir faint o ddeunyddiau a'r math sy'n deillio o'r datblygiad, y lleoliadau lle byddai deunyddiau'n cael eu haildddefnyddio ar y safle, manylion unrhyw safleoedd a chyfleusterau derbyn oddi ar y safle, y modd y byddai deunyddiau'n cael eu trosglwyddo neu eu hadfer, a mesurau wrth gefn pe na bai'r cyfleoedd aildddefnyddio arfaethedig ar gael.
- 5.298 Byddai cyflwyno'r wybodaeth hon yn rhoi sicrwydd bod deunyddiau sy'n deillio o'r datblygiad yn cael eu rheoli mewn modd cynaliadwy, gyda'r effaith leiaf posib ar yr amgylchedd, ac yn unol â'r egwyddorion lleihau, aildddefnyddio ac adfer gwastraff a nodir yn y DA.

Rheilffyrdd

- 5.299 Cododd Network Rail a Rheilffyrdd Ffestiniog ac Ucheldir Cymru (WHRL/FRC) bryderon ynghylch amddiffyn seilwaith y rheilffyrdd, cynnal gweithrediadau'r rheilffyrdd a rheoli gweithgareddau adeiladu yn agos at reilffyrdd gweithredol.
- 5.300 Gofynnodd Network Rail am asesiad o'r effeithiau posib sy'n deillio o waith HDD o dan Lein Arfordir y Cambrian, gan gynnwys risgiau sefydlogi, dirgryniad, draenio ac adeiladu, ynghyd â monitro a lliniaru priodol. Roedd hefyd angen Cytundeb Diogelu Asedau (ASPRO) cyn dechrau gwaith sy'n effeithio ar y rheilffordd. Ar ôl adolygu'r wybodaeth a gyflwynwyd, cadarnhaodd Network Rail nad oedd ganddo unrhyw sylwadau pellach a chydnabu bod Cytundeb Diogelu Asedau yn mynd rhagddo.

PWYLLGOR CYNLLUNIO	DYDDIAD: 28/09/2026
ADRODDIAD Y PENNAETH ADRAN CYNORTHWYOL	

5.301 Nid oedd WHRL yn gwrthwynebu'r datblygiad mewn egwyddor ond cododd bryderon ynghylch ehangu'r rheilffordd o amgylch Gorsaf Pen y Mount yn y dyfodol, symud y trac dros dro, trefniadau mynediad adeiladu, cadw seilwaith cebl diangen ac olion archeolegol y gellid dod ar eu traws yn ystod y gwaith.

5.302 Ystyrir y gellir mynd i'r afael â'r materion hyn drwy'r Cytundeb Diogelu Asedau a gweithredu'r Cynllun Rheoli Traffig Adeiladu (CTMP) a'r Cynllun Rheoli Amgylcheddol Adeiladu (CEMP). Dylai'r CTMP sicrhau mynediad parhaus i gyfleusterau rheilffyrdd a lleihau tarfu ar weithrediadau'r rheilffyrdd, tra dylai'r CEMP sicrhau methodolegau adeiladu cytunedig, rheolaethau dirgryniad a draenio, gofynion monitro a mesurau amddiffyn rheilffyrdd. Byddai ymchwiliad a lliniaru archeolegol hefyd yn cael ei sicrhau trwy amod fel y trafodwyd yn flaenorol.

5.303 Er nad oes unrhyw bolisi penodol o fewn y CDLI ar y Cyd yn ymwneud yn uniongyrchol â diogelu seilwaith rheilffyrdd gweithredol, ystyrir bod Meini Prawf 7 ac 8 Polisi PCYFF 2 yn berthnasol. Mae'r cynnig wedi cael ei adolygu gan Network Rail a Rheilffyrdd Ffestiniog ac Ucheldir Cymru, ac nid yw'r naill na'r llall ohonynt yn gwrthwynebu'r datblygiad. Yn amodol ar weithredu'r Cytundeb Diogelu Asedau a'r mesurau a sicrhawyd drwy'r Cynllun Rheoli Traffig Adeiladu (CTMP) a'r Cynllun Rheoli Amgylcheddol Adeiladu (CEMP), ystyrir na fyddai'r cynnig yn cael effaith annerbyniol ar weithrediad diogel, cynnal a chadw neu ddefnydd diogel y rhwydwaith rheilffyrdd yn y dyfodol. Ystyrir felly bod y cynnig yn cydymffurfio â Meini Prawf 7 ac 8 Polisi PCYFF 2.

Yr Iaith Gymraeg

5.304 Maen prawf 1 (a) polisi strategol PS 1 Mae *"Yr Iaith Gymraeg a'r Diwylliant Cymreig"* yn nodi y bydd angen darparu Datganiad Iaith Gymraeg gyda *"datblygiad manwerthu, diwydiannol neu fasnachol sy'n cyflogi mwy na 50 o weithwyr a/neu gydag arwynebedd o 1,000 m sg. neu fwy"*.

5.305 Mewn ymateb i'r angen hwn, mae'r ymgeisydd wedi darparu Datganiad Iaith Gymraeg. Mae Pennod 6 y datganiad wedi asesu effeithiau posib y datblygiadau ar yr iaith a'r gymuned yn seiliedig ar symudiad iaith a phoblogaeth; elfennau gweledol; ansawdd bywyd a seilwaith cymunedol; cyflogaeth.

5.306 Mae Uned Iaith yr Awdurdod Lleol wedi adolygu'r datganiad ac nid ydynt wedi cynnig unrhyw wrthwynebiad ac maent wedi argymhell y dylid cynnwys sgiliau Gymraeg mewn unrhyw hysbyseb am swyddi newydd.

5.307 Ar sail natur y cais a'r dystiolaeth sydd i law, ni ystyrir ei bod yn debygol y byddai'r cynnig yn cael effaith negyddol ar y Gymraeg. Felly, ystyrir bod y cynnig yn cydymffurfio â pholisi PS 1 a'r arweiniad a gynhwysir yn y CCA Cynnal a Chreu Cymunedau Ffyniannus a Chynaliadwy.

Yr economi

5.308 Mae Nodyn Cyngor Technegol (NCT) 23: Datblygiad Economaidd, yn datgan: wrth wneud penderfyniad ar geisiadau cynllunio, bydd angen i awdurdodau cynllunio lleol gadw mewn cof bod defnydd busnes traddodiadol (Dosbarthiadau Defnydd B1–B8) ond yn cyfrif am ran o'r gweithgaredd yn yr economi. Dylai'r system gynllunio felly gydnabod y manteision economaidd sy'n deillio o ystod eang o ddatblygiadau a sicrhau bod penderfyniadau cynllunio yn cydbwysu ystyriaethau economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol yn briodol.

PWYLLGOR CYNLLUNIO	DYDDIAD: 28/09/2026
ADRODDIAD Y PENNAETH ADRAN CYNORTHWYOL	

5.309 Byddai'r datblygiad arfaethedig yn sicrhau gweithrediad parhaus a gwytnwch rhan strategol bwysig o rwydwaith trawsyrru'r Grid Cenedlaethol yng ngogledd-orllewin Cymru. Byddai'r gwaith adeiladu yn cynhyrchu buddion economaidd uniongyrchol ac anuniongyrchol trwy gyfleoedd cyflogaeth, gwariant o fewn cadwyni cyflenwi lleol a defnyddio contractwyr a gwasanaethau arbenigol. Yn y tymor hwy, byddai'r cynllun yn cefnogi trawsyrru trydan yn ddibynadwy ar draws y rhanbarth, a thrwy hynny gyfrannu at y seilwaith sy'n angenrheidiol i gefnogi gweithgarwch economaidd a gofynion ynni yn y dyfodol.

5.310 Yn unol â hynny, ystyrir y byddai'r cynnig yn cael effaith economaidd gadarnhaol ac y byddai'n cyd-fynd ag amcanion NCT 23 a Pholisi Strategol PS13 y Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd.

6. Casgliad:

- 6.1 Mae'r datblygiad arfaethedig yn rhan o Brosiect Atgyfnerthu Pentir i Drawsfinnydd sydd o arwyddocâd cenedlaethol a byddai'n hwyluso disodli a moderneiddio'r seilwaith trawsyrru trydan presennol rhwng CSEC y Wern a CSEC Minffordd. Byddai'r cynllun yn cynyddu gwytnwch y rhwydwaith ynni, yn cefnogi cynhyrchu ynni adnewyddadwy ehangach ac yn cyfrannu tuag at amcanion cenedlaethol diogelwch ynni. Cefnogir egwyddor y datblygiad gan Gymru'r Dyfodol, Polisi Cynllunio Cymru ac amcanion strategol y Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd.
- 6.2 Mae'r cais wedi'i gefnogi gan Ddatganiad Amgylcheddol, diweddariadau technegol dilynol a gwybodaeth ychwanegol a gyflwynwyd yn ystod y broses benderfynu. Mae'r asesiad yn nodi nifer o effeithiau andwyol dros dro yn ystod y cyfnod adeiladu, yn enwedig mewn perthynas â chymeriad y dirwedd, sŵn a dirgryniad, ecoleg, perygl llifogydd ac aflonyddwch sy'n gysylltiedig â gosod y llwybr cebl newydd. Fodd bynnag, mae'r rhan fwyaf o'r effeithiau hyn o natur dros dro a gellir eu lleihau i lefelau derbyniol trwy fesurau lliniaru, cynlluniau rheoli manwl ac amodau cynllunio.
- 6.3 Byddai'r cynnig yn arwain at rai effeithiau anochel, gan gynnwys effeithiau ar Barc a Gardd Hanesyddol Gofrestredig y Wern, aflonyddwch dros dro o fewn SoDdGA Glaslyn, colli cynefinoedd parhaol i raddau cyfyngedig ac effeithiau adeiladu tymor byr ar gymeriad tirwedd a derbynyddion cyfagos. Serch hynny, mae ymgyngoreion statudol, gan gynnwys CNC, Cadw, Network Rail ac Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri, yn fodlon y gellir lliniaru, rheoli neu wrthbwyso'r effeithiau hyn yn briodol drwy amodau a chyflwyniadau manwl yn y dyfodol.
- 6.4 Mae'r cais yn dangos cydymffurfiaeth â darpariaethau perthnasol polisiau PS1, PS4, PS5, PS13, PS19, PS20, TRA4, PCYFF2, PCYFF3, PCYFF4, AMG3, AMG5, AMG6, AT1, AT4 a MWYN5 o'r Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd, ynghyd â gofynion Polisi Cynllunio Cymru, NCT 15, NCT 23 a NCT 24. Yn ddarostyngedig i osod amodau cynllunio priodol, ystyrir y gellir rheoli'r effeithiau amgylcheddol a nodwyd yn foddhaol a bod y manteision cyhoeddus ehangach sy'n deillio o ddarparu seilwaith ynni o bwysigrwydd cenedlaethol yn fwy na'r effeithiau andwyol gweddilliol a nodwyd.
- 6.5 Mae'r ACLI yn dod i'r casgliad bod y cynnig yn dderbyniol ac yn argymhell bod caniatâd cynllunio yn cael ei roi yn ddarostyngedig i'r amodau cynllunio a argymhellir.

PWYLLGOR CYNLLUNIO	DYDDIAD: 28/09/2026
ADRODDIAD Y PENNAETH ADRAN CYNORTHWYOL	

7. Argymhelliad:

7.1 Cymeradwyo yn ddarostyngedig i'r amodau sy'n ymwneud â'r canlynol:

Rhif.	Pwnc	Crynodeb Byr
1	Terfyn Amser	Rhaid i'r datblygiad ddechrau o fewn 5 mlynedd i'r dyddiad caniatâd.
2	Cynlluniau a Gymeradwywyd	Y datblygiad i'w wneud yn unol â'r cynlluniau a'r dogfennau a gymeradwywyd.
3	Oriau Gwaith	Yn cyfyngu ar oriau gwaith adeiladu ac yn rheoli gweithrediadau y tu allan i oriau.
4	Gosod Seilbyst	Yn gofyn am ddulliau distaw (non-percussive) o osod seilbyst ac yn cyfyngu ar oriau gosod y seilbyst.
5	Goleuadau	Yn gofyn am gymeradwyo cynllun goleuo i amddiffyn ystlumod a rheoli gorlif golau cyn gosod goleuadau gweithredol.
6	Rhannau Caeddig	Yn gofyn am gymeradwyo lliwiau a gorffeniadau ar gyfer ffensys, waliau, giatiau a thriniaethau eraill ar gyfer terfynau.
7	Halogiad	Yn gofyn am waith ymchwilio a chyweirio unrhyw halogiad nas nodwyd o'r blaen a ganfuwyd yn ystod y datblygiad.
8	Lliniaru Llifogydd	Yn gofyn am gymeradwyo a gweithredu cynllun lliniaru llifogydd dros dro ar gyfer y gwaith adeiladu.
9	Parc a Gardd Gofrestredig y Wern	Yn gofyn am gynllun lliniaru/gwrthbwysu ar gyfer effeithiau ar Barc a Gardd Gofrestredig y Wern.
10	Cynllun Rheoli a Monitro Cynefinoedd (HMP)	Yn sicrhau gwneud iawn am gynefinoedd, budd net i fioamrywiaeth, monitro cynefinoedd a rheoli INNS dros yr hirdymor.
11	Cynllun Rheoli Tirwedd ac Ecolegol (LEMP)	Yn sicrhau adfer tirwedd, plannu, rheoli cynefinoedd, monitro ecolegol a chynnal a chadw hirdymor.
12	Ymchwiliad Archeolegol (WSI)	Yn ei gwneud yn ofynnol cael ymchwiliad a chofnod archeolegol cyn dechrau'r gwaith paratoi tir.
13	Adrodd Archeolegol	Yn gofyn am gyflwyno adroddiad archeolegol ac archif yn dilyn gwaith maes.
14	Cynllun Rheoli Deunyddiau a	Yn sicrhau rheolaeth gynaliadwy, ailddefnyddio, adfer a chael gwared ar ddeunyddiau a gloddiwyd a gwastraff.

PWYLLGOR CYNLLUNIO	DYDDIAD: 28/09/2026
ADRODDIAD Y PENNAETH ADRAN CYNORTHWYOL	

	Gwastraff	
15	Hawliau Tramwy Cyhoeddus	Yn gofyn am drefniadau rheoli ar gyfer hawliau tramwy cyhoeddus a Llwybr Beicio Cenedlaethol 8 yn ystod y gwaith adeiladu.
16	Datganiad Dull Adeiladu	Cyn dechrau unrhyw waith ar y safle, Datganiadau Dull Adeiladu (CMS) ac Asesiadau Risg i fodloni'r Sefydliad Goruchwyllo ar gyfer y Rhwydwaith Ffyrdd Strategol (SRN).
17	Dyluniad ailsefydlu'r ffordd gerbydau	Cyn dechrau unrhyw waith ar y safle, bydd angen cyflwyno dyluniad ailsefydlu'r ffordd gerbydau a manyleb palmant a fydd yn bodloni Llywodraeth Cymru, fel y Sefydliad Goruchwyllo ar gyfer y Rhwydwaith Ffyrdd Strategol.
18	Asedau Dŵr Cymru	Yn ei gwneud yn ofynnol cynnal arolygon a threfniadau diogelu/dargyfeirio ar gyfer seilwaith dŵr a charthffosiaeth.
19	Draenio Dŵr Wyneb	Yn atal dŵr wyneb rhag cysylltu â'r rhwydwaith carthffosiaeth cyhoeddus.
20	Arwyddion Cymraeg	Yn ei gwneud yn ofynnol i arwyddion sy'n gysylltiedig â'r datblygiad fod yn y Gymraeg neu'n ddwyieithog gyda blaenoriaeth i'r Gymraeg.
21	Tŷ Pen Twannel (THH) Minffordd	Yn gofyn am Gynllun Rheoli Traffig Adeiladu pecyn-benodol ar gyfer gwaith Tŷ Pen Twannel Minffordd.
22	CEMP Tŷ Pen Twannel Minffordd	Yn gofyn am Gynllun Rheoli Amgylcheddol Adeiladu pecyn-benodol ar gyfer gwaith Tŷ Pen Twannel Minffordd.
23	HMP Tŷ Pen Twannel Minffordd	Yn gofyn am Gynllun Rheoli Cynefinoedd pecyn-benodol ar gyfer gwaith Tŷ Pen Twannel Minffordd.
24	CTMPs ar gyfer y Prif Becynnau Gwaith	Yn gofyn am Gynlluniau Rheoli Traffig Adeiladu ar wahân ar gyfer pecynnau gwaith CSEC y Wern, CSEC Garth, CSEC Minffordd a Cheblau Glaslyn.
25	CEMPs ar gyfer y Prif Becynnau Gwaith	Yn gofyn am Gynlluniau Rheoli Amgylcheddol Adeiladu ar wahân ar gyfer pecynnau gwaith CSEC y Wern, CSEC Garth, CSEC Minffordd a Cheblau Glaslyn.